

**MACHLUD CYFRAITH HYWEL**

GOLYGIAD BEIRNIADOL AC EGLURHAOL  
O LSGR. BL ADD. 22356 (S)



TESTUNAU AC ASTUDIAETHAU YNG NGHYFRAITH HYWEL  
TEXTS AND STUDIES IN MEDIEVAL WELSH LAW  
III

**MACHLUD CYFRAITH HYWEL**

GOLYGIAD BEIRNIADOL AC EGLURHAOL  
O LSGR. BL ADD. 22356 (S)

CHRISTINE JAMES

SEMINAR CYFRAITH HYWEL  
CAERGRAWNT  
2013

Hawlfraint © Christine James

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2013  
ar Wefan Cyfraith Hywel  
<http://cyfraith-hywel.cymru.ac.uk/cy/machlud-cyf-hyw.php>

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotocopiö, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan yr awdur.

Cyhoeddwyd gan Seminar Cyfraith Hywel  
Noddwyd gan Sefydliad Ymchwil Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau,  
Prifysgol Abertawe

# CYNNWYS

	<i>Tud.</i>
DIOLCHIADAU	vi
RHAGYMATRODD	
1. CYFRAITH HYWEL: YSTYRIAETHAU CYFFREDINOL	vii
Y LLAWYSGRIFAU	ix
Y 'DEDDFGRONAU'	xii
GWEINYDDU CYFRAITH HYWEL	xvi
DIWYLLIANT Y DOSBARTHWR	xxii
2. LLYFR BLEGYWRD A PHERTHYNAS Y LLAWYSGRIFAU	xxvi
'ADRANNAU CRWYDROL'	xxviii
Y COPÏYDD-OLYGYDD	xxx
DOSBARTHU LLAWYSGRIFAU BLEG	xxxiii
PERTHYNAS <i>S</i> Â RHAI LLAWYSGRIFAU ERAILL ( <i>I A TIM</i> )	xxxvii
CASGLIADAU	xlix
3. LLAWYSGRIF BL ADD. 22356 ( <i>S</i> )	li
DISGRIFIAD O'R LLAWYSGRIF	li
HANES Y LLAWYSGRIF	lviii
ORGRAFF A SEINYDDIAETH	lxi
ATODIAD I BENNOD 3	lxx
NODIADAU'R RHAGYMATRODD	lxxii
DULL GOLYGU'R TESTUN BEIRNIADOL	lxxxiv
CYNNWYS TESTUN <i>S</i>	lxxxv
CYFREITHIAU HYWEL DDA YN ÔL LLSGR. BL ADD. 22356 ( <i>S</i> )	1
NODIADAU TESTUNOL	116
CONSBECTWS 1	148
CONSBECTWS 2	161
GEIRFA	194
MYNEGAI I ENWAU PRIOD AC ENWAU LLEOEDD	245
RHESTR O LLAWYSGRIFAU CYMRAEG CYFRAITH HYWEL	247
LLYFRYDDIAETH	249
BYRFODDAU LLYFRYDDOL A CHYFFREDINOL	268

## DIOLCHIADAU

Ffrwyth gwaith a ddatblygodd dros lawer o flynyddoedd yw'r astudiaeth hon. Gorwedd ei gwreiddiau yn yr ymchwil a gyflawnais ar gyfer fy nhraethawd doethuriaethol anghyhoeddedig, 'Golygiad o BL Add. 22356 o Gyfraith Hywel, ynghyd ag astudiaeth gymharol ohono a Llanstephan 116' (Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 1984), ac er i lawer o flynyddoedd fynd heibio oddi ar hynny, y mae'r cynnyrch terfynol hwn yn aeddfetach yn sgil ei faethu yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r gyfrol bresennol ar gyfer ei chyhoeddi yn awr, manteisiais ar y cyfle i gywiro gwallau yn yr astudiaeth gychwynnol honno, ac i'w diwygio'n drwyadl lle y bu angen.

Wrth gyhoeddi'r fersiwn terfynol hwn, dyletswydd hyfryd yw cael cydnabod yn ddiolchgar y cymorth a gefais o gyfeiriadau gwahanol dros y blynyddoedd. Elwais yn fawr ar gyngor a gwybodaeth arbenigol holl aelodau Seminar Cyfraith Hywel, ond yn arbennig y diweddar Athro Dafydd Jenkins, Dr Morfydd E. Owen, yr Athro Thomas Charles-Edwards, yr Athro Paul Russell a Dr Sara Elin Roberts. Mawr yw fy niolch iddynt i gyd.

Rwy'n ddiolchgar hefyd i staff y gwahanol sefydliadau a llyfrgelloedd ymchwil y manteisiais ar eu hadnoddau dros y blynyddoedd, ac yn arbennig staff Geiriadur Prifysgol Cymru, Y Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Prifysgol Abertawe a Llyfrgell Prifysgol Caerdydd. Y mae fy niolch pennaf yn y cyd-destun hwn i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac yn arbennig i gyn-aelod o'i staff, Mr Daniel Huws, am ei gymwynasgarwch eithriadol.

Carwn gydnabod fy nyled i Sefydliad Ymchwil Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Abertawe, am fy rhyddhau o'm dyletswyddau arferol am gyfnod imi gael paratoi'r gwaith hwn ar gyfer y wasg, ac am nawdd tuag at gostau ei gyhoeddi. Hoffwn ddiolch hefyd i'm cyfeillion o gydweithwyr yn Adran y Gymraeg, Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe, am eu cefnogaeth ac am eu parodrwydd i ddwyn beichiau ychwanegol er caniatáu i mi ddwyn y gwaith i ben.

Yn olaf, carwn ddiolch yn ddidwyll i'm cyfeillion personol, i'm teulu i gyd, ac uwchlaw pob un arall i'm gŵr, Wyn, am bob cefnogaeth ac anogaeth ar hyd y ffordd. Iddo ef rwy'n cyflwyno'r gyfrol hon.

Christine James  
*Tachwedd 2013*

# RHAGYMADRODD

## 1. CYFRAITH HYWEL: YSTYRIAETHAU CYFFREDINOL

Y mae'r term 'Cyfraith Hywel' yn cyfeirio at y system o gyfreithiau brodorol a arferid yng Nghymru yn ystod yr Oesoedd Canol ac a fu'n wedd bwysig ar ymwybyddiaeth y Cymry o'u hunaniaeth fel cenedl am ganrifoedd lawer. Goroedd y cyfreithiau hynny mewn dros ddeugain o lawysgrifau canoloesol, y rhan fwyaf yn Gymraeg ond rhai yn Lladin, sy'n amrywio o ran eu dyddiad rhwng tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg a chanol yr unfed ganrif ar bymtheg;<sup>1</sup> hynny yw, hanant o'r cyfnod pryd yr oedd Cyfraith Hywel o hyd yn system fyw, weithredol.

Yr 'Hywel' y cyfeirir ato yw Hywel ap Cadell, neu Hywel Dda fel y'i gelwir yn gyffredin, brenin a deyrnasodd dros y rhan fwyaf o dir a daear Cymru am gyfnod byr rhwng 942 a'i farwolaeth c. 950.<sup>2</sup> Y mae traddodiad yn unfrydol wrth briodoli'r gwaith o lunio'r gyfraith frodorol Gymreig i'r brenin dylanwadol hwn. Digwyddodd hynny, meddir, mewn cynhadledd fawr o wŷr eglwysig a chynrychiolwyr o bob cwmwd o'i deyrnas a wysiwyd ynghyd gan Hywel i'r Tŷ Gwyn yn Nyfed (sef Hendy-gwyn, sir Gaerfyrddin), lle yr adolygwyd hen gyfreithiau Cymru gan arddel rhai a dileu rhai eraill, ac awdurdodi rhai newydd yn eu lle. Y llyfrau cyfraith eu hunain yw'r ffynhonnell gynharaf a feddwn sy'n sôn am gynhadledd y Tŷ Gwyn, mewn rhaglith naratif sy'n rhagflaenu'r testun yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau canoloesol,<sup>3</sup> ond gan fod y gynharaf o'r rhain dros ddwy ganrif yn ddiweddarach nag oes Hywel ei hun, rhaid bod yn wylidwys wrth ystyried eu tystiolaeth. Dangoswyd bellach fod 'hanes' cynhadledd y Tŷ Gwyn yn greadigaeth ddiweddarach o dipyn na'r ddegfed ganrif, ac iddo gael ei ddyfeisio, y mae'n bur debyg, i ddibenion propaganda deublyg. Yn gyntaf, dadleuwyd bod y pwyslais ar awdurdod brenhinol y gyfraith frodorol yn ymateb i'r modd y dechreuodd tywysogion Cymru yn y drydedd ganrif ar ddeg droi eu sylw tuag at gyfraith Loegr—yn enwedig pan gynigiai hynny ryw fantais neilltuol iddynt yn nhermau eu huchelgais dynastig, er enghraifft—a chyfreithwyr Cymru (gan ofni am eu bywoliaeth, ymhlith pethau eraill) yn awyddus i'w darbwyllo bod cyfreithiau brodorol Cymru yr un mor awdurdodol a breiniol eu tras â rhai Edward Gyffeswr, dyweder, neu Harri I yn Lloegr. Yn ail, awgrymwyd bod y sylw penodol a roddir yn 'hanes' cynhadledd y Tŷ Gwyn i gyfraniad gwŷr eglwysig yn y broses o adolygu'r gyfraith frodorol, a'r pwyslais cyfochrog a roddir ar ei chydweddiad â chyfraith yr eglwys, yn ymgais i amddiffyn Cyfraith Hywel yn erbyn y feirniadaeth lem a anelwyd ati o dro i dro o'r ddeuddegfed ganrif ymlaen gan glerigwyr dylanwadol, diwygiadol (gan gynnwys John Peckham, archesgob Caergaint yn y drydedd ganrif ar ddeg), a ystyriai fod sawl elfen ynddi, ac yn arbennig y rheolau ynghylch priodas, yn anfoesol ac yn groes i gyfraith sanctaidd yr eglwys.<sup>4</sup>

Nid yw gwrthod 'hanes' cynhadledd y Tŷ Gwyn fel y'i cofnodwyd yn rhaglithiau'r llyfrau cyfraith yn golygu nad oes o leiaf hedyn o wirionedd y tu ôl iddo, fodd bynnag. Dadleuwyd yn argyhoeddiadol fod y llyfrau cyfraith yn cynnwys cnewyllyn o ddeunydd y mae'n ddigon posibl iddo gael ei dynnu ynghyd yn y ddegfed ganrif, ac yn sicr yr amodau ffafriol (yn ôl safonau'r cyfnod) a grëwyd dan deyrnasiad heddychlon Hywel Dda fyddai'r cyd-destun hanesyddol a gwleidyddol mwyaf tebygol ar gyfer gweithgarwch o'r fath.<sup>5</sup> At

hynny, rhaid mai ar gorn rhyw weithgarwch buddiol y rhoddwyd i Hywel—ac i Hywel yn unig o blith brenhinoedd Cymru—yr epithed ‘Dda’. Y mae’n bur sicr y byddai Hywel ei hun wedi bod yn ymwybodol o’r gweithgarwch deddfwriaethol mawr a gyflawnwyd gan gyfoeswyr iddo yn Lloegr ac ar y Cyfandir, a chan Alffred Fawr yn anad neb arall efallai, gan y gwyddom fod Hywel yn ymwelydd cyson â llys Wessex rhwng c. 928 a 949. Yn wir, nid yw barn ysgolheigion diweddar wedi gwro’n bell oddi wrth ddatganiad gofalus Goronwy Edwards wrth iddo bwysu a mesur y dystiolaeth mor bell yn ôl ag 1928: ‘if it is hazardous to accept the simple statement that Hywel Dda issued a lawbook, it would at present be more hazardous to reject it.’<sup>6</sup>

O dderbyn i Hywel wneud rhyw waith trefnu sylfaenol ar gyfreithiau Cymru, ac i ryw ddogfen gael ei llunio ar y pryd yn sgil hynny, rhaid pwysleisio ar unwaith nad yw’r un o’r llyfrau cyfraith sydd ar glawr heddiw yn gopi uniongyrchol o’r ddogfen dybiedig honno, ac nid yw’r un ohonynt ychwaith yn cofnodi’r gyfraith yn union fel yr oedd yn y ddegfed ganrif, yn oes Hywel Dda. Y mae’r llyfrau cyfraith yn cynnwys ar y naill law rai elfennau hynafol, y derbynir yn gyffredin ei bod yn ddigon posibl eu bod yn mynd yn ôl i gyfnod Hywel ei hun os nad cyn hynny,<sup>7</sup> ac ar y llaw arall ceir ynddynt elfennau diweddarach o lawer, fel y nodwyd eisoes. Y rheswm dros y sefyllfa ‘gymysg’ hon mewn perthynas â chynnwys y llyfrau cyfraith brodorol yw oherwydd mai lladmeryddion y gyfraith, ac nid copiwyd yn ystyr cyfyng y gair, a fu’n gyfrifol am gynhyrchu’r llyfrau hyn ar hyd y canrifoedd. Llyfrau-gwaith ein cyfreithwyr canoloesol yw’r llawysgrifau o Gyfraith Hywel a oroesodd inni, llyfrau o ddiddordeb ymarferol a ddefnyddid o ddydd i ddydd wrth weinyddu’r drefn yn llysoedd Cymru’r Oesoedd Canol. Yr oedd Cyfraith Hywel yr adeg honno’n gyfundrefn fyw, organig, yn newid ac yn datblygu i gyfarfod ag anghenion yr oes, a byddai’r llyfrau cyfraith hwythau’n cael eu haddasu a’u newid yn unol â hynny. Yr oedd y cyfreithwyr yn rhydd i olygu cynnwys eu llyfrau, i egluro ac ad-drefnu, i hepgor rhai elfennau ac ychwanegu rhai eraill, fel y gwelwn, oherwydd nad deddfau brenhinol, statudol oedd hanfod cyfraith frodorol Cymru yn y bôn (er gwaethaf honiadau’r rhaglithiau am Hywel Dda a chynhadledd y Tŷ Gwyn), ond yn hytrach ddatganiadau ac esboniadau’r cyfreithwyr a’r copiwyd eu hunain ar arfer a threfn y gyfraith fel y’i traddodwyd o’r naill genhedlaeth i’r llall.<sup>8</sup>

Yr oedd strwythur y llyfrau cyfraith brodorol yn caniatáu—yn wir, yn hwyluso—y math hwnnw o weithgarwch golygyddol gan fod pob llyfr unigol yn glytwaith o adrannau annibynnol ac amrywiol, a phob adran yn ymwneud â rhyw wedd benodol ar y gyfraith. Arferir y term ‘traethigau’ ar yr adrannau annibynnol hyn, gan eu bod yn aml yn sôn amdanynt eu hunain yn ‘traethu am’ y pwnc a’r pwnc. (Wrth gyfeirio at adeiladwaith traethigau, arferir y term ‘adnod’ yn aml i ddynodi brawddeg neu uned synnwyr arall o fewn traethig.) Y mae rhai traethigau, yn arbennig y rhai y gellir dangos eu bod yn gynnar, yn ymddangos ym mhob llyfr cyfraith bron (ond yn aml gyda pheth amrywio o ran manylion trefn a mynegiant), tra bod traethigau eraill ond yn ymddangos mewn ychydig o destunau, a’r rheini’n tueddu i fod yn rhai diweddarach.<sup>9</sup> Ymddengys i’r llyfrau cyfraith canoloesol ddatblygu’n bennaf trwy broses o ad-drefnu traethigau, ac ychwanegu traethigau newydd (neu hen rai a ailwampwyd) at gasgliadau o ddeunyddiau cyfreithiol a fodolai eisoes. Canlyniad uniongyrchol hyn oll yw’r ffaith bod pob llyfr cyfraith a gadwyd inni o’r cyfnod hyd at ganol yr unfed ganrif ar bymtheg yn unigryw o ran ei union gynnwys a mynegiant, a’r amrywiadau



rhwng y llyfrau unigol yn rhychwantu'r sbectrwm o'r meicro (amrywiadau geirfaol syml) i'r macro (amrywiadau ar lefel y traethig).<sup>10</sup>

Nod y gyfrol hon yw cyflwyno astudiaeth fanwl o un o'r llyfrau cyfraith hynny, sef llsgr. BL Add. 22356, a gopiwyd tua chanol y bymthegfed ganrif. Llyfr yw hwn y gellir ei ystyried ar sawl cyfrif yn un o uchafbwyntiau traddodiad llawysgrifol Cyfraith Hywel. Y mae'n eithriadol nid yn unig o safbwynt maint, sylwedd, rhychwant ac amrywiaeth y deunydd sy'n gorwedd rhwng ei ddau glawr, ond hefyd ar gyfrif y ffaith mai dyma un o'r ychydig llawysgrifau o Gyfraith Hywel sydd wedi goroesi'n gyflawn a hefyd, o bosibl, yn ei rhwymiad gwreiddiol. Gorwedd prif bwysigrwydd y testun hwn, fodd bynnag, yn y ffaith ei fod yn darparu tystiolaeth arwyddocaol a dadlennol am gyfnod olaf gweinyddu cyfraith frodorol Cymru, cyn i'r haul fachlud yn derfynol ar y drefn tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg yn sgil pasio'r Deddfau Cyfreithiau yng Nghymru (neu'r Deddfau Uno, fel y'u gelwir yn gyffredin) yn 1536 ac 1543.

## Y Llawysgrifau

Y mae'r astudiaeth fodern o lawysgrifau Cyfraith Hywel yn dechrau mewn gwirionedd tua chanol yr bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda chyhoeddi golygiad cyfansawdd Aneurin Owen, *Ancient Laws and Institutes of Wales*.<sup>11</sup> Defnyddiodd Aneurin Owen ddeg ar hugain o lawysgrifau Cymraeg yn sail i'r gwaith ynghyd â thair o rai Lladin,<sup>12</sup> a phennodd lythyren o'r wyddor yn gyfeirnod hwylus ar gyfer pob un o'r rhai Cymraeg, gan ychwanegu at lythrennau'r wyddor Saesneg bedair llythyren Eingl-Sacsonaidd.<sup>13</sup> Gydag ond ychydig eithriadau, arferir *sigla* Aneurin Owen o hyd gan ysgolheigion cyfoes, a dyfeisiwyd rhai newydd ar gyfer y llawysgrifau canoloesol hynny nas defnyddiwyd ganddo ond a ddaeth i'r golwg yn y cyfamser; fe'u rhestrir isod, tt. 247–8.

Prif gymwynas Aneurin Owen yn *Ancient Laws* oedd iddo ddangos am y tro cyntaf mewn print fod patrwm pendant yn gorwedd o dan yr holl amrywiadau testunol y cyfeiriwyd atynt uchod, a bod modd dosbarthu'r llawysgrifau Cymraeg yn dri grŵp bras. Dan ddylanwad honiad rhaglithiau'r llyfrau cyfraith fod Hywel Dda wedi peri gwneud tri chopi o'i gyfreithiau yn sgil cynhadledd y Tŷ Gwyn, 'megys y kaffeï teir ran Kymry, Gwyned, Powys, Deheubarth, awdurdawt kyfreith yn eu plith wrth eu reit yn wastat ac yn parawt', credai Owen fod ei grwpiau o lawysgrifau'n cynrychioli fersiynau gwahanol o'r gyfraith a ffynnai yn hen raniadau gwleidyddol-daearyddol y wlad—tyb a gadarnhawyd, meddai, gan nodweddiad iaith a chyfeiriadaeth ('dialect' ac 'allusions')—a rhoddodd yr enwau 'dull Gwynedd', 'dull Dyfed' a 'dull Gwent' ar y grwpiau (yn Saesneg, 'Venedotian code', 'Dimetian code' a 'Gwentian code').<sup>14</sup>

Derbynnir hanfodion dosbarthiad triphlyg Aneurin Owen gan arbenigwyr yn y maes o hyd, er y bu peth amodi arno yn ystod yr ugeinfed ganrif, gan gynnwys symud ambell lawysgrif o'i grŵp gwreiddiol yn *Ancient Laws* i grŵp arall. Sylweddolwyd ymhellach nad tri fersiwn gwahanol ond cyfredol o'r gyfraith yn cynrychioli cyfreithiau tair gwlad neu dri rhanbarth mo'r categorïau hyn, yn gymaint â thair ffurf ar yr un gyfraith a gasglwyd ynghyd mewn manau gwahanol ac ar adegau gwahanol. Amodwyd hefyd ar syniadau Aneurin Owen am ddosbarthiad daearyddol y tri fersiwn: er ei bod yn wir mai yng Ngwynedd yr ysgrifennwyd llawysgrifau hynaf 'dull Gwynedd', dangoswyd mai cywirach fyddai arfer yr

enw ‘dull Deheubarth’ na ‘dull Dyfed’, a ‘dull Powys’ na ‘dull Gwent’.<sup>15</sup> Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, symudwyd yn gyfan gwbl oddi wrth y derminoleg ddaearyddol amwys hon, a dechrau cyfeirio at y tri grŵp yn ôl enwau’r gwŷr cyfraith y rhoddir amlygrwydd iddynt yn y gwahanol fersiynau. Felly daeth ‘dull Gwynedd’ yn ‘ddull Iorwerth’, ar ôl Iorwerth ap Madog, y gwŷr cyfraith y priodolir iddo’r gwaith o lunio’r ‘Llyfr Prawf’ sy’n cynrychioli tua thraean cynnwys llawysgrifau’r dull hwnnw; daeth ‘dull Gwent’ yn ‘ddull Cyfnerth’, ar ôl Cyfnerth ap Morgenau a enwir mewn nodyn yn rhaglith llawysgrifau’r grŵp hwnnw, a daeth ‘dull Dyfed’ yn ‘ddull Blegywryd’, ar ôl yr Athro Blegywryd a enwir yn rhaglith llawysgrifau’r dull hwnnw (a hefyd yn rhai dull Cyfnerth) fel yr ‘ysgolhaig doethaf’ y rhoddwyd iddo’r cyfrifoldeb o ysgrifennu’r cyfreithiau a awdurdodwyd yng nghynhadledd y Tŷ Gwyn. Sylwer mai labeli hwylus yn unig yw’r enwau hyn, ac nid enwau awduron y dulliau fel y mae’r rheini wedi goroesi i ni.<sup>16</sup> Er mwyn osgoi unrhyw amwysedd yn hyn o beth, yr arfer bellach yw dieithrio enwau’r dulliau oddi wrth eu gwŷr cyfraith eponymaidd trwy ddefnyddio’r byrfoddau Ior, Cyfn a Bleg, a dilynir yr arfer hwnnw yn yr astudiaeth bresennol.

Y farn gyffredin heddiw yw bod y tri dull, neu dri grŵp o lawysgrifau, yn cynrychioli tri cham yng nghwrs esblygiad y gyfraith frodorol. Er mai llawysgrifau Ior yw’r rhai hynaf yn Gymraeg, yn rhai Cyfn y ceir y mynegiant mwyaf cyntefig o Gyfraith Hywel.<sup>17</sup> Nid oes awgrym yn nhestunau Cyfn o’r newidiadau cymdeithasol a fyddai’n dechrau tua chanol y ddeuddegfed ganrif ac sy’n chwarae rhan mor amlwg yn llawysgrifau Ior; yn wir, y mae’r cysyniadau cyfreithiol lled gyntefig a geir weithiau yn Cyfn yn awgrymu’n gryf fod gwreiddiau’r dull hwnnw’n gorwedd yn y cyfnod cyn-Normanaid, efallai yn oes Hywel ei hun.<sup>18</sup> Llawysgrifau Bleg sy’n ffurfio’r grŵp mwyaf lluosog.<sup>19</sup> Y mae Bleg yn debyg iawn i Cyfn o ran cynnwys a threfn, a dichon i’r ddau ddull hyn darddu o ffynhonnell gyffredin, ond bod Bleg wedi magu awyrgylch eglwysig cryf nad oes awgrym ohono yn Cyfn. Awgrymwyd bod hyn yn debygol o adlewyrchu ymgais i amddiffyn Cyfraith Hywel rhag ymosodiadau’r eglwys arni yn y ddeuddegfed ganrif a’r drydedd ganrif ar ddeg oherwydd yr elfennau ‘anfoesol’ a welid ynddi.<sup>20</sup> Y mae dull Ior ar y llaw arall yn wahanol i’r ddau ddull arall o ran trefn a chynnwys:<sup>21</sup> nid yn unig bod ynddo ffurf a threfniant gwahanol ar ddeunydd sy’n digwydd yn Cyfn a Bleg ond hefyd y mae’r dull hwn yn helaethach ei gynnwys na’r lleill yn sgil ychwanegu deunydd newydd a ddatblygwyd, fe gredir, mewn cyfnod o weithgarwch cyfreithiol a gwleidyddol neilltuol yn y ddeuddegfed ganrif a’r drydedd ganrif ar ddeg, ac yn arbennig, fel yr awgrymodd Dafydd Jenkins, ‘yn yr awyrgylch ffafriol a grëwyd yng Ngwynedd yn nyddiau Llywelyn Fawr’.<sup>22</sup>

Yn ogystal â llawysgrifau’r tri dull, defnyddiodd Owen bedair llawysgrif Gymraeg a ddisgrifiodd fel rhai ‘Amryval’ neu ‘Anomalous’,<sup>23</sup> term a drafodir ymhellach isod, ynghyd â thair llawysgrif Lladin.<sup>24</sup>

Er cymaint y gamp sydd ar *Ancient Laws* fel golygiad cyfansawdd o lawysgrifau Cyfraith Hywel, nid yw’r gwaith heb ei feiau sylweddol. Nid yw’n dangos yn glir fanylion cynnwys a threfn y llawysgrifau unigol a ddefnyddiwyd, er enghraifft, ac y mae’r modd y dynodir amrywiadau testunol mewn llawysgrifau eraill yn gymhleth, nes ei gwneud yn amhosibl yn aml benderfynu union ddarlleniad unrhyw lawysgrif benodol. Ond y brif feirniadaeth y mae’n rhaid ei hanelu at *Ancient Laws* yw’r modd y rhannodd Aneurin Owen ei ddeunydd yn ‘codes’ neu’n ‘dulliau’ ar y naill law (gan osod y rheini yng nghyfraith gyntaf yr

argraffiad cwarto o'r gwaith), ac yn 'anomalous laws' neu'n 'gyfreithiau amryval' ar y llall (a'u gosod yn yr ail gyfrol). Gyrrwyd penderfyniadau golygyddol Aneurin Owen yn hyn o beth gan ei ddiddordeb yn y syniad o 'graidd' Cyfraith Hywel, yr elfennau hynny yn y tri dull y barnai ef eu bod yn hynafol ac yn sylfaenol iddynt, ac a oedd i'w holrhain yn y pen draw, fel y tybiai, i ryw lyfr cyfraith cynddelwaidd a luniwyd yng nghynhadledd y Tŷ Gwyn dan oruchwyliaeth Hywel Dda ei hun. Anrhydeddodd yr elfennau hynny â'r label 'dull' neu 'code', a'u gosod yn ei gyfrol gyntaf. Gwelodd nad oedd rhai llawysgrifau'n cydymffurfio'n rhwydd â'i batrwm driphlyg, fodd bynnag, ac fe'u dyfarnodd o'r herwydd yn 'amryval' neu'n 'anomalous'; ar y rhain y rhoddodd ei *sigla* Eingl-Sacsonaidd a'u gosod yn yr ail gyfrol. Ond cynhwysodd Aneurin Owen yn ei ail gyfrol hefyd lawer o ddeunydd a dynnwyd o'r un llawysgrifau'n union ag sy'n ffurfio sail tri dull ei gyfrol gyntaf, sef yr adrannau hynny ynddynt y tybiai ef eu bod yn ddiweddarach na'r craidd, neu ynteu'n fenthyciadau neu'n ychwanegiadau ato.

Er bod Aneurin Owen ei hun yn ddigon parod i gydnabod pwysigrwydd cynnwys ei ail gyfrol,<sup>25</sup> ac er ei fod hefyd yn ddigon agored ynghylch ei bolisi golygyddol gwahaniaethol,<sup>26</sup> gellid dadlau bod ffurf ddeublyg *Ancient Laws* (a bwysleisir yn gorfforol yn nwy gyfrol yr argraffiad cwarto), ynghyd â'r labeli tueddol a ddewiswyd i ddisgrifio eu cynnwys ('codes' v. 'anomalous laws'),<sup>27</sup> wedi cael effaith andwyol o wahaniaethol ar astudiaethau ym maes Cyfraith Hywel am dros ganrif wedyn, trwy sianeli diddordeb ysgolheigion y maes yn ormodol tuag at faterion yn ymwneud â dechreuadau'r llyfrau cyfraith ar y naill law, ar draul astudio'u datblygiad hanesyddol ar y llall. Yn wir, tan drydydd chwarter yr ugeinfed ganrif, cynnwys y tri dull fel y'u ceir yng nghyfrifol gyntaf *Ancient Laws*, a'r llawysgrifau cynharaf o fewn y dulliau hynny, fu prif ffocws astudiaethau Cyfraith Hywel.<sup>28</sup>

A Timothy Lewis wedi cyhoeddi testun diplomatig o *Tim* (canol y bymthegfed ganrif) mor gynnar ag 1912,<sup>29</sup> ymddengys ar yr olwg gyntaf fod yr honiad hwnnw'n ddi-sail. Ond o graffu, gwelir nad ei ddiddordeb fel testun diweddar o'r cyfreithiau a'i cynigiodd i Timothy Lewis fel un y byddai'n werth ei astudio, ond yn hytrach ei nodweddion ieithyddol<sup>30</sup>—barn a ategwyd gan Ifor Williams mewn adolygiad o'r gyfrol, lle y mae'n bur hallt ei feirniadaeth ar ddewis Lewis o lawysgrif i'w golygu:

Gresyn [...] oedd na buasid wedi dewis llawysgrif hŷn a chywirach o'r Cyfreithiau i gychwyn cyfres mor addawol. Ysgrifennwyd Llanstephan 116 yn hanner olaf y bymthegfed ganrif, a honno a brintwyd, tra yr oedd y Llyfr Du o'r Weun yntau yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac yn hŷn gopi o ddau gant a hanner o flynyddoedd. Buasai ad-argraff ffyddlaw'n tebyg o hwnnw yn anhraethol werthfawr i efrydydd iaith, a chyfraith [...] Prin yw gwerth [Llanstephan 116] i efrydydd y Cyfreithiau, ond y mae'n dryfrith o ffurfiau diddorol hanner y ffordd rhwng iaith lenyddol y Canol Oesoedd, a llafar gwlad y tafodieithoedd heddyw, a da yw ei help i bontio'r cyfwng.<sup>31</sup>

Gydag ambell eithriad prin, nid tan chwarter olaf yr ugeinfed ganrif y dechreuwyd rhoi sylw dyledus i'r llawysgrifau diweddar a / neu 'amryval' hyn, ac i'r dystiolaeth bwysig y maent yn ei darparu am gyflwr y gyfraith frodorol, ei datblygiad a dull ei gweinyddu hyd at ei chyfnod olaf fel cyfraith fyw.<sup>32</sup>

## Y ‘Deddfgronau’

Mewn gwirionedd, y mae dosraniad Aneurin Owen o’r llyfrau cyfraith Cymraeg yn dri dull ar y naill law ac yn gyfreithiau amryfal ar y llall yn gamarweiniol ac yn or-syml am fod llawer o’r llawysgrifau—ac yn arbennig y rhai diweddar—yn destunau cyfansawdd sy’n cynnwys nid yn unig brif destun yn perthyn i un o’r tri dull, fel y trafodwyd uchod, ond hefyd atodiad o ddeunydd arall. Gall yr atodiadau hyn gynnwys nid yn unig y math o ddeunydd ychwanegol a diweddarach o wahanol fathau (‘amryfal’) y cyfeiriodd Aneurin Owen ei hun ato, ond ceir ynddynt yn aml hefyd ddefnyddiau a dynnwyd o un neu ragor o’r dulliau eraill, nes creu testunau gwirioneddol gymysgryw mewn rhai achosion. Rhoddodd Aled Rhys Wiliam yr enw ‘Deddfgronau’ ar y testunau cyfansawdd hyn,<sup>33</sup> gan fenthycar term a fathodd William Maurice yn yr ail ganrif ar bymtheg ar gyfer ei gompenniwm mawr o’r gyfreithiau brodorol. Y mae llsgr. Llanstephan 116 (*Tim*), na welodd Timothy Lewis ac Ifor Williams ynddi fwy o werth na bod yn fwynglawdd ieithyddol, yn arddangos holl nodweddion cymhleth a diddorol y deddfgronau fel *genre*, fel y’u diffiniwyd gan Aled Rhys Wiliam, yn union fel y gwna llawysgrif arall yn yr un llaw â *Tim*, sef llsgr. BL Add. 22356 (*S*).

Yng ngweddill y bennod hon manylir ar nodweddion cynnwys, strwythur a chyd-destun llunio *S* fel enghraifft o ddeddfgrawn a gopiwyd tua chanol y bymthegfed ganrif. Y mae’r testun yn ymrannu’n ddwy yn hollol naturiol o ran ei gynnwys, er teg nodi bod y ffin rhwng y ddwy ran ychydig yn fwy cymhleth nag y mae’r crynodeb a ganlyn yn ei awgrymu.<sup>34</sup>

## Y prif destun

Y mae ff. 4–59 yn *S* yn cynnwys testun Bleg, a chyhoeddwyd y cwbl o’i sylwedd dan bennawd ‘dull Dyfed’ yn *Ancient Laws* cyf. i, er nad o’r llawysgrif hon y tynnodd Aneurin Owen destun y dull hwnnw.<sup>35</sup> Y testun safonol o Bleg bellach yw eiddo Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd (Dull Dyfed)* (Caerdydd, 1942). Manylir ar nodweddion testunau Bleg, trefn eu cynnwys a pherthynas y llawysgrifau â’i gilydd ym mhennod 2 o’r Rhagymadrodd hwn.

## Yr atodiad i’r prif-destun (‘y gynffon’)

Y mae ff. 60 *et seq.* yn *S* yn cynnwys ‘cynffon’ o ddeunydd cyfreithiol amrywiol, a gasglwyd ynghyd o amryw ffynonellau, ond heb ymgais i’w drefnu’n systematig. Y mae’r ‘gynffon’ yn cynnwys:

### a) deunydd a dynnwyd o’r dulliau eraill

Nid yw ymwybod â bodolaeth traddodiadau cyfreithiol eraill yn beth newydd ymhlith llawysgrifau Bleg; fel y nodwyd eisoes, honnir yn y rhaglith i gopïau ysgrifenedig o’r gyfraith gael eu gwneud ar gyfer Gwynedd, Powys a Deheubarth yn sgil cynhadledd y Tŷ Gwyn, ac mewn man arall yn Bleg nodir rhai gwahaniaethau rhwng arferion y rhanbarthau hynny:

Kynntaf y gossodes y brenhin pumb swydauc ympob llwys o’r wlat yg Gwynedd a Phwys, nyt amgen, maer, kyghellaur, righill, offeirat y yscrivenu dadleueu, ac vn brawdwr trwy swyd; a phetwar megys y rei kynntaf ympob llys yn Deheubarth, a lliaws o vrawdwr, nyt amgen, pob perchenn tir, megys yd oedynt kynn Hywel da, o vrent tir heb swyd. (*LIBleg* § 32:23)

Mewn darn sydd bellach yn unigryw i *S*, cyfeirir yn fwy penodol at beth o gynnwys llawysgrifau'r traddodiadau eraill hyn:

Pan symyda6d Ho6el Da gyfreitheu kyffredin Kymry o dyll Dyfyn6al, tri llyfyr a ossodes: vn 6rth y lys benyda6l bress6yl yda6 euhyn; a'r eill ynNinef6r o vrent Deheubarth; y trydyd yn Yberff[r]a6 o vrent G6yned a Pho6ys. Amrafael vreneu a ossodes y amryfaelon lyfreu; a hefyd yG6yned a Pho6ys vn bra6d6r s6yda6c, a chyfreith penkenedyl, a chyfreith kaith ac alldydion, a'r dadanhydeu byryon, a phra6f y ha6l6r, a datl ym6rthrym, ac oed 6rth borth; ac ni ossodes ef ynn llyfreu Deheubarth vn o hynny bygkeu d6dededicion. (*S* §§ 1858–9)

Fel y deddfgronau eraill, y mae *S* yn corffori deunydd o'r dulliau eraill yn ei chynffon. Nid yn annisgwyl, efallai, y mae'r traethigau benthyg hyn yn tueddu i fod ar bynciau nad oes dim sy'n cyfateb iddynt yn Bleg, ac y mae sawl darn yng nghynffon *S* sy'n perthyn yn agos i ddeunydd yn nhraddodiad mwy soffistigedig Ior. Er enghraifft, daw rhan gyntaf y traethig byr ar 'Deol' (*S* §§ 1225–31) o *Llor* §§ 111:29–112:3. Ymddengys fod ail draethig *S* ar 'Meichiau', §§ 1713–57,<sup>36</sup> yn tarddu o ddeunydd tebyg i'r hyn a gadwyd yn Col (sef yr 'argraffiad diwygiedig' o Ior a wnaed yn y drydedd ganrif ar ddeg). Ac y mae'r traethig helaeth ar 'Lwgr Yd' yn *S* §§ 2237–306 ynghyd â'r traethig anorffen ar 'Cyfar' yn *S* §§ 2360–74, ill dau'n tarddu o ddeunydd a gadwyd mewn llawysgrifau yn nhraddodiad dull Ior (*Llor* §§ 154–60, 148–50). Ar y llaw arall, y mae'r traethig ar 'Pedair Allwedd Ynadaeth' yn *S* §§ 1807–13, ynghyd â pheth deunydd cyfagos, yn perthyn yn agos i ddeunydd yn *U*, un o lawysgrifau dull Cyfn.<sup>37</sup> Gellid nodi amryw o enghreifftiau eraill i'r un perwyl: am ddadansoddiad mwy manwl o'r cyfatebiaethau, gw. Consbectws 2.

*b) deunydd ychwanegol amrywiol*

'The ANOMOLOUS or WELSH LAWS constitute an important portion of the Work', meddai Aneurin Owen wrth gyflwyno'r corff mawr o ddeunydd cyfreithiol a gyhoeddodd yn ail gyfrol *Ancient Laws*.<sup>38</sup> Fodd bynnag nid yw ei 'gyfreithiau amryval' i gyd o'r un ansawdd, nac ychwaith o'r un oedran, a cheir amrywiaeth mawr rhwng yr holl lawysgrifau a'i gilydd o ran pa ddeunydd yn union sydd ym mhob un. Yn *S*, fel yn achos y rhan fwyaf o'r deddfgronau eraill, gellir rhannu'r deunydd ychwanegol hwn yn ddau ddsbarth bras, sef deunydd ychwanegol traddodiadol a deunydd ychwanegol diweddarach.

Casgliadau o 'ddamweiniau' yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o ddeunydd ychwanegol traddodiadol, a cheir casgliadau ohonynt yn y deddfgronau i gyd. Gosod allan sefyllfa ddamcaniaethol, dyfynnu hawl ac ateb y ddwy blaid a chyflwyno dyfarniad ar yr achos yw hanfod y *genre* hwn, sy'n cael ei enw o'r modd y mae'r rhan fwyaf o'r achosion a gyflwynir yn agor â'r fformwla, 'O damweinia ...' ('Pe digwyddai ...').<sup>39</sup> Ceir sawl cadwyn o ddamweiniau yng nghynffon *S*, e.e. §§ 1623–56, 1915–24, 2147–68, 2227–35, a gellir canfod y rhan fwyaf o'r rhain yn ail gyfrol *Ancient Laws* (ond wedi eu dyfynnu yno o lawysgrifau eraill yn hytrach nag *S*).

Math arall o ddeunydd traddodiadol sy'n dra chyffredin yn y deddfgronau i gyd yw trioedd, sef deunydd a drefnwyd ar ffurf deiran ar sail un neu fwy o blith nifer o griteria posibl, gan gynnwys pwnc penodol, thema fras neu hyd yn oed sail seinegol megis cyflythrennu.<sup>40</sup> Ceir casgliadau o dríoedd yn y rhan fwyaf o'r llawysgrifau cyfraith sydd wedi

goroesi, ac fel arfer po ddiweddaraf y llawysgrif, hwyaf oll y casgliad o drïoedd. Yn aml yn y deddfgronau diweddar, ceir adrannau hir ar ffurf trioedd estynedig, e.e. *S* §§ 1657–82, 2000–117, a’u hegluro manwl yn cyferbynnu’n llwyr â natur gynnïl-gryno’r trioedd sy’n digwydd yn rhan o destun y ‘dulliau’ (cf., e.e., *S* §§ 968–1224).

*Genre* traddodiadol arall sy’n digwydd mewn rhai deddfgronau yw deunydd a gyflwynir ar ffurf deialog neu holi ac ateb rhwng athro cyfraith a’i ddisgybl. Defnyddid y dull hwn yn gyffredin yn yr Oesoedd Canol gan athrawon mewn amryw gangau dysg er mwyn hyfforddi disgyblion,<sup>41</sup> a dyma’r esboniad mwyaf tebygol ar darddiad y rhestr hir o achosion unigryw ar ffurf holi ac ateb a gadwyd yn *S* §§ 1533–89.

Y mae’r damweiniau, y trioedd, a’r rhestr o achosion unigryw ar ffurf deialog i gyd yn awgrymu mai dysg lafar oedd ffynhonnell wreiddiol llawer iawn o’r deunydd ychwanegol o natur draddodiadol sydd i’w ganfod yn y deddfgronau, ac nid yw’n amhosibl bod cynullwyr y llyfrau gwahanol wedi tynnu’n helaeth ar y traddodiad llafar lleol wrth iddynt atodi ‘cynffon’ o ddeunydd ychwanegol i destun sylfaen o un o’r tri dull.

Yn ogystal â’r math o ddeunydd traddodiadol a nodwyd uchod, y mae’r deddfgronau hefyd yn cynnwys deunyddiau sy’n amlwg yn ddiweddarach. Yn llawysgrifau diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a’r bymthegfed ganrif yn arbennig, ceir esbonio ac ymhelaethu estynedig weithiau ar egwyddorion sydd ond yn cael eu crybwyll yn y testunau cynharach, neu sy’n ymddangos ynddynt mewn ffurf aneglur. Ceir yn y deddfgronau hefyd ymdriniaethau â materion sy’n ymddangos ar eu dail hwy am y tro cyntaf, neu o leiaf mewn ffurf ddiwygiedig. Er enghraifft, y mae gan Bleg lawer i’w ddweud ar fater ‘Dosbarth’, sef y broses o ddod i ddedfryd neu ddyfarniad mewn achos llys, ond y mae llawer mwy i’w weld yng nghynffon *S*. Yn benodol, ceir ynddi draethig ar ‘Camddosbarth’, §§ 1305–11, sy’n cynrychioli ffurf fwy datblygedig ar egwyddorion sylfaenol Bleg, gan gynnwys cyfeiriadau at haen newydd o wŷr cyfraith—sef dosbarthwyr—nad oes sôn amdanynt mewn testunau cynharach.

Y mae *S*, fel eraill o’r llyfrau cyfraith diweddar, yn adlewyrchu rhai o’r newidiadau mawr mewn cyfraith tir a ddigwyddodd yn ystod y drydedd ganrif ar ddeg a’r bedwaredd ganrif ar ddeg—newidiadau anodd eu deall heb sylwebaeth y testunau cyfraith hyn. Yn eu plith yr oedd newidiadau yn y cysyniad o briodolr (sef math o rydd-ddeiliadaeth a’i gwreiddiau mewn syniad cyntefig am ddull ennill hawl ar ddarn o dir), a datblygu system y ‘gwely’ yn system aeddfed a sefydlog o dir-ddeiliadaeth a arferid yn gyffredin gan y boblogaeth gaeth a rhydd fel ei gilydd. Yr oedd rheolau’r system yn gymhleth, a byddai ymdriniaethau llyfrau cyfraith y drydedd ganrif ar ddeg yn anhepgor i unrhyw un a fynnai wybod holl fanylion y drefn. Ond yn y llyfrau diweddarach gwelir datblygu hawliau rhan, adran a gorffenran, sef hawl cyd-etifeddion mewn cenedlaethau diweddarach i fynnu adolygu’r rhaniad gwreiddiol ar dir gwely.<sup>42</sup> Nid oes sôn am yr hawliau hyn yn y testunau cynharaf, ond cyfeirir atynt yn *S* §§ 2095–9 (y termau a ddefnyddir yno yw rhan, adran a chyhydedd).

Yn yr un modd y mae’r testunau diweddar, gan gynnwys *S*, yn adlewyrchu’r newid a ddigwyddodd yn y cysyniad o warcheidwadaeth, o fod yn egwyddor y gallai rhywun ddod yn briodor trwyddi, fel y mae yn y testunau cynharaf, i fod yn derm i ddisgrifio hawl a roddid i berson, trwy gytundeb, i warchod darn o dir yn lle’r priodor;<sup>43</sup> gw., e.e., *S* §§ 1368–71, 1870–87, 2510.

Yn ogystal â'r deunydd newydd ac ymarferol hwn sy'n adlewyrchu datblygiadau yn sylwedd y gyfraith a'r modd y'i gweinyddid, y mae *S* yn cynnwys yn ei chynffon hefyd enghraifft o draethig llawer mwy dadansoddol ei natur a gyflwynir fel 'Gwyddor Cyfraith Hywel Dda', §§ 2382–472. Ynndo y mae'r awdur yn trefnu ac yn crynhoi egwyddorion y gyfraith ar gyfer 'Pwy bynnac a vynnho g6ybot beth y6 kyfreith a eu ranneu', gan arddangos meddwl cysyniadol cyfreithiol craff ar waith.

Yn *S*—fel yn achos y deddfgronau eraill—gwelir ei chynullydd (neu un o'i ragflaenwyr) ar waith fel golygydd. Ychwanegodd at gopi o destun Bleg<sup>44</sup> atodiad hir a chymhleth o ddeunydd amrywiol a luniwyd trwy dynnu traethigau o'r dulliau eraill, dethol deunydd traddodiadol amrywiol o wahanol ffynonellau a chynnwys ymdriniaethau newydd (neu ddiwygio hen rai) er taflu goleuni newydd ar elfennau traddodiadol, nes llunio compendiwm cyfoethog o destunau cyfraith amrywiol. Wrth drafod cymhellion cynullydd deddfgrawn arall, sef *J*, awgrymodd Dafydd Jenkins i'r sawl a luniodd y testun hwnnw 'fwrw i mewn bopeth nad oedd yn cofio ei fod eisoes yn y llyfr, ond dichon hefyd iddo ychwanegu'r pethau a oedd o'r gwerth ymarferol mwyaf yn ei gyfnod ef.'<sup>45</sup>

Fel y nodwyd uchod—ac fel y manylir arno ymhellach eto—llyfrau at ddefnydd ymarferol cyfreithwyr wrth eu gwaith oedd llawysgrifau Cyfraith Hywel yn eu dydd, ac y mae'r deddfgronau a'u hatodiadau hirfaith yn adlewyrchu hynny'n glir. Byddai deunydd ychwanegol traddodiadol ar ffurf 'enghraifft-benodol' y damweiniau ac ar ffurf mnemonig fel y trioedd a'r rhestrau o achosion unigryw yn ddefnyddiol iawn mewn system a sylfaenwyd ar farnwyr amatur, fel y bodolai yn Neheubarth tua diwedd yr Oesoedd Canol,<sup>46</sup> yn union fel y byddai deunydd yn disgrifio datblygiadau diweddar a chyfoes hefyd yn ddefnyddiol. A gellid tybio y byddai'r barnwr amatur yn falch hefyd o gael troi at ddeunydd a gofnodwyd mewn llawysgrifau a berthynai i 'ganghennau' eraill Cyfraith Hywel, sef rhai Ior a Cyfn, er mwyn cael hyd i ddyfarniad cymwys a theg mewn sefyllfa neilltuol.

Ac eto, os llyfrau ymarferol oedd *S* a'r llawysgrifau diweddar eraill, rhaid gofyn pam y cynhwyswyd ynddynt hefyd lawer o ddeunyddiau hynafol y mae'r amgylchiadau a'r drefn gymdeithasol a ddisgrifir ynddynt yn wahanol iawn i rai cyfnod copïo'r llyfrau eu hunain. Nid yw'n amhosibl nad yw'r deddfgronau yn adlewyrchu diddordeb 'ysgolheigaidd' eu cynullwyr yng nghyfreithiau eu gwlad a'u hamrywiadau hanesyddol a daearyddol. Nid awgrymu a wneir yma mai diddordeb hynafiaethol 'pur' yn y cyfreithiau, tebyg i eiddo William Maurice, dyweder, a'u cymhellodd i gopïo ac esbonio deunydd a ymwnâi ag arferion a oedd wedi hen ddiflannu o'r tir. Adeg llunio'r deddfgronau, yr oedd Cyfraith Hywel yn gyfraith fyw o hyd, ac yr oedd y deunyddiau hynafol a hynafiaethol hyn o ddiddordeb ymarferol i gynullwyr y llyfrau cyfraith diweddar gan mai allan ohonynt hwy y datblygasai'r arferion a oedd mewn grym ar y pryd; yn wir, yr oedd ymwybod â materion 'hynafol'—a thrwy hynny â'r egwyddorion y tu ôl iddynt—yn sylfaenol i'w dealltwriaeth o rai cyfoes.<sup>47</sup>

Gellir gweld yr osgo ymarferol hwn ar waith yn glir yn *S* o sylwi ar ddwy ran benodol o'r llyfr cyfraith. Y mae *S* (ynghyd ag *O*, *Tr* ac *I*), yn hepgor adran Cyfreithiau'r Llys, deunydd sydd fel arfer yn ffurfio tua chwarter testun dull Bleg, 'kanyt oes aruer na reit 6rthunt, namyn blinder eu hyscrifennu a chosti memr6n a du yn diffr6yth' (*S* § 30). Hynny yw, gollyngwyd yn ymwybodol ddarn sylweddol o gynnwys traddodiadol Bleg na pherthynai iddo unrhyw arwyddocâd ymarferol bellach. Gellid cyferbynnu â hyn y modd y mae'r testunau diweddar yn dal i gynnwys cyfraith galanas a manylu ar genedl galanas (sef

aelodau'r tylwyth a dalai neu a dderbynai iawndal mewn achos o lofruddiaeth neu ddynladdiad), er bod galanas fel sefydliad wedi dirywio a darfod amdano ers cryn amser. Y rheswm dros hyn oedd am fod cysyniad y genedl yn ganolog i lawer iawn o egwyddorion yr oedd cyfreithwyr Cymru yn dal i ymwneud â hwy o ddydd i ddydd; yn fwyaf arbennig, yr oedd gwybodaeth am adeiledd cenedl galanas yn anhepgor ar gyfer gweithredu system rhaith, trefn a barhaodd yn fyw hyd gyfnod olaf gweinyddu'r gyfraith frodorol, ac sy'n chwarae amlwg yn y llyfrau cyfraith diweddar.<sup>48</sup>

Y mae'r dystiolaeth oll o blaid credu mai cynnyrch meddwl pragmataidd yn bennaf yw'r llyfrau cyfraith diweddar. Cynhwyswyd ynddynt unrhyw beth, o unrhyw ffynhonnell, y credai eu cynullwyr y gallai fod o ddefnydd ryw ddydd, mewn rhyw gyd-destun, a gwrthodwyd deunydd yr oedd ei ddefnyddioldeb ymarferol yn amlwg wedi mynd heibio. Ond yr oedd eu cynullwyr yn llawer iawn mwy parod nag yr ydym ni bellach i weld defnydd mewn trafodaethau ar faterion 'ymylol' ac mewn naratifau traddodiadol, a derbyniwyd hefyd ddeunyddiau o'r math hwnnw i'w deddfgronau, er enghraifft y traethig am 'Gyfraith Dyfnwal Moelmud a Mesur', *S* §§ 1765–81. Ac mewn ystyr real iawn, yr oedd maint, sylwedd ac osgo 'holl-gynhwysol' y deddfgronau'n symbol gweladwy o statws, o awdurdod ac arbenigedd eu perchnogion ym mhob gwedd ar y drefn gyfreithiol y rhoddwyd iddynt y fraint—a'r cyfrifoldeb—o'i gweinyddu.

### **Gweinyddu Cyfraith Hywel**

Y mae'r llyfrau cyfraith yn darparu tystiolaeth bwysig ynghylch y modd y gweinyddid Cyfraith Hywel yn yr Oesoedd Canol. Cyfeiria testunau Bleg at dri math o farnwr neu frawdwr.

Tri ryw vrawtwyr yssyd yg Kymry herwyd kyfreith Hywel Da: brawdwr llys peunydyawl herwyd swyd, gyt a brenhin Dinefwr neu Aberffraw yn wastat; ac vn brawdwr kymhwt neu gantref herwyd swyd, ympob llys o dadleueu Gwyned a Phowys; a brawdwr o ureint tir ympob llys kymhwt neu gantref o Deheubarth, nyt amgen pob perchenhawc tir. (*LIBleg* § 85:1)

Ar y brig, fel petai, yr oedd brawdwr y llys brenhinol yn Ninesfwr ac Aberffraw; y mae'r ddelwedd o'r swyddog hwnnw yn llsg. LIGC Peniarth 28 ff. 4r yn ei ddangos yn datgan ei farn o'i gadair, ei lyfr cyfraith yn ei law a'i fynegfys yn arwydd huawdl o'i awdurdod.<sup>49</sup> Yn llysoedd y cwmwd neu'r cantref, wedyn, yr oedd barnwyr proffesiynol ('o fraint swydd') yng Ngwynedd a Phowys, tra yn y De ceid brawdwr 'amatur' ('o fraint tir').<sup>50</sup> Y mae'r gwahaniaeth sylfaenol hwn rhwng barnwyr y De a rhai'r Gogledd yn cael ei gadarnhau o gyfeiriadau eraill.

Yn 1281 awdurdododd Edward I gomisiwn i archwilio cyflwr y gyfraith yng Nghymru. Yn ôl tystiolaeth unfryd y cynrychiolwyr o Geredigion a ymddangosodd o flaen y comisiynwyr yn Llanbadarn, nid oedd yn arfer yn eu hardal hwy gynnal llys o flaen barnwyr proffesiynol fel y gwneid yng ngogledd Cymru. Yn hytrach, meddent, arfer y De oedd cynnal gorsedd gerbron yr arglwydd lleol (neu ei gynrychiolydd), a chydag ef nifer o berchenogion tir a dynnwyd o blith gwyr rhydd y cwmwd. Y rhain (y cyfeirir atynt fel *sectatores* yn adroddiad y comisiynwyr) a fyddai'n gyfrifol am farnu'r achos a rhoi'r dedfryd.<sup>51</sup> Y mae'r



drefn hon a amlinellwyd gan y cynrychiolwyr o Geredigion yn cyd-fynd yn berffaith â'r sefyllfa sy'n ymhyg yn y traethig ar 'Swydd a Braint Brawdwr' yn *LIBleg* § 85 (cf. y dyfyniad o *LIBleg* § 85:1 uchod).

Yr oedd swydd yr ynad proffesiynol yn y Gogledd yn un o statws uchel iawn y gwarchodid ei safonau'n eiddgar. Ni ellid dod yn ynad heb hyfforddiant, a cheir peth cyfarwyddyd yn llawysgrifau Ior ynghylch cymwysterau ynad a natur yr hyfforddiant a dderbyniai: gwyddys, er enghraifft, fod yn rhaid iddo fod yn hyddysg yn y Llyfr Prawf sy'n ffurfio tua thraean dull Ior fel y goroesodd i ni heddiw.<sup>52</sup>

Gan nad barnwyr 'o fraint swydd' oedd rhai'r De, ond yn hytrach rhai 'o fraint tir', ni chaent yr un hyfforddiant proffesiynol â'u cymheiriaid yn y Gogledd, ac o'r herwydd ni fyddent yn gweithredu yn yr un modd â hwy.<sup>53</sup> Dengys llawysgrifau Bleg, a'u cyfeiriadau mynych at y 'brawdlyfr' a'r 'gyfraith ysgrifenedig', y byddai'r brawdwr o fraint tir yn dibynnu'n drwm ar destun ysgrifenedig yn y broses o weinyddu'r gyfraith mewn achos neilltuol. Os symbol yw'r llyfr cyfraith yn llsgr. Peniarth 28 o'r awdurdod a breswyliai ym mherson yr brawdwr llys, y llyfr cyfraith ei hun yw'r awdurdod cydnabyddedig yn llysoedd y cwmwd yn y De: cf. e.e.,

Ac am y deu ymwystlaw hynny yt vyd y dosparth ar awdurdaut lythraul, canys diledyf gyffredin vyd yr awdyrdaut, sef yw hynny, brawtlyuyr. (*LIBleg* § 17:12)

Fel y pwysleisiwyd uchod, nid cofnod unffurf o gyfraith frenhinol neu statudol a geir yn y llyfrau cyfraith brodorol, ond yn hytrach gasgliadau personol o ddeunyddiau cyfreithiol a gofnodai farnau amrywiol yn aml (er yn ffafrio un ohonynt fel arfer). Gan hynny gallai sefyllfa godi lle y byddai dyfarniad a roddwyd gan frawdwr o fraint tir ar sail ei frawdlyfr yn cael ei herio gan un o'r pleidiau yn yr achos ar sail cynnwys gwahanol mewn brawdlyfr arall. Y mae'r drefn a amlinellir yn nhestunau Bleg yn caniatáu ar gyfer achosion o'r fath: pe na ellid terfynu achos trwy droi at lyfr cyfraith, yr oedd modd cyfeirio'r achos at ganonwyr, a weithredai i bob pwrpas fel llys apêl.

Os y deu amrysson erbyn yn erbyn a uyd yghyfreith yscriuennedic, y dosparth a dodir ar ganonwyr a arueront o wiryoned; a'r hyn a welher yn nessaf y'r wiryoned, teilygaf yw y gynhal yn y gyfreith. (*LIBleg* § 85:23)

Os yw llyfrau cyfraith Bleg yn ategu tystiolaeth adroddiad Comisiwn Brenhinol 1281 mai gan frawdwr o fraint tir y gweinyddid y gyfraith yn ne Cymru hyd y dyddiad hwnnw, cadwyd hefyd dystiolaeth glir sy'n dangos y parheid i gynnal llysoedd y cwmwd o flaen brawdwr 'amatur' yn y De am yn hir wedi hynny. Er yr arferid credu bod dyddiau ymarferol Cyfraith Hywel wedi dod i ben yn sgil cwmp Llywelyn yn 1282 a diwedd annibyniaeth Cymru, ac mai diddordeb hynafiaethol yn unig a barodd iddynt gael eu copïo o hynny allan, y mae gwaith haneswyr ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac yn arbennig J. Goronwy Edwards, T. Jones Pierce, Rees Davies, J. Beverley Smith a Llinos Beverley Smith, yn dangos yn glir i rai agweddau ar Gyfraith Hywel fod yn weithredol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru (er enghraifft y Mers, Dyffryn Clwyd, Caerfyrddin a Cheredigion) hyd y bymthegfed ganrif—ac mewn rhai rhannau o dde-orllewin Cymru hyd ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg.<sup>54</sup>

Trwy Ystatud Cymru (1284), crëwyd sefyllfa gyfreithiol gymysg yn nhiroedd y Goron yng Nghymru.<sup>55</sup> Crynhoir y sefyllfa'n dwt yn rhagair y brenin i'r drefniadaeth newydd:

We have [...] abolished certain of [the laws and customs of Wales], some thereof We have allowed, and some We have corrected; and We have likewise commanded certain others to be ordained and added thereto.<sup>56</sup>

Er cyfeirio ati fel Ystatud Cymru, ac er y sonnir yn ei rhagair am *terram Wallie* (gwlad Cymru) yr oedd y darpariaethau hyn wedi eu hanelu mewn gwirionedd at diroedd y brenin yn y Gogledd—sef tair sir newydd Caernarfon, Meirionnydd a Môn yn y gorllewin (y daethpwyd i gyfeirio atynt fel Tywysogaeth Gogledd Cymru), a Fflint yn y dwyrain. Trwy'r Ystatud, sefydlwyd cyfundrefn newydd o lysoedd, a disodlwyd Cyfraith Hywel gan gyfraith Loegr mewn achosion troseddol. Fodd bynnag, caniatwyd parhau i arfer Cyfraith Hywel mewn achosion sifil, a chadarnhawyd arfer system frodorol cyfran mewn perthynas ag etifeddu tir. Yr oedd yr ymateb i'r sefyllfa gymysg hon hithau'n gymysg. Yn Nhywysogaeth y Gogledd, er enghraifft, o fewn ychydig flynyddoedd i gyflwyno'r Ystatud, dechreuodd rhai elfennau mwy huawdl na'i gilydd yn y gymdeithas bwysu ar frenin Lloegr am ragor o newidiadau, ac yn enwedig am yr hawl i arfer cyfraith Loegr mewn achosion tir: barnent fod cyfraith cyfran yn anfanteisiol iddynt o'i chymharu â *primogeniture* cyfraith Loegr, a'u bod yn cael eu llesteirio'n sylweddol o safbwynt economaidd am na chaent brynu a gwerthu tir fel eu cymdogion. Cafwyd y consesiwn cyntaf yn 1316, ac wedyn trwy gyfres o writiau cafodd trigolion Tywysogaeth y Gogledd eu dymuniad (yn rhannol o leiaf) ar ffurf caniatâd i ddod ag achosion tir i lysoedd y Dywysogaeth i'w barnu yn ôl cyfraith Loegr.<sup>57</sup>

Hollol wahanol oedd y sefyllfa yn Nhywysogaeth De Cymru, sef siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi. Yr oedd brenin Lloegr wedi ennill tiroedd yn y De cyn 1282, ac yr oedd arglwyddiaethau brenhinol, a ganolid ar Gaerfyrddin ac Aberteifi'n arbennig, eisoes mewn bodolaeth. Llywodraethid ar yr arglwyddiaethau brenhinol hyn mewn ffordd sylfaenol debyg i arglwyddiaethau'r Mers: gweinyddid awdurdod y brenin, trwy swyddogion brenhinol, mewn cyfraith a oedd yn gymysgedd o elfennau Seisnig a Chymreig. Ymddengys fod y boblogaeth yn y manau hyn yn llawer mwy ceidwadol na'u cymheiriaid yn y Gogledd, gan y parheid i fanteisio'n llawn ar yr hawl i arfer Cyfraith Hywel mewn achosion a ganiatâi hynny. Yn wir gwyddys i gynrychiolwyr y cymunedau hyn ar sawl achlysur fynegi eu hanfodlonrwydd ynghylch natur arw cyfraith Loegr, a gofyn i'r brenin gadarnhau eu hawl i arfer hen gyfreithiau'r wlad, gan bledio eu rhagoriaeth. O ganlyniad, parhaodd Cyfraith Hywel mewn grym mewn rhai mathau o achosion, sef rhai yn ymwneud â thir ac eiddo, mewn o leiaf rannau o Dywysogaeth y De hyd at y Deddfau Uno ac o bosibl am beth amser wedi hynny.<sup>58</sup>

Y mae'n glir, fodd bynnag, na parhaodd dull gweinyddu'r gyfraith yn union fel y'i disgrifir yn Bleg. Nid yw rholiau'r llysoedd cwmwd wedi goroesi, ysywaeth, ond y mae ar glawr o hyd dystiolaeth o fath arall, sef cofnodion ariannol sy'n darparu'r dystiolaeth bendant gynharaf a feddwn am fodolaeth haen arall o wŷr cyfraith yn ne Cymru. Cadwyd yn y cyfrifon hyn o 1375 ymlaen gofnodion o daliadau a wnaed i wŷr hyddysg yng Nghyfraith Hywel a benodid o dro i dro gan Goron Lloegr i weithredu mewn achosion o apêl, i gadarnhau dyfarniadau'r brawdwyd o fraint tir, neu eu cywiro pe bai angen. Y term a ddefnyddir ar gyfer yr haen newydd hon o wŷr cyfraith yw 'dosbarthwyr'; gwyddys am dros

ddeugain o achosion y bu dosbarthwyr ar waith ynddynt, a chadwyd enwau mwy na deg ar hugain ohonynt—amryw o'r rheini'n wŷr amlwg yn y gymdeithas mewn cyd-destunau eraill, fel y gwelir isod. Derbynient dâl am eu gwaith o'r Drysorlys Frenhinol yng Nghaerfyrddin, a byddai'r Drysorlys o'i rhan hithau'n elwa o weithgarwch y dosbarthwyr gan y dirwyid y brawdwr o fraint tir yn drwm am eu camddyfarniadau blaenorol. Gwyddys fod dosbarthwyr ar waith nid yn unig yn Nhywysogaeth y De, ond hefyd yn arglwyddiaethau cyfagos Cydweli ac Arberth, fel y manylir isod.

Y mae tystiolaeth y cofnodion ariannol am weithgarwch dosbarthwyr yn ategu'r hyn sydd gan rai o'r llyfrau cyfraith diweddar hwythau i'w ddweud am drefn gweinyddu'r gyfraith erbyn eu cyfnod hwy. Ymhlith y deunyddiau cyntaf a gopiwyd i gynffon *S*, y mae traethig ar 'Camddosbarth' (§§ 1305–11; fe'i ceir hefyd yn *Tim*, *Q* ac *Ep*) sy'n ymwneud yn benodol â threfn apelio yn erbyn camddyfarniadau. Amlinellir trefn gyfreitha driphlyg. Yr oedd y brawdwr o fraint tir ar waelod y system, fel petai. Pe na wyddent sut i farnu, neu ped apelid yn erbyn eu dyfarniad, byddai'r achos yn cael ei ddwyn gerbron 'g6yr a6dyr a voynt alwedigion o bleid y brenhin y dosbarth kynnen amrysson' (§ 1311), sef dosbarthwyr—er na ddefnyddir y term hwnnw fel y cyfryw. Pe deuai apêl yn erbyn barn y dosbarthwyr, eid â'r achos wedyn at ganonwyr—gwŷr o grefydd neu eglwyswyr eraill, yn ôl § 1321—a byddai dyfarniad y rhain ar yr achos yn gwbl derfynol.

Ni chadwyd ond un cofnod cyflawn o gynnal achos gerbron dosbarthwyr,<sup>59</sup> ond y mae'r cofnod hwnnw'n hynod werthfawr am sawl rheswm, nid lleiaf oherwydd bod trefn gweinyddu'r gyfraith yn cael ei gosod allan mewn cryn fanylder, gan gadarnhau llawer o'r elfennau a nodir yn y llyfrau cyfraith hwythau. Daw'r cofnod hwnnw o arglwyddiaeth Lancastraidd Cydweli yn y flwyddyn 1510, ac y mae'n cynnwys ple dosbarth, *placita de dosbarthe*. Y mae'n agor trwy adrodd breintlythyrau sy'n awdurdodi Hywel ap Henry, Thomas ap Henry a Gruffydd ap Dafydd ab Einion, dosbarthwyr, i archwilio cofnod achos rhwng Richard Fychan a Lleucu ferch Gwallter ynghylch tir yn Iscoed, a gynhaliwyd yn llys y cwmwd gerbron y stiward. Eir dros yr achos gwreiddiol hyd at ddyfarniad y brawdwr o fraint tir, a farnodd na ddylai Richard gael annedd o'r tir dan sylw yn ôl y gyfraith frodorol. Rhoddodd Richard wystl yn erbyn y dyfarniad, a rhoddodd Dafydd ap Gruffudd Fychan (y brawdwr o fraint tir a roddasai'r dyfarniad) ei wrthwystl. Gyda hyn trosglwyddwyd yr achos i sylw'r dosbarthwyr a archwiliodd gofnod y llys ac ymgynghori â llyfr cyfraith cyn rhoi eu dyfarniad. Cyflwynwyd Richard Fychan i gadwraeth y cwnstabl nes iddo gael mach ar £44, sef gwerth y tafod. Apeliodd Richard Fychan wedyn yn erbyn dyfarniad y dosbarthwyr a chyflwynwyd yr achos i sylw canonwyr y brenin o Westminster yn siambr y brenin yn Nugiaeth Lancastr, *coram canonicis domini regis apud Westmonasterium in camera domini regos Ducatus sui Lancastriae*.

Os yw'r cofnod hwn yn ddiddorol am y modd y mae'n cadarnhau bod y drefn a amlinellir yn *S*, *Tim*, *Q* ac *Ep* yn dal yn weithredol mor ddiweddar ag 1510, y mae'n bwysicach yng nghyd-destun yr astudiaeth bresennol ar gyfrif y dystiolaeth a ddarperir ganddi am y rhan y mae testun ysgrifenedig yn ei chwarae yn y drefn honno. Sonnir am y dosbarthwyr yn ymgynghori â llyfr cyfraith Gymreig, *liber legum Wallie*, wrth ddod i'w dyfarniad, a rhan o ddiddordeb arbennig y cofnod yw bod darnau o lyfr cyfraith yn cael eu dyfynnu ynddo. Perthyn rhai o'r dyfyniadau hyn yn agos iawn i'r hyn a geir yn Gymraeg yn Bleg ac yn Lladin yn Lladin D,<sup>60</sup> ond yr hyn sy'n fwy arwyddocaol byth yw bod dyfyniadau

eraill yn adleisio deunydd a gofnodwyd yng nghynffonnau rhai o'r llyfrau cyfraith diweddar. Er enghraifft, y mae

*Quid est lex, lex est media iusticia inter querentem et defendentem et dominum*

yn cyfateb yn agos i'r adnod ganlynol yng nghynffon *S* (ac a geir hefyd yn *Q*, *Ep* a *P*; y mae *hiatus* yn y fan gyfatebol yn nhestun *Tim*):

Sef y6 kyfreith, kena6l kyfa6nder kyfr6g ha6l6r ac amdiffynn6r ac argl6yd. (§ 1838)

Gellir casglu'n lled ddiogel ar sail y dyfyniadau yn PRO Just. 1/1156, 6 fod y llyfr cyfraith a ddefnyddiwyd yng Nghydweli yn 1510 yn un a gynhwysai destun Bleg ynghyd â deunydd ychwanegol a gynrychiolai ddatblygiad diweddarach ar hynny—mewn geiriau eraill, testun tebyg ei gynnwys a'i naws i *S*, *Tim*, *Q*, *Ep* a *P*.

Cadwyd tystiolaeth bellach i'r rhan a chwaraeid gan destunau ysgrifenedig o'r gyfraith mewn cofnod o achos a gynhaliwyd gerbron brawdwr o fraint tir yn 1540, rhwng John ap Thomas a Rhys ap Gwilym ynghylch tir a elwid Llwyn Gwyn yng Nghaeo, sir Gaerfyrddin.<sup>61</sup> Ymdriniwyd yn fanwl â'r cofnod a'i arwyddocâd gan T. Jones Pierce, ond un agwedd ar yr achos nad ymhelaethodd arno yw'r modd y mae'r dogfennau, wrth adrodd yr hanes gam wrth gam, yn dyfynnu yn Gymraeg ddarnau o lyfr cyfraith, a'r rheini unwaith eto'n cyfateb nid yn unig i ddeunydd Bleg traddodiadol, ond hefyd i'r deunydd atodol a gofnodir yng nghynffonnau rhai o'r deddfgronau diweddar. Nodir rhai enghreifftiau isod, a'u cyfosod â dyfyniadau o *S* a *Tim*:

gorcheidwat ar dir yw y neb a gynhalyo  
iawn a dilyet dyn arall neu ay  
gorcheidwatto [...] perchen yw y neb  
yvo y meddy ar y dilyet dilis.  
(Llsg. Rhydodyn 4224)

G6rcheid6at y6 y neb a gynhalyo  
neu a 6archat6o dilyet dyn arall.  
Perchenna6c y6 y neb a vo yn medu y  
dilyet dilis.  
(*S* §§ 352, 351; *Tim* ff. 3<sup>35</sup>–3v<sup>1</sup>)

o dri modd y kay kyfreith rwng hawlwr  
ac amddiffynnwr ac vn yw o golli  
amser a hynny y ddamhwenia o lawer  
modd.  
(Llsg. Rhydodyn 4224)

O tri modd y kae kyfreith r6g  
ha6l6r ac amdiffynn6r. Vn y6 o  
golli y amsser, a h6nn6 a dam6eina o  
la6er mod.  
(*S* §§ 1166–7; *Tim* ff. 3<sup>16-18</sup>)

tair daddal y ssysd anghynwysedig  
ynghyffraith a ddis[s]ynno o blayt  
hawlwr ar wall hawgaeir ney am  
hysbysserwydd ney thro amsser.  
(Llsg. Rhydodyn 4228)

Teir datyl yssyd aghyn6yssedic  
yghyfreith. Vn y6 datyl o bleid  
ha6l6r a disgyno ar 6alla6geir, neu  
anysbysr6yd, neu llithra6 amser.  
(*S* §§ 1364–5; *Tim* ff. 29v<sup>21-3</sup>)

[...] bod kyfreith yn dywedyd lley  
ymddiffyner pen yddadyl bod yn  
varwol yr holl k[e]ygey.  
(Llsg. Rhydodyn 4227)

Kyfreith a d6eid, lle amdiffyner  
pen y dadyl bod ynn var6a6l  
y keigeu oll.  
(*S* § 1452; *Tim*—hiatus)

Er na ellir, yn ddiogel, uniaethu unrhyw un o'r llawysgrifau cyfraith a oroesodd hyd heddiw â'r llyfrau a ddefnyddiwyd yng Nghydhweli yn 1510 a Chaeo yn 1540, y mae cofnodion yr achosion hyn yn dwyn tystiolaeth bwysig nid yn unig i'r ffaith bod Cyfraith Hywel yn cael ei harfer o hyd gan frawdwy'r o fraint tir a dosbarthwyr yn ôl y drefn a amlinellir ar ddalennau llyfrau cyfraith diweddar fel *S* a *Tim*, ond hefyd bod cynnwys y llyfrau hynny'n cael ei gyfrif yn gyfraith dda mewn rhannau o dde-orllewin Cymru tan ddegawdau cyntaf yr unfed ganrif ar bymtheg. Nid afresymol felly fyddai credu i *S* a *Tim* hwythau gael eu llunio at ddefnydd ymarferol gan wŷr cyfraith eu dydd, boed yn frawdwy'r o fraint tir neu ynteu'n ddosbarthwyr; yn wir, ceir awgrym pendant i'r perwyl hwnnw ar ddalennau'r llawysgrifau eu hunain.

O droi at frig ff. 60 yn *S*, ceir darn a fwriadwyd yn ddolen gyswllt rhwng y deunydd Bleg traddodiadol a dechrau'r gynffon:

Kyn no hyn y de6esb6yd o so6ydogyon llys benydyaf1 y brenhin, a chyfreitheu y llys benydyaf1. Bellach y de6edir o s6ydogyon y 6lad a'r gyfreith gyffredin a ossoded o bleid y brenhin rong y brenhin a'e 6yr ymhop g6lad o'e deyrmas. (§§ 1234–5)

Addasiad yw'r brawddegau hyn o'r paragraff sy'n cysylltu Cyfreithiau'r Llys a Chyfreithiau'r Wlad yn Bleg (§§ 32:21–3), ond nid ydynt yn gorwedd yn esmwyth yn y fan hon gan yr ymdriniwyd eisoes â'r hyn a addewir yn yr adran nesaf. O droi at y pwynt cyfatebol yn *Tim*, fodd bynnag, ceir tamaid o destun ychwanegol sydd o bosibl yn taflu goleuni pwysig ar natur a tharddiad deunydd y gynffon yn y llawysgrif honno.

Teir ran y6 a6dyrda6d Hyel da. ae gyfreitheu. nydamgen kyfreith y lis bennydyaf1. Achyfreith y 6lad. Ac aruer kyfreitha6l o bob vn o honunt. Dyededic y6 hyt hyn o gyfreith y llys a chyfreith y 6lad yr hon ael6ir yr a6dyrda6d diledef ereill a geil6 y bra6dlyfyr. *D6eta6y y6 rac lla6 o rol dauid ll6yd sef y6 honno seretein o pyngkeu yssyd gyfreidiol y pob g6r o gyfreith 6rthynt pob amser ...* (*Tim* ff. 21v; myfi biau'r italeiddio)

Digwydd yr enw 'Dafydd Llwyd' sawl gwaith ymhlith swyddogion Tywysogaeth De Cymru yn yr Oesoedd Canol Diweddar.<sup>62</sup> Yn eu plith ceir un Dafydd Llwyd ap Gwilym y galwyd arno i weithredu fel dosbarthwr yn 1387–8, a fu'n blwyfwas Gwynionydd-uwch-cerdin yn 1388–90, ac a fu'n weithredol mewn swyddogaethau eraill mor ddiweddar ag 1417.<sup>63</sup> Fel y trafodir isod, tt. xlii–xliv, y mae'r cyfeiriadau at seintiau lleol ar ddail *S* a *Tim*, ynghyd â'r enwi ar gwmwd Gwynionydd-uwch-cerdin sy'n cyd-ddigwydd â hynny yn *Tim*, yn awgrymu bod cysylltiad agos rhwng y llawysgrifau hyn a'r union gwmwd y gweithredai Dafydd Llwyd ap Gwilym ynddo. Gan hynny, nid afresymol fyddai credu bod copïydd *Tim*, wrth gyrraedd y pwynt hwn yn ei destun, yn dechrau cynnwys deunydd a dynnwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o 'rol' Dafydd Llwyd y dosbarthwr. Yn wir, oherwydd y berthynas agos iawn rhwng *Tim* ac *S* a amlinellir isod, gellid cymryd cam pellach ac awgrymu bod cynffon *S* hithau'n tarddu o destun a ddefnyddid gan ddosbarthwr hysbys a fu wrth ei waith tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Ar wahân i'r materion penodol hyn—achosion Cydweli a Chaeo, ac enw Dafydd Llwyd—y mae holl naws y llyfrau cyfraith diweddar yn tueddu i gadarnhau'r dyb mai llyfrau ymarferol oeddynt yn eu hanfod, cyfrolau i'w defnyddio yn llysoedd y cwmwd gan frawdwy'r o fraint tir neu ddosbarthwyr. Fel y gwelwyd, ar ddefnyddioldeb ymarferol y mae prif

bwyslais llawer o'r deunydd a atodwyd i brif destun Bleg yn y llyfrau diweddar; nid mewn egwyddorion y mae'r diddordeb pennaf, ond mewn trefn cyfreitha a'r broses o roi'r gyfraith ar waith. Y mae'n glir bod system gweinyddu Cyfraith Hywel ar lefel llys y cwmwd yn pwysu'n drwm ar y defnydd o lyfrau cyfraith, a gwelwyd enghreifftiau clir o'r modd y trowyd at destunau ysgrifenedig yn yr achosion yng Nghydweli yn 1510 (Lladin) a Chaeo yn 1540 (Cymraeg). Nid afresymol felly fyddai awgrymu bod *S* a *Tim* yn ddau destun a luniwyd i'w defnyddio yn llysoedd cwmwd eu dydd, ac y mae maint corfforol y ddau lyfr hyn yn awgrymu'n gryf eu bod yn llyfrau uwch eu statws na rhai a fwriadwyd at unig at ddefnydd brawdwr o frant tir – mewn geiriau eraill, ymddengys yn debygol eu bod yn llyfrau a gynnullwyd yn benodol at ddefnydd dosbarthwyr.

### Diwylliant y Dosbarthwyr

Goroedd enwau nifer da o ddsbarthwyr yn nogfennau Tywysogaeth De Cymru a'r arglwyddiaethau cyffiniol yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif,<sup>64</sup> ac er na wyddom fawr ddim am Ddafydd Llwyd ap Gwilym, nac am amryw o'i gyd-ddosbarthwyr am hynny, y mae eraill yn fwy hysbys. Yn wir, gwyddys i rai chwarae rhan amlwg a dylanwadol nid yn unig ym materion gweinyddol a chyfreithiol eu dydd, ond hefyd yn y bywyd llenyddol a diwylliannol cyfoes, a hwythau'n uchelwyr, yn noddwyr barddol ac mewn rhai achosion yn feirdd eu hunain hyd yn oed. Wrth drafod yr unigolion hyn, fodd bynnag, teg cofio rhybudd Llinos Beverley Smith fod y ffin rhwng y cyfreithiwr wrth ei waith, y gŵr lleyg addysgedig a'r henadur profiadol yn aml yn bell o fod yn eglur yng Nghymru'r Oesoedd Canol.<sup>65</sup>

Y mae barddoniaeth Gymraeg y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif yn cyflwyno delwedd o'r uchelwr canoloesol fel dyn diwylliedig a gymerai ddiddordeb gweithredol mewn amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys barddoniaeth, hanes, seryddiaeth, meddygaeth ac yn y blaen. Er enghraifft, dyma Lewys Glyn Cothi (*fl.* c. 1447–89) yn ei ddisgrifio'i hun yn darllen amryw fathau o destunau yng nghwmni'r uchelwr Wiliam ap Siôn o Lanegwad, sir Gaerfyrddin:

A'm swydd, gyda'm arglwydd mên,  
oedd ddeall iddo awen;  
darllein art arall yn well,  
darllein ystoriâu wellwell,  
Siensis, drwy'r siens a drig,  
achau'r ynys a'i chronig,  
a'r hen gerdd, er hyn o gof,  
a rhieingerdd o'r hengof.<sup>66</sup>

Rhestra Hywel Dafi (*fl.* c. 1450–80) ddiddordebau lluosog Gwilym ap Hywel ap Llywelyn o Argoed ym Mrycheiniog—uchelwr mor ddiwylliedig nes ei fod yn medru cywiro'r bardd pan fo raid:

Efô gâr awdl ac arraith,  
Efô wŷr synnwyr y Saith.  
Crwth eilwaith croyw a thelyn,  
Cywydd i Forfudd a fyn;

Cerddwriaeth llyfr cerddorion,  
Canuau'r brudiau o'u bron [...]  
O gedais lythr yn eisiau  
Efô a'm dysg pan fôm ein dau.<sup>67</sup>

Y mae rhai beirdd yn tynnu sylw penodol at ddiddordeb eu noddwyr ym materion y gyfraith. Un agwedd ar fywyd yn neuadd Nannau ym mhlwyf Llanfachreth ym Meirionnydd yn ôl Llywelyn Goch ap Meurig Hen (*fl. c.* 1350–90) mewn cywydd i Hywel a Meurig Llwyd, oedd 'Darllain cyfraith, rugliaith raid, / Sifil, i'm cyfneseifiaid'.<sup>68</sup> Tua chanrif yn ddiweddarach, honnodd Gutun Owain (*fl. c.* 1451–98) mewn cywydd i Elise ap Gruffudd ab Einion o Gorsygedol ym Meirionnydd, fod ei wybodaeth o'r gyfraith yn mynd ag ef 'i wreiddyn pob cyfrwyddydd'.<sup>69</sup>

Y mae cerddi i ddosbarthwyr hysbys yn tueddu i dynnu sylw arbennig at fedrusrwydd eu gwrthrych ym materion y gyfraith. Trwy ystyried dwy enghraifft o Geredigion ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg / dechrau'r bymthegfed ganrif, cawn lunio *milieu* diwylliannol bras y byddai Dafydd Llwyd ap Gwilym yntau, a fuasai'n gyfoeswr iddynt, wedi byw a gweithio ynddo. Dengys y cofnodion swyddogol i Lywelyn Fychan ap Llywelyn Goch o Anhuniog gyflawni amrywiaeth o ddyletswyddau gweinyddol yn lleol yn ystod yr 1380au a'r 1390au, a bu ei wybodaeth arbenigol o'r gyfraith yn allweddol er gwrth-droi camddyfarniadau mewn achosion ym Maenordeilo yn 1385/86 ac Iscoed yn 1397/98.<sup>70</sup> Yr oedd Llywelyn Fychan, ynghyd â'i gefnder enwocach, Rhydderch ab Ieuan Llwyd o Barcrhydderch, yn wrthrych cerdd fawl gan Lywelyn Goch ap Meurig Hen; ynddi fe'u canmolwyd nid yn unig am eu nawdd i feirdd a'u gwybodaeth am farddoniaeth, ond hefyd am eu harbenigedd a'u trylwyredd ym materion y gyfraith:

Ynifer o glêr a eglurynt,  
Awen yn llawen iawn y'i llywynt [...]  
Deallu barddlyfr da a ellynt,  
Dillynion cyson, ni'm atcesynt.  
Dechrau a chanawl hawl a holynt,  
Na diwedd cyfraith nid edewynt.<sup>71</sup>

Cyd-destun y gerdd, fe ymddengys, yw taith i Loegr, ac awgrym llau. 44–5 yw i Lywelyn a Rhydderch fynd yno ar fusnes cyfreithiol, ac yng ngwasanaeth y brenin:<sup>72</sup>

Breiniau, negeseu a ddangosynt,  
A gwin y brenin a obrynynt.

Fodd bynnag, yr enghraifft orau, bid sicr, o ddosbarthwr diwylliedig hysbys yw Rhydderch ab Ieuan Llwyd, cyd-wrthrych cerdd Llywelyn Goch. Unwaith eto, dengys y cofnodion swyddogol i Rydderch gyflawni amryw o ddyletswyddau pwysig yn sir Gaerfyrddin a sir Aberteifi yn ystod yr 1380au a'r 1390au, ond y bwysicaf ohonynt yng nghyd-destun y drafodaeth bresennol yw'r ffaith iddo weithredu fel dosbarthwr ar sawl achlysur rhwng 1380 ac 1392.<sup>73</sup> Cadarnheir ei allu a'i arbenigedd fel gŵr cyfraith gan y beirdd. Ym marwnad Gruffudd Llwyd i Rydderch,<sup>74</sup> er enghraifft, myn y bardd fod 'Cyfraith drwy bob iaith o'i ben', ac â ymlaen i'w ddisgrifio fel 'Cannwyll disbwyll a dosbarth', lle y

gellir deall *dosbarth* yn air mwys sy'n cyfeirio at ddisgleirdeb Rhydderch ('cannwyll') ym materion y gyfraith a materion diwylliannol (sef dosbarth y gyfraith a dosbarth cerdd dafod—a chan gynnwys hefyd o bosibl ddosbarth cerdd dant).<sup>75</sup> Mewn awdl i Rydderch gan Ddafydd y Coed (*fl.* ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg) sonnir amdano fel un a fynnai gyfiawnder: 'hawl gwared hwyl gwiredd'. Tynnir sylw arbennig at eiriau doeth Rhydderch: 'Crair geirgall da ddyall diddyedd', 'Ac arail y geirau cymrodedd', a gellir dehongli'r llinell 'Croyw Rydderch, pab geirserch pob gorsedd' yn gyfeiriad arall at ei ddisgleirdeb (cf. 'cannwyll') a'i degwch wrth benderfynu achosion.<sup>76</sup>

Ni ellir enwi Rhydderch ab Ieuan Llwyd heb feddwl ar unwaith am Lyfr Gwyn Rhydderch a luniwyd ar ei gyfer, y mae'n debyg, c. 1350.<sup>77</sup> Y mae'r Llyfr Gwyn yn cynnwys casgliad pwysig o destunau rhyddiaith: ar ei ddail mawr dwy-golofnog, tynnwyd ynghyd (o bosibl am y tro cyntaf) chwedlau'r Mabinogion, cyfieithiadau i'r Gymraeg o destunau naratif a chrefyddol, ynghyd â rhai trioedd a cherddi saga cynnar. Y mae'r llawysgrif yn arddangos llawer o nodweddion antholeg a gynlluniwyd yn bwrpasol, ac y mae'n bur sicr iddi fod yn destun sylw ac edmygedd yn ei dydd.<sup>78</sup> Y mae'n debygol hefyd y byddai Rhydderch yn gyfarwydd ag antholeg arall, gan y gellir cysylltu Llawysgrif Hendregadredd—a gynlluniwyd yn wreiddiol fel casgliad trefnus a chronolegol o gerddi Beirdd y Tywysogion—â thad Rhydderch, Ieuan Llwyd ab Ieuan, ac y mae lle i gredu bod haen o gerddi diweddarach wedi eu cofnodi ar ei dail yn ei gartref.<sup>79</sup> Y mae'n bur sicr i lawysgrif Hendregadredd ddod i ddwylo Rhydderch ar ôl ei dad, ac felly gallwn gysylltu ag ef a'i aelwyd ym Mharcrydderch amgylchedd diwylliannol tra chyfoethog, a grisielir yn arbennig mewn dwy lawysgrif y byddai ein gwybodaeth am lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol yn anhraethol dlotach hebddynt. Ped ychwanegem at y rhain ddadl gref J. Beverley Smith i ramadeg barddol Einion Offeiriad gael ei lunio dan nawdd yr un teulu,<sup>80</sup> dyna gyfoethogi ymhellach y *milieu* diwylliannol arbennig a amgylchynai Rhydderch ab Ieuan Llwyd.

Y mae'n drueni—yng nghyd-destun y drafodaeth bresennol o leiaf—na wyddys am lyfr cyfraith y gellid ei osod ochr-yn-ochr â'r llawysgrifau eraill y meddai Rhydderch arnynt.<sup>81</sup> Y mae'n bur sicr i'm meddwl i y byddai llyfr cyfraith ganddo, a hynny nid yn unig er boddhau ei ddiddordebau diwylliannol eang fel uchelwr, ond yn fwy penodol er mwyn iddo fedru cyflawni ei ddyletswyddau fel dosbarthwr: cofier honiad *Tim*, a ddyfynnwyd uchod, fod ei chynffon yn cynnwys 'seretein o pyngkeu yssyd gyfreidiol y pob gŵr o gyfreith 6rthynt pob amser'. Os yw *S* a *Tim* yn cynnwys deunydd a dynnwyd o lyfr dosbarthwr, 'rol dauid lluid', ac os yn gywir yr uniaethwyd yr unigolyn hwnnw â'r Dafydd Llwyd ap Gwilym a weithredai fel dosbarthwr yng Ngwynionydd-uwch-cerdin yn yr 1380au, ac mewn swyddogaethau eraill mor ddiweddar ag 1428/29, wedyn nid afresymol fyddai awgrymu y byddai unrhyw lyfr cyfraith a allai fod wedi bod ym meddiant Rhydderch, neu a ddefnyddid ganddo, wedi bod yn debyg o ran ei gynnwys a'i strwythur i *S* a *Tim*—dwy lawysgrif sy'n hanu (er o gyfnod ychydig yn ddiweddarach) o'r rhan honno o Geredigion lle y bu Dafydd Llwyd ap Gwilym a Rhydderch ab Ieuan Llwyd yn byw ac yn gweithio. Yn eu huchelgais a'u dychymyg fel *compedia* cynhwysfawr o destunau amrywiol o Gyfraith Hywel, y mae *S* a *Tim* fel petaent yn cyfateb i'r weledigaeth sy'n gorwedd y tu ôl i lunio'r Llyfr Gwyn a Llawysgrif Hendregadredd hwythau: gellir eu hystyried, yn y modd y maent yn cynnwys ac yn cyfod testunau hen a newydd, ymarferol a theoretig—ac weithiau rhai cwbl annisgwyl—yn gymheiriaid cyfreithiol i'r cysyniad o antholeg llenyddol a oedd yn magu poblogrwydd fel



*genre* yng Nghymru ac mewn mannau eraill o ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen.<sup>82</sup>

Am yr holl resymau hyn, gellir yn deg ystyried *S* yn uchafbwynt traddodiad llawysgrifol Bleg, a hithau'n adlewyrchu nid yn unig ben draw datblygiad a throsglwyddiad y gyfraith frodorol yn ne Cymru yn ei chyfnod olaf ond hefyd, yn anuniongyrchol, *milieu* diwylliannol ehangach hynod gyfoethog. Yn adran nesaf y Rhagymadrodd hwn, gosodir *S* yng nghyd-destun llawysgrifau eraill dull Blegywryd, ac yn yr adran olaf manylir ar brif nodweddion y llawysgrif ei hun, olrheinir hynny sy'n hysbys am ei hanes a thrafodir rhai agweddau ar ei horgraff.

## 2. LLYFR BLEGYWRYD (BLEG) A PHERTHYNAS Y LLAWYSGRIFAU

Fel y gwelwyd eisoes, rhannodd Aneurin Owen llawysgrifau Cymraeg Cyfraith Hywel yn dri grŵp, a hynny ar sail iaith a chyfeiriadaeth. Rhestrod brif nodweddion testunau ‘dull Dyfed’ (neu Bleg, fel y’i gelwir bellach) fel a ganlyn:

In the DIMETIAN CODE [...] we find mention of alterations made by Rys, son of Gruffudd, Prince of that district, about 1180; peculiar local ordinances, such as the heriots of the castellains, and of the holders of the seven bishop houses in Dimetia; privilege of adjudging causes attached to every landowner; conditional state of bondage, and emancipation therefrom in the ninth descent, &c.<sup>1</sup>

Manylodd A. W. Wade-Evans ymhellach ar nodweddion y grŵp hwn:

[They] refer both to the King of Dinevwr and to the King of Aberffraw, stating expressly that of all the kings in Wales gold is payable to these two only. The King of Dinevwr, however, is mentioned first in order, and there is a special section devoted to him. One of the Dinevwr kings is also mentioned by name, viz. Rhys ab Gruffydd, sovereign of Deheubarth, who died in 1197. There is also found a section dealing with the seven bishop-houses in Dyved, one of the patrias included in the Deheubarth [...] The preface of this class mentions a certain Blegywryd who is described as the cleric appointed in Howel’s convention at the White House to reduce the revised laws to writing.<sup>2</sup>

Dangosodd Goronwy Edwards ymhellach y gellir dosbarthu’r llyfrau cyfraith yn yr un modd ag y gwnaeth Aneurin Owen ar sail lleoliad y fformiwla ‘trwy rad Duw’ ym mrawddeg gyntaf y rhaglith:

The class whose prologues introduce the *Dei gratia* in the incongruous way (‘Hywel by God’s grace son of Cadell’) coincides with the class which Owen called ‘Dimetian’.<sup>3</sup>

Rhestrod Aneurin Owen ddeuddeg llawysgrif o dan y pennawd ‘The Dimetian or West Wales Code’ yn *Ancient Laws*,<sup>4</sup> gan osod y *sigla I–T* arnynt. O’r deuddeg hynny, un ar ddeg sy’n perthyn i ddosbarth Bleg mewn gwirionedd, gan mai llawysgrif yn null Ior yw *K*, er bod iddi rai nodweddion deheuol hefyd.<sup>5</sup> At restr Aneurin Owen, gellir ychwanegu chwe llawysgrif ganoloesol arall nas defnyddiwyd ganddo, gan wneud cyfanswm o ddwy ar bymtheg o llawysgrifau Bleg a gopiwyd cyn canol yr unfed ganrif ar bymtheg. Fe’u rhestrir isod yn nhrefn eu dyddiad (hyd y gellir gwneud hynny). Nodir *sigla* Aneurin Owen yn achos y llawysgrifau hynny a ddefnyddiwyd ganddo yn *Ancient Laws*, a gosodwyd o fewn bachau petryal y *sigla* a arferir bellach ar gyfer y llawysgrifau nas defnyddiodd, ac mewn un achos lle y newidiwyd *siglum* Owen am resymau ymarferol.<sup>6</sup>

- O* LIGC Peniarth 36A, hanner cyntaf y 14g.<sup>7</sup>
- N* LIGC Peniarth 36B, hanner cyntaf y 14g.
- [*Tr*] Caergrawnt, Coleg y Drindod O.vii.I, hanner cyntaf y 14g.
- R* LIGC Peniarth 31, hanner cyntaf y 14g.
- L* BL Cotton Titus D.ix, canol y 14g.
- T* BL Harley 958, canol y 14g.

- [*Bost*] NLW 24029A (yn flaenorol, Boston, Massachusetts Historical Society 5), canol y 14g.<sup>8</sup>
- I* LIGC Peniarth 38, c. 1400.
- J* Rhydychen, Coleg Iesu 57, c. 1400.<sup>9</sup>
- M* LIGC Peniarth 33, c. 1400.
- Q* LIGC Wynnstay 36, hanner cyntaf y 15g.
- S* BL Add. 22356, canol y 15g.
- [*Tim*] LIGC Llanstephan 116, canol y 15g.
- [*Ep*] (*C yn Ancient Laws*) LIGC Peniarth 258, ail hanner y 15g. (copi o *Q*)<sup>10</sup>
- P* LIGC Peniarth 259A, ail hanner y 15g.
- [*Card*] Caerdydd 2.7, ail hanner y 15g. (copi o *L*)
- [*Llan*] LIGC Llanstephan 29, c. 1500.

O'r rhain, y mae *O*, *N* a *Tr* yn yr un llaw (Gwilym Was Da),<sup>11</sup> y mae *J* yn llaw Hywel Fychan, prif ysgrifydd Llyfr Coch Hergest,<sup>12</sup> ac y mae *S* a *Tim* yn yr un llaw (anhysbys), fel y manylir ymhellach isod.

Y cyntaf i drafod perthynas llawysgrifau Bleg â'i gilydd mewn unrhyw fanylder oedd J. Enoch Powell,<sup>13</sup> ond cymhlethir ei syniadau'n fawr gan y ffaith bod ei ddwy drafodaeth nid yn unig yn gwrth-ddweud ei gilydd ar nifer o bwyntiau ond hefyd yn cynnwys rhai gosodiadau di-sail. Creiddiol i ymdriniaethau Enoch Powell â llawysgrifau Bleg yw'r cysyniad o 'adrannau crwydrol', damcaniaeth a gynigiwyd ganddo er mwyn ceisio esbonio un o nodweddion honedig llawysgrifau Cymraeg Cyfraith Hywel, sef amrywiaeth mawr o ran trefn y traethigau rhwng y naill lawysgrif a'r llall:

That wide divergencies in the matter of section-order exist among the MSS. of the laws of Howel is well known. Gwenogvryn Evans in cataloguing them continually laments the impossibility of determining exactly the contents of a MS. because its order always differs from that of others and of the edition of Aneurin Owen, which follows the order of no single MS., not even of *L* [...], on which, for the Book of Blegored (Dull Dyfed), the text is founded. But I am not aware that this phenomenon has ever been studied specially or any reasoned explanation of it put forward.<sup>14</sup>

Cyn ystyried esboniad Enoch Powell dros yr amrywio hwn yn nhrefn traethigau llawysgrifau Bleg, buddiol fyddai cael amcan clir o hyd a lled yr amrywiaeth dan sylw. Yng Nghonsbectws 1, cyflwynir dadansoddiad manwl o gynnwys a threfn traethigau llawysgrifau Bleg ar ffurf cyfres o dablau. O gymharu ar draws colofnau'r tablau, gwelir bod yn rhaid anghytuno ar unwaith â gosodiadau sylfaenol Powell. Ac anwybyddu am y tro ddau gwlm o lawysgrifau o'r bymthegfed ganrif (sef *IS* a *QEpP*) a drafodir ymhellach isod, y mae'r testunau sy'n weddill yn arddangos nid y 'wide divergency' o ran trefn eu cynnwys a honnodd Powell, ond yn hytrach batrwm sylfaenol o debygrwydd a chyfatebiaeth.

O fewn yr undod sylfaenol hwn, y mae'n wir y gellir adnabod dau is-ddosbarth o lawysgrifau Bleg. Ac anwybyddu o hyd y ddau gwlm *IS* a *QEpP*, gwelir dau wahaniaeth sylfaenol rhwng *OTr* a gweddill llawysgrifau Bleg—sef y gwahaniaethau hynny a nododd Powell rhwng *O* a *Tr* ar y naill law ac *L* ar y llaw arall:

Y cyntaf yw bod *OTr* wedi gadael allan ‘gyfreithiau’r llys’ [...] gyda hyn o esboniad: *Peidyaw weithon a wnawn a chyfreitheu llys, kanyt oes aruer na chrynodeb ohonynt yr awr hon* [...] Unwyd hyn yn anghelfydd â’r frawddeg a ddilynai Gyfreithiau’r Llys [...], *O hynn allan y treithir o gyureith y wlat a’r swydogyon dywededic; ac yn gyntaf o teir colofyn kyfreith, drwy roi’r geiriau a dechreu kyfreitheu y wlat yn lle cymal cyntaf y frawddeg honno (O hynn ... dywededic), a thorri felly ar gystrawen yr ail gymal. Serch hynny fe arbedwyd un adran am benodi barnwyr, ac fe’i gwthiwyd i mewn tua’r diwedd [...]*

Gwelir yr ail wahaniaeth pwysig rhwng testunau *OTr* ac *L* yn lleoliad rhannau arbennig. Trioedd yw’r rhain oll, neu ynteu bethau’n perthyn yn agos i drioedd. Yn *L* ceir hwy yn ddau sypyn helaeth. Digwydd y naill sypyn, sef trioedd cyfraith, rhwng diwedd y Cyfreithiau Llys a’r adran fer [...] am y ‘swyddogion cyffredin’. Daw’r llall, sy’n llawer helaethach, ar ôl y trioedd am ddirwy [...]. Yn *OTr* ceir y ddau sypyn hyn (ac eithrio un set o drioedd am dir a leolwyd mewn man perthnasol yn gynharach [...]) gyda’i gilydd tua diwedd y ‘llyfr’, rhwng yr adran am ddewis barnwyr [gw. uchod] a’r adran ar ‘gyffelybion’ [...].<sup>15</sup>

Gwelodd Powell y ddau ffactor hyn yn achos digonol dros ystyried *OTr* ac *L* yn fersiynau gwahanol, onid annibynnol, ar ddull Bleg—er bod yn rhaid credu iddynt darddu yn y pen draw o ffynhonnell gyffredin.<sup>16</sup> Yr hyn na sylweddolodd Powell, y mae’n ymddangos, yw y gellir defnyddio’r ddwy nodwedd hyn i rannu holl lawysgrifau Bleg yn ddau grŵp, y cyfeirir atynt yn y drafodaeth bresennol fel Testunau Math A (grŵp *L*, sy’n cynnwys Cyfreithiau’r Llys ac yn lleoli’r trioedd mewn dau le yng nghorff y testun) a thestunau Math B (grŵp *OTr*, sy’n hepgor Cyfreithiau’r Llys gyda sylw esboniadol ac yn gosod y trioedd gyda’i gilydd ar y diwedd).

Testunau Math A: *L, M, N,*<sup>17</sup> *Bost, T, J*, ynghyd â thair llawysgrif afreolaidd eu trefn (a drafodir ymhellach isod), sef *Q, Ep* a *P*. Ar sail lleoliad y trioedd yn *Tim* a *Llan*, gellir eu gosod hwythau yn y dosbarth hwn.<sup>18</sup>

Testunau Math B: *O, Tr*, ynghyd â dwy lawysgrif afreolaidd eu trefn (a drafodir ymhellach isod), sef *I* ac *S*.<sup>19</sup>

Gellir dehongli hepgor Cyfreithiau’r Llys fel gweithred olygyddol ymwybodol. Y mae’r frawddeg eglurhaol yn nhestunau Math B yn y fan y disgwylir i Gyfreithiau’r Llys ddechrau, sef ‘Peidyaw weithon a wnawn ...’ yn awgrymu bod rhyw gopiyydd, ar ryw bwynt penodol yn hanes trosglwyddiad Bleg, wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i ollwng o’r fan honno yn ei destun ddeunydd a oedd yn bresennol mewn cysail.<sup>20</sup> Fodd bynnag, anos yw esbonio pam y mae lleoliad y trioedd yn wahanol yn y ddau ddosbarth o destunau, ac er mwyn deall eglurhad Enoch Powell ar y ffenomen rhaid ystyried ei ddamcaniaeth am yr adrannau crwydrol.

### ‘Adrannau crwydrol’

Dibynna’r ddamcaniaeth hon ar un rhagdybiaeth sylfaenol, sef ‘that for a scribe engaged in copying a MS. to transfer a portion of the text from one position in the book to another would be so difficult and thankless as never to occur’.<sup>21</sup> Yn ôl Powell, rhaid priodoli unrhyw

wahaniaethau yn nhrefn cynnwys y gwahanol lawysgrifau cyfraith i fodolaeth ‘adrannau crwydrol’ a ychwanegwyd yn ddiweddarach i gopi o destun Bleg. Dengys hyd yr ‘adrannau crwydrol’, a’r amrywiaeth mawr (honedig) yn eu lleoliad, nad ychwanegiadau ar ffurf *marginalia* fyddent ond yn hytrach ychwanegiadau ar ddalennau rhydd o femrwn a fyddai wedi cael eu gwthio rhwng dail y llyfr cyfraith ei hun. Byddai’r ychwanegiadau hyn yn cael eu corffori’n rhan o’r testun gan y copiyydd nesaf, naill ai yn y fan y’u cafodd neu yn y fan y tybiai y byddent fwyaf addas. Yn ôl Enoch Powell, canlyniad y proses hwn yn y pen draw fyddai creu nifer o deuluoedd o lawysgrifau a threfn eu cynnwys yn gwahaniaethu ryw gymaint oddi wrth ei gilydd. O gymharu trefn cynnwys y llawysgrifau unigol, gellid darganfod pa adrannau sy’n ychwanegiadau a pha adrannau sy’n perthyn i gynsail unrhyw deulu arbennig o lawysgrifau, neu i lawysgrifau dull Bleg yn eu crynswth.<sup>22</sup> Yn ôl Powell, nid oedd y trioedd yn rhan o’r llyfr cyfraith a fu’n gynsail i Bleg gan nad cyfreithiau mohonynt fel y cyfryw. Rhaid felly mai ychwanegiadau diweddarach oedd y rhain, a hyn wedyn, fe ddadleuir, sy’n esbonio’r gwahaniaeth deublyg rhwng y trioedd yn nau ddosbarth llawysgrifau Bleg, sef gwahaniaeth o ran eu lleoliad a gwahaniaeth o ran eu trefn.<sup>23</sup>

Cynigiodd Powell dair ffordd y gallai triawd fod wedi ei gynnwys mewn llawysgrif: ‘(a) drwy ei godi o lsgr. arall lle y cynhwyswyd ef eisoes, neu (b) drwy ddyfais neu gof y copiwr, neu (c) drwy ei ddyfynnu o gasgliad annibynnol o drioedd’.<sup>24</sup> Daw i’r casgliad na all (a) na (b) roi cyfrif digonol dros yr amrywiaethau yn nhrefn a lleoliad y trioedd yn *OTr* ac *L* a chan hynny, meddai

rhaid bod rywdro gasgliad o drioedd ar wahân i’r ‘llyfr cyfraith’. Gan mai casgliad cynyddol oedd hwn yntau, byddai lleoliad ychwanegiadau diweddarach yn amrywio mewn gwahanol gopiâu ohono. O’r diwedd cyfunwyd yr holl drioedd hyn â’r ‘llyfr cyfraith’, a rhai ohonynt eisoes wedi cael lle ynddo.<sup>25</sup>

Yn ôl Powell, felly, cymerodd copiyydd cynsail *OTr* un copi o ‘lyfr y trioedd’ a’i gynnwys, fel y’i cafodd, rhwng dwy ddalen olaf y llawysgrif yr oedd yn ei chopio. Fodd bynnag yr oedd gan gopiyydd cynsail *L* gopi gwahanol ei drefn o ‘lyfr y trioedd’, a defnyddiodd y deunydd mewn ffordd wahanol. Gosododd ef sypyn o drioedd ar ddiwedd Cyfreithiau’r Llys a rhoi’r gweddill ar ôl sypyn bach o drioedd a oedd eisoes wedi cael eu cynnwys yn ei gynsail (sef ar ôl *LIBleg* § 41). Tybiai Powell fod y trioedd ynghylch tir (*LIBleg* § 62) a’r trioedd am gynefodau (*LIBleg* § 89) eisoes yn eu lle yng nghynseiliau *OTr* ac *L*.<sup>26</sup>

Y mae gwendid sylfaenol yn namcaniaeth Powell am yr adrannau crwydrol. Fe’i gwelir glir iaf yn y disgrifiad a ddyfynnwyd uchod o’r ‘llyfr y trioedd’ honedig y daeth y trioedd i’r llyfrau cyfraith ohono.<sup>27</sup> Yn ôl Powell, y ffaith bod y llyfr hwnnw’n ‘gasgliad cynyddol’ sy’n cyfrif, trwy adrannau crwydrol, am yr amrywiaeth o ran trefn ei gynnwys rhwng y copi o’r testun hwnnw a ddefnyddiwyd gan gopiyydd cynsail *OTr* a’r copi a ddefnyddiwyd gan gopiyydd cynsail *L*; a hyn, yn ei dro, sy’n achosi’r amrywiaeth yn nhrefn y trioedd rhwng *OTr* ac *L*.<sup>28</sup> Yn rhesymegol, felly, i roi cyfrif am leoliad a threfn y trioedd yn y testunau afreolaidd *QEP* ac *IS*, rhaid rhagdybio bodolaeth o leiaf un copi arall o’r ‘llyfr y trioedd’ honedig, un gwahanol ei drefn i’r ddau gopi arall ac un a ddefnyddiwyd gan gopiyydd cynsail *QEP* mewn ffordd wahanol i gopiwyd cynseiliau *OTr* ac *L*, sef gwasgaru’r trioedd trwy ddarn canol y llyfr cyfraith.<sup>29</sup> Fodd bynnag, yr hyn sy’n hynod am y tri chopi honedig hyn o ‘lyfr y trioedd’, os

yw dadl Enoch Powell yn ddilys, yw bod yn rhaid eu bod, o dan yr holl amrywiadau yn eu trefn, ill tri'n cynnwys yr un deunydd yn union gan mai'r un trioedd yn union a geir ym mhob un o'r llawysgrifau Bleg a oroesodd o'r cyfnod canol (ac eithrio'r manau hynny lle y collwyd deunydd trwy fwch neu fylchau mewn llawysgrif, neu trwy 'lam llygad').<sup>30</sup> Fodd bynnag, os oedd 'llyfr y trioedd' yn gasgliad cynyddol, yn rhesymegol fe ddisgwyliid gweld o leiaf rai enghreifftiau o druoedd unigryw yn y gwahanol gopiau ohono y mae damcaniaeth Enoch Powell yn pwysu arnynt.

Mwy arwyddocaol byth o safbwynt damcaniaeth yr 'adrannau crwydrol' a dull Bleg yn gyffredinol yw'r ffaith bod pob un o lawysgrifau canoloesol Bleg nid yn unig yn cynnwys yr un trioedd ond hefyd—gyda'r eithriadau a amlinellwyd yn n. 30 ac ychydig o fân amrywiadau y gellir rhoi cyfrif amdanynt yn nhermau gwallau copïo neu fylchau yn y llawysgrif—maent yn cynnwys yr un traethigau yn union. Yn rhesymegol, dylai damcaniaeth yr 'adrannau crwydrol' ragdybio bodolaeth cysail ac yna gyfres o is-gynseiliau sy'n esgor ar grwpiau o lawysgrifau sydd oll â'r un cnewyllyn sylfaenol ond yn gwahaniaethu ryw gymaint oddi wrth ei gilydd o ran eu cynnwys a'u trefn wrth i ddeunydd gael ei ychwanegu i lyfrau gwahanol ar ddalennau rhydd o femrwn, ond gwahaniaethu o ran eu trefn yn unig a wna testunau Bleg mewn gwirionedd, a hynny o fewn ffiniau patrymau penodol.

O wrthod damcaniaeth yr 'adrannau crwydrol', rhaid ceisio esboniad arall dros yr amrywio hwn yn nhrefn cynnwys testunau Bleg.

### **Y Copïydd-olygydd**

Fel y nodwyd eisoes, y mae modd ystyried hepgor Cyfreithiau'r Llys o *OTr* (neu eu cysail) yn weithred olygyddol bendant: wrth ollwng y darn hwn o'i lyfr cyfraith gyda'r frawddeg esboniadol, 'Peidyaw weithon a wnawn ...', daeth y copïydd, Gwilym Was Da (neu ei ragflaenydd), yn olygydd ymwybodol. Gwelir yr un osgo olygyddol yn y weithred o 'achub' peth o'r deunydd a ollyngwyd (*LIBleg* §§ 16 a 17, ar destun Brawdwy a Brawd) a'i symud i ran arall o'r llyfr—sef yr union beth yr honnodd Enoch Powell a fyddai 'so difficult and thankless as never to occur'.<sup>31</sup> Os medrai copïydd *OTr* hepgor darn sylweddol o ddeunydd Bleg traddodiadol o'r llawysgrif yr oedd yn ei chopio, gan 'achub' peth o'r deunydd hwnnw a'i symud i ran arall o'r gwaith, a hynny am resymau dealladwy,<sup>32</sup> tybed oni ellid rhoi cyfrif am weddill yr amrywiadau yn nhrefn traethigau llawysgrifau Bleg yn yr un termau, sef canlyniad gweithgarwch copïwyr a fynnai olygu eu deunydd a'i ad-drefnu, a hynny—y mae'n debygol—er mwyn creu llyfrau a ystyrient yn fwy pwrpasol mewn rhyw fodd, neu yn fwy trefnus neu resymegol eu cynnwys.

O geisio esbonio'r gwahaniaethau o ran lleoliad a threfn y trioedd yn *OTr* ac *L* yn nhermau gweithgarwch golygydd ymwybodol, fe'n hwynebir gan ddau bosibilrwydd: naill ai bod lleoliad a threfn trioedd *OTr* yn adlewyrchu patrwm eu cysail, ac felly bod eu trefn a'u lleoliad yn *L* yn gynnyrch gwaith golygyddol; neu i'r gwrthwyneb yn hollol. (Ni chadwyd unrhyw dystiolaeth a fyddai'n ein harwain i gredu bod posibilrwydd arall eto o ran lleoliad a threfn y trioedd yn y gysail.)

Wrth drafod y trioedd fel 'adrannau crwydrol', dadleuodd Enoch Powell o blaid derbyn *OTr* yn geidwaid y drefn a'r lleoliad mwyaf cyntefig: 'the fact that in *OTr* these triads come at the end, in the natural position for additional matter [...] provides a guarantee that these, the

oldest MSS. of Blegored's code, do in fact present a sincerer form of text than the rest'.<sup>33</sup> Er nad yw rhesymeg Powell yn y fan hon yn gorwedd yn esmwyth â'i ddadl ehangach am natur 'adrannau crwydrol' yn fwy cyffredinol, y mae'r corff o ddeunydd ychwanegol a osodwyd ar ddiwedd testun Bleg ar ffurf 'cynffon' yn *S, Tim, J a Bost* yn cadarnhau ei dyb mai dyma'r lleoliad mwyaf naturiol ar gyfer ychwanegiadau. Gan hynny, gellid esbonio lleoliad y trioedd yn y gysail trwy dybio bod rhyw gopiyydd ar hynt wedi ychwanegu copi o gasgliad o drioedd (yn cyfateb i *LIBleg* §§ 85, 86, 87, 88, 89, 90:1–219) at ddiwedd ei gopi o Bleg, a bod *LIBleg* § 62 (Trioedd ynghylch Tir) naill ai eisoes yn ei le neu iddo gael ei osod yn fwriadol yn y fan honno, gyda deunydd arall ar yr un thema, fel gweithred olygyddol fwriadol.<sup>34</sup>

Os lleoliad a threfn trioedd *OTr* oedd y patrwm gwreiddiol, a ellid awgrymu pam y byddai copiyydd diweddarach yn dymuno symud y trioedd o'r lleoliad hwn, gan eu had-drefnu a'u hail-leoli mewn dwy fan wahanol ar ganol y llyfr cyfraith, er creu patrwm *L*?

Daw prif adran gyntaf Bleg, sef Cyfreithiau'r Llys, i ben â *LIBleg* § 32:20 (perthyn §§ 32:21–3 i ddechrau'r ail 'lyfr' mewn gwirionedd, sef Cyfreithiau'r Wlad). Gan hynny, gellid dadlau mai lleoliad digon naturiol fyddai hwn i osod deunydd ychwanegol, a derbyn yr egwyddor sylfaenol a nodwyd eisoes. Pwnc tair brawddeg olaf 'llyfr' cyntaf Bleg (*LIBleg* §§ 32:18–20) yw gwys, sef union destun y bloc cyntaf o drioedd sy'n eu dilyn yn *L*. Ceir wedyn drioedd am wadu a thyngu, am frawd cyngaws, am fanag a rhaith gwlad ac am ddatgan barn. Hynny yw, tynnwyd ynghyd i'r fan hon drioedd o ddau le gwahanol yn y gysail (yn ôl trefn *OTr*), sef *LIBleg* §§ 90:205–19, 87:1–5, 90:197–204, 87:6–15, y cyfan ar thema gwahanol fathau o ddatganiadau mewn llys, a chyswllt synhwyrol rhwng y bloc cyntaf o'r trioedd hyn a diwedd llyfr cyntaf Bleg. Er nad oes cyswllt synhwyrol amlwg dros gynnwys gweddill y trioedd (*LIBleg* §§ 90:1–196, 85:1–28, 86:1–30, 88:1–8) yn y man lle y'u ceir yn *L* (sef rhwng *LIBleg* §§ 41 a 42, ar destun Dirwy a Gwarant), gwelir bod pwyslais mawr ar batrymau rhifyddol yn nechrau'r traethigau yn y rhan hon o'r llyfr cyfraith—y mae *LIBleg* §§ 34, 35, 36 a 38 i gyd yn dechrau â nawoedd, §§ 40 a 41 yn dechrau â thrioedd a § 42 yn dechrau â phedwarawd. Digon naturiol felly fyddai i olygydd a oedd am symud y trioedd hyn (am ba reswm bynnag) o ddiwedd y testun, fynd ati i'w gosod yn y fan hon (gan dynnu *LIBleg* § 62, Trioedd ynghylch Tir, gyda hwy oherwydd tebygrwydd y thema). Anodd, fodd bynnag, yw cynnig eglurhad dros newid *trefn* y trioedd wrth eu symud, a hefyd dros adael casgliad bach o drioedd (*LIBleg* § 89, Cynefodau) ar ôl ar y diwedd. Ac anos byth yw cynnig rheswm golygyddol dros symud y trioedd o gwbl. Nid cyfreithiau fel y cyfryw mo'r trioedd, fel y nododd Powell yn ddigon cywir, ond yn hytrach fersiynau mnemonig ar ddeunydd y ceir llawer ohono mewn ffurf fwy uniongyrchol mewn manau eraill. Rhyw fath o atodiad neu ddeunydd cyfochrog i'r testun cyfraith 'go iawn' yw'r trioedd yn eu hanfod, a chan hynny mwy rhesymegol o lawer fyddai eu gadael ar ddiwedd y gwaith yn hytrach na'u gosod ar ganol y testun. Y mae'r ffaith i'r trioedd gael eu rhannu a'u gosod mewn dau le ar wahân hefyd yn anodd ei hesbonio, gan mai tynnu pethau tebyg ynghyd, nid eu gwahanu, yw hanfod y meddylfryd golygyddol.

Ai mwy rhesymegol, felly, fyddai tybio i'r gwrthwyneb, sef mai fel y'u ceir yn *L* (mewn dau le ar ganol y gwaith) y corfforwyd y trioedd yn y gysail yn wreiddiol, ac mai eu trefn a'u lleoliad yn *OTr* (ar ddiwedd y testun Bleg) sy'n gynnwys gweithgarwch golygyddol? Dangoswyd eisoes ddarfod cynnwys y trioedd yn *L* mewn modd digon rhesymegol: digwydd y bloc cyntaf, i gyd ar thema datganiadau mewn llys, ar ddiwedd 'llyfr' cyntaf Bleg, a cheir

cysylltiad synhwyrol rhwng y ddwy adran; gosodwyd yr ail floc o drïoedd mewn rhan o'r llyfr lle y ceir pwyslais ar batrymau rhifyddol. Nid oes rhaid tybio i'r ddau floc gael eu hychwanegu at y gynsail ar yr un pryd, ac y mae'n gwbl bosibl iddynt gael eu hychwanegu yn y dull sylfaenol a amlinellwyd gan Powell wrth gyflwyno'i ddamcaniaeth am 'adrannau crwydrol', sef ar ddalennau rhydd o femrwn a wthiwyd rhwng dail llyfr cyfraith a oedd eisoes yn bodoli. A oes modd cynnig rhesymau pam y byddai copiïdd *OTr* (neu ei ragflaenydd) wedi symud y trioedd o'r lleoliadau hyn, a'u gosod ar ddiwedd ei lyfr, mewn trefn wahanol?

Dadleuwyd eisoes mai golygydd ymwybodol a fu'n gyfrifol am hepgor Cyfreithiau'r Llys. Gellir egluro symud ac ad-drefnu'r trioedd yn nhermau'r un meddylfryd golygyddol, neu yn hytrach yn rhan benodol o'r weithred olygyddol honno. Y mae'n arwyddocaol mai ar ddiwedd Cyfreithiau'r Llys y digwydd y bloc cyntaf o drïoedd yn *L*. Wrth hepgor Cyfreithiau'r Llys, collwyd y bachyn yr oedd y trioedd hyn yn hongian yn uniongyrchol arno. Gan hynny gorfodwyd y copiïdd i ystyried adleoli'r deunydd nesaf yn ei gynsail, a hawdd credu iddo benderfynu mai'r lle gorau ar gyfer y trioedd hyn ynghyd â'r darn o Gyfreithiau'r Llys yr ystyriai fod gwerth iddo o hyd (*LIBleg* §§ 16 a 17, Brawdwy'r a Brawd) fyddai ar ddiwedd y llyfr cyfraith, lle yr oedd bloc bach o drïoedd eisoes (§ 89, Cynefodau). Wedi dod at yr ail floc o drïoedd yn ei gynsail, digon rhesymegol wedyn fyddai i'r copiïdd benderfynu eu symud hwythau, a chreu un casgliad taclus o drïoedd ar ddiwedd y testun; ond oherwydd penderfynwyd eu thema, gosododd y Trioedd ynghylch Tir (*LIBleg* § 62) gyda gweddill cyfraith tir.

Er y gellir esbonio trefn a lleoliad y trioedd yn *OTr* yn nhermau golygu ymwybodol ar gynsail ar batrwm *L*, anos o lawer yw cynnig rhesymau pam y byddai'r copiïdd yn ad-drefnu'r trioedd wrth eu symud. Un ffordd o wneud hynny fodd bynnag fyddai trwy ddychmygu dull ymarferol y copiïdd-olygydd o weithio. Wedi copïo hyd at ddiwedd *LIBleg* § 84, sef rhestr o offer, dodrefn etc., y gellir yn hawdd gredu iddi fod ar ddiwedd y llyfr cyfraith yn wreiddiol (rhaid mai ychwanegiadau at y cnewyllyn gwreiddiol yw *LIBleg* §§ 89 a 91, Cynefodau ac Arferion Cyfraith), dychmyger y copiïdd yn troi tuag yn ôl trwy ei gynsail er dod o hyd i'r darnau y penderfynasai eu hadleoli yn ei gopi newydd yntau.<sup>35</sup> Daw'n gyntaf, felly, at yr ail floc o drïoedd. Penderfyna adael *LIBleg* §§ 90:1–196 tan y diwedd gan mai cyfres o drïoedd cymysg yw'r rhain. Y mae *LIBleg* § 62 eisoes yn ei lle, felly daw'n nesaf at § 85 (Swydd a Braint Brawdwr). Y mae'r traethig hwn yn ei atgoffa am y darn o Gyfreithiau'r Llys ar yr un thema y tybiai fod iddo werth ymarferol o hyd ac felly y mae'n gosod *LIBleg* §§16 a 17 yn y fan hon fel rhyw fath o ragymadrodd i § 85. Naturiol yn nhermau thema a lleoliad yn y gynsail fyddai mynd ymlaen at *LIBleg* § 86 (Camfarnau), a chan barhau â'r un thema gyffredinol, dyma'r copiïdd yn troi'n ôl at y bloc cyntaf o drïoedd a hepgorwyd a dethol oddi yno ddau ddarn pellach ar yr un testun, sef *LIBleg* §§ 87:1–5 ac 87:6–15 (Cyngaws). Wedyn y mae'n cynnwys yr unig ddarn sydd ar ôl o'r ail floc o drïoedd (ac eithrio'r trioedd cymysg y mae eisoes wedi penderfynu eu cynnwys ar y diwedd), sef *LIBleg* § 88 (Rhaith Gwlad a Dedfryd Gwlad), cyn mynd ymlaen at § 89 (Cynefodau), a oedd eisoes yn ei le yn y gynsail. Yn olaf, trwy weithio tuag yn ôl unwaith eto, y mae'n copïo gweddill y trioedd, sef y cyfan a oedd ar ôl bellach.

Uchod cynigir dau esboniad posibl ar y gwahaniaeth o ran trefn a lleoliad y trioedd yn *OTr* ac *L*, y ddau'n seiliedig ar senarios golygyddol posibl ar ran eu copiïwyr. Fodd bynnag



gellir nodi tri ffactor cyffredinol sy'n awgrymu'n gryf mai patrwm  $L$  sy'n adlewyrchu trefn a lleoliad gwreiddiol y trioedd yn Bleg, a patrwm  $OTr$  yn ganlyniad golygu:

- i) Y mae'r ffaith bod  $L$  yn cynnwys Cyfreithiau'r Llys yn llawn yn awgrymu ei bod yn cynrychioli cangen fwy ceidwadol ar Bleg nag  $OTr$ . Ar ôl gweithred mor radical â hepgor Cyfreithiau'r Llys, nid annisgwyl fyddai gweld olion pellach o weithgarwch golygyddol yn  $OTr$ .
- ii) Y duedd naturiol wrth olygu yw tynnu pethau tebyg ynghyd, nid eu gwahanu; yn  $OTr$  y ceir y casgliad taclusaf o droedd, wedi eu crynhoi yn yr un man.
- iii) O gymharu lleoliad y trioedd yn llawysgrifau dull Ior a Cyfn, a thestun Lladin D, gwelir mai ar ôl Cyfreithiau'r Llys y daw'r trioedd fel arfer yn y testunau hynny.

### **Dosbarthu Llawysgrifau Bleg**

Dadleuwyd uchod o blaid credu mai gweithgarwch golygyddol ymwybodol sy'n gyfrifol am y gwahaniaethau yn nhrefn cynnwys testunau Math A a Math B fel y'u cynrychiolir gan  $OTr$  ac  $L$ , yn hytrach na hap a damwain 'adrannau crwydrol' fel yr awgrymodd Enoch Powell. Ond hyd yma ni roddwyd ystyriaeth i'r ffaith bod y ddau brif ddsbarth hyn o destunau yn ymrannu'n is-ddosbarthiadau, y cyfeirir atynt yn y drafodaeth a ganlyn fel rhai rheolaidd eu trefn a rhai afreolaidd. Ceisiodd Enoch Powell roi cyfrif am y gwahaniaethau yn nhrefn  $OTr$ ,  $L$  ac  $IS$  (sef cynrychiolwyr tri o'r pedwar is-ddosbarth; ni roddodd sylw i'r cwlwm  $QEpP$ ) trwy ei ddamcaniaeth am 'adrannau crwydrol'. Ond yn union fel y dadleuwyd mai gweithgarwch golygyddol ymwybodol sy'n gyfrifol am y gwahaniaethau sylfaenol rhwng testunau Math A a Math B, yn yr un modd gellir dadlau mai golygu ymwybodol sy'n gyfrifol hefyd am y rhanid pellach hwn o fewn y ddau ddsbarth.

### ***Testunau Math A: perthynas y testunau rheolaidd a'r rhai afreolaidd***

Gellid synio am  $Q$ ,  $Ep$ , a  $P$ , tair llawysgrif agos-gysylltiedig a gopiwyd yn y bymthegfed ganrif, fel aelodau afreolaidd o ddsbarth testunau Math A (sef y ddsbarth sy'n cynnwys Cyfreithiau'r Llys). Fel y gwelir o Gonsbectws 1, hyd at ddiwedd  $LIBleg$  § 34 (Naw Affaith Galanas) y maent yn aelodau hollol reolaidd o'r ddsbarth hwnnw o ran cynnwys a threfn eu traethigau. Fodd bynnag, rhwng diwedd  $LIBleg$  § 34 a dechrau § 63 (Tresmasu), y mae trefn a chynnwys  $QEpP$  yn hollol afreolaidd: ad-drefnwyd y traethigau Bleg hynny a geir fel arfer yn y rhan honno o destunau Math A, gan osod deunydd a dynnwyd o ffynonellau eraill rhwng nifer ohonynt, a gwasgarwyd y trioedd trwy'r adran ganol hon ar raddfa helaethach o lawer nag a wneir yn nhestunau rheolaidd y ddsbarth hwn. O  $LIBleg$  § 63 hyd at § 89 (Cynefodau), y mae  $QEpP$ <sup>36</sup> yn parhau'n hollol reolaidd yn ôl trefn testunau Math A; gwahenir brawddeg gyntaf  $LIBleg$  § 89 oddi wrth weddill y traethig gan  $LIBleg$  §§ 91:19–27 (Arferion Cyfraith) a pheth deunydd ychwanegol; wedyn dilynir gweddill  $LIBleg$  § 89 gan draethigau arferol testunau Math A, a hynny yn y drefn arferol.

Er na thrafodwyd y cwlwm  $QEpP$  gan Enoch Powell, pe gwnaethai, yn ddiau byddai wedi ceisio egluro trefn arbennig y grŵp hwn eto yn nhermau adrannau crwydrol. Ond y mae o leiaf ddau reswm dros wrthod y ddamcaniaeth honno fel esboniad digonol ar y gwahaniaethau rhwng  $QEpP$  a gweddill testunau Math A. Yn gyntaf, byddai credu mai

adrannau crwydrol sy'n gyfrifol am drefn *QEP* yn gwneud y drefn hon yn gydradd ag *OTr* ac *L*, a byddai rhaid credu ei bod hithau'n tarddu'n annibynnol o gysail gyffredin *OTr* ac *L*. Nid oes unrhyw dystiolaeth lawysgrifol dros gredu bod y drefn ar Bleg sydd yn *QEP* yn hŷn na'r bymthegfed ganrif. Yn ail, y mae mynd â damcaniaeth yr adrannau crwydrol i'w phen draw rhesymegol yn golygu y gellid disgwyl gweld traethigau unigryw o fewn llawysgrifau unigol neu grwpiau bychain o lawysgrifau agos-gysylltiedig. Er bod digon o ddeunydd ychwanegol wedi'i osod rhwng traethigau traddodiadol Bleg yn adran ganol *QEP*, nid traethigau unigryw i'r cwlwm hwn mohonynt ond yn hytrach ddeunydd a dynnwyd o ffynonellau amrywiol eraill, cyffelyb i'r deunydd yn y 'gynffon' a osodwyd ar ddiwedd y testun Bleg yn *S*, *Tim*, *J*, ynghyd â *Q* ac *Ep* eu hunain. Y mae *QEP* yn cynnwys pob un o draethigau arferol Bleg, ac eithrio *LIBleg* § 46 (Ebediw).

Yn union fel yn achos y gwahaniaethau o ran trefn rhwng *OTr* ac *L*, gellir rhoi cyfrif am drefn 'afreolaidd' adran ganol *QEP* yn nhermau gweithgarwch golygyddol. O'i deall felly, gwelir nad yw trefn sylfaenol yr adran ganol yn wahanol iawn i drefn testunau eraill Math A mewn gwirionedd, ond yn hytrach i'r drefn sylfaenol honno gael ei chuddio yn sgil y gwaith golygu. Fel y nodwyd eisoes, y mae trefn *QEP* yn hollol reolaidd hyd at ddiwedd *LIBleg* § 34 (Naw Affaith Galanas). Yn lle symud ymlaen at § 35 (Naw Affaith Tân) fel y gwna'r testunau rheolaidd, dechreuodd copiyydd cysail *QEP* dynnu ynghyd adnodau a thraethigau cyfan yn ymwneud â phwnc galanas a gwerth o rannau eraill o Bleg, gan orffen ag un o'r arferion cyfraith ar y pwnc. Wedyn, dechreuodd gynnwys deunydd o ddull Ior ac o ffynonellau eraill, eto ar yr un thema neu themâu agos-gysylltiedig, nes creu traethig estynedig ar bwnc galanas. Wedyn symudodd ymlaen at y traethig nesaf yn nhrefn arferol testunau Math A, sef *LIBleg* § 35. Wedi gorffen copio § 35, tynnodd y copiyydd ynghyd adnodau a thraethigau cyfan yn ymwneud â thân a llosgi o rannau eraill o Bleg, gan orffen ag un o'r arferion cyfraith ar y pwnc. Wedi gorffen ymdrin â thân, aeth y copiyydd ymlaen at y traethig nesaf yn nhrefn arferol Math A, sef *LIBleg* § 36 (Naw Affaith Lledrad). Ar ôl y traethig hwnnw gosododd adnodau a thraethigau perthnasol o rannau eraill o Bleg, gan orffen eto ag un o'r arferion cyfraith ar y pwnc, cyn mynd ymlaen i gynnwys deunydd o Ior a ffynonellau eraill, eto ar yr un thema neu themâu agos-gysylltiedig, nes creu traethig estynedig ar ledrad.

Heb fanylu ymhellach, gwelir yn glir fod adran ganol 'afreolaidd' *QEP* wedi ei llunio yn ôl patrwm hynod o reolaidd, a'r canlyniad yw cyfres o draethigau cyfansawdd, estynedig ar ryw bwnc neu'i gilydd.<sup>37</sup> Yn ogystal â'r rhai a nodwyd uchod, ceir traethigau estynedig yn ymdrin â thystion, mach, brawdwy, tir ac yn y blaen. Un enghraifft yn unig o hyn sydd yn digwydd y tu allan i adran ganol *QEP*, sef ar ganol *LIBleg* § 89 (Cynefodau) yn *QEP* (y mae diwedd *P* yn eisiau). Ymddengys yn ddigon clir, felly, mai cynnyrch gweithgarwch golygyddol ymwybodol yw'r drefn arbennig sydd ar gynnwys *QEP*, ac mai camgymeriadau'r golygydd wrth iddo ad-drefnu'r deunydd sy'n gyfrifol am y ffaith iddo gynnwys ambell adnod ddwywaith a cholli *LIBleg* § 46 yn gyfan gwbl. Nodwedd hynotaf yr ad-drefnu (a helaethu) hwn yw'r ffaith iddo gael ei gyfyngu i'r traethigau hynny sy'n syrthio rhwng *LIBleg* §§ 34 a 63 yn ôl trefn testunau Math A. Ac eithrio *LIBleg* § 77 (Cyhuddo o Ledrad), a osodwyd yn ei grynsyth o fewn y traethig estynedig am ledrad, a'r rhan fwyaf o § 91 (Arferion Cyfraith) a wasgarwyd trwy'r traethigau estynedig perthnasol, ni osodwyd yn yr adran ganol hon unrhyw ddeunydd cyn *LIBleg* § 34 nac ar ôl § 63, ac ni osodwyd deunydd a

dynnwyd o ffynonellau eraill ond yn yr adran ganol hon ac ar ganol *LIBleg* § 89—hynny yw, nid nes cyrraedd y corff helaeth o ddeunydd ychwanegol a atodwyd ar ôl y testun Bleg, yng nghynffon *QEp*. Ni wyddys pam y bu rhyw gopiyydd mor ddiwyd yn ad-drefnu rhan o'i lyfr cyfraith, ac wedyn mor ymddangosiadol fodlon ar drefn gweddill y testun.<sup>38</sup>

### ***Testunau Math B: perthynas y testunau rheolaidd a'r rhai afreolaidd***

O'r pedair llawysgrif sy'n ffurfio dosbarth testunau Math B (sef y dosbarth sy'n hepgor Cyfreithiau'r Llys ac yn cynnwys y trioedd mewn un sypyn ar ddiwedd y testun), gellir ystyried *I* ac *S*, dwy lawysgrif o'r bymthegfed ganrif, yn rhai afreolaidd o ran trefn eu traethigau. Y mae manylion yr afreoleidd-dra hwn i'w gweld yn glir yng Nghonsbectws 1; y prif wahaniaeth (yn fras) yw bod un bloc mawr o draethigau, sef *LIBleg* §§ 41–52, ynghyd â §§ 75 a 77 a rhannau o rai traethigau eraill, wedi cael eu had-drefnu a'u hadleoli mewn manau eraill yn y testun.

Yn ei erthygl 'Floating Sections in the Laws of Howel', cymhwysodd Enoch Powell ei ddamcaniaeth am fodolaeth 'adrannau crwydrol' yn y llyfrau cyfraith i egluro'r berthynas rhwng *OTr*, *L* ac *IS*:

*A priori* it would be presumed, as I have said, that *IS* and *OTr*, being the only MSS. which break off the Court Laws at the same point, have a common sub-archetype. A glance at their differences of order shows that this cannot be so: *L* and *OTr* are far more similar in order than *IS* and *OTr*, whose only other agreements against *L* consist in the position of just those sections which in *L* occur in the Laws of the Court.<sup>39</sup> There only remains the explanation that *IS*, though of different descent from *OTr*, have been influenced by them through collation or contamination.<sup>40</sup>

Erbyn ysgrifennu rhagymadrodd *LIBleg*, fodd bynnag, yr oedd Enoch Powell wedi newid ei farn am berthynas *IS*, *OTr* ac *L*:

Y mae'r Cyfreithiau Llys yn eisiau hefyd o ddwy lsg. o'r bymthegfed ganrif, *I* [...] ac *S* [...], sydd a'u darlleniadau hefyd yn hynod debyg i rai *OTr*. Am hynny *nid oes modd amau na ddeilliodd IS ac OTr o'r llsgr. y dilewyd y Cyfreithiau Llys ynddi*. Ond profir mai'n gynnar yn hanes testun y llyfr y dilewyd hwy [...] gan y gwahaniaeth trefn helaeth sydd rhwng *OTr* ac *IS*. Gellir gweld y gwahaniaeth hwn yn y daflen gymharol yn B ix 32 f., lle y dangosir hefyd fod cysail *ISOTr* yn gynharach na chyfnod corffori'r trioedd bron i gyd ac amryw adrannau didriawd. Lle bo *OTr* ac *L* yn cytuno yn erbyn *IS* o ran trefn yr adrannau hyn (ar wahân i'r rhai a drafodwyd uchod) rhaid cyfrif am hyn drwy fwrw bod rhyw lsg. -*OTr* wedi eu codi o ryw lsg. -*L* neu'r gwrthwyneb.<sup>41</sup>

Er gwaethaf y newid meddwl sylfaenol hwn, ni thynnodd Powell sylw at y ffaith bod ei ymdriniaeth â pherthynas y llawysgrifau yn y rhagymadrodd i *LIBleg* yn gwrth-ddweud nifer o osodiadau yn ei erthygl 'Floating Sections in the Laws of Howel'. Hyd yn oed yn y fersiwn diwygiedig hwn o berthynas y llawysgrifau, rhaid rhagdybio i ryw 'halogi' ddigwydd er mwyn medru egluro'r achosion hynny lle y mae trefn traethigau *OTr* yn cytuno ag *L* yn erbyn *IS*. Yn union fel y gwnaethpwyd yn achos yr amrywiadau o ran trefn rhwng *QEpP* a thestunau rheolaidd Math A, gellir cynnig o leiaf ddau reswm dros wrthod damcaniaeth yr adrannau crwydrol fel esboniad digonol ar y gwahaniaethau rhwng *IS* a thestunau eraill Math B. Yn gyntaf, byddai credu mai adrannau crwydrol sy'n gyfrifol am drefn *IS* yn gwneud y drefn

honno'n gydradd â threfn *OTr* ac *L*, ond fel yn achos *QEP*, nid oes unrhyw dystiolaeth lawysgrifol dros gredu bod y drefn hon ar Bleg yn hŷn na'r bymthegfed ganrif. Yn ail, y mae mynd â damcaniaeth yr adrannau crwydrol i'w phen draw yn golygu y gellid disgwyl gweld traethigau unigryw o fewn llawysgrifau unigol neu grwpiau bychain o lawysgrifau agosgysylltiedig. Y mae'n wir y ceir un traethig 'ychwanegol' yn *IS*, ar ôl *LIBleg* § 40 (Mach); fodd bynnag, nid traethig unigryw i *IS* mo hwn ond yn hytrach ddeunydd ar yr un thema a dynnwyd o Ior (sef *LIIor* § 62), ac fe'i cynhwyswyd hefyd yn *QEP* ymhlith y deunydd ychwanegol. Y mae *IS* yn cynnwys pob un o draethigau arferol Bleg ac eithrio'r canlynol: Cyfreithiau'r Llys, a hepgorwyd gyda brawddeg esboniadol yn null *OTr*;<sup>42</sup> y mae *I* ac *S* ill dwy'n hepgor *LIBleg* § 57 (Dawnbwyd), y mae *I* yn hepgor § 56 (Gwestfa), ac y mae *S* yn hepgor § 48 (Gwerth Odynau).

Yn union fel yn achos y gwahaniaethau rhwng testunau Math A a Math B, a'r gwahaniaethau rhwng testunau rheolaidd ac afreolaidd Math A, felly hefyd gellir rhoi cyfrif am y gwahaniaethau rhwng testunau rheolaidd ac afreolaidd Math B (sef rhwng *OTr* ac *IS*) yn nhermau gweithgarwch golygyddol.

Ac eithrio'r ffaith bod *IS* yn fwy eithafol nag *OTr* wrth hepgor Cyfreithiau'r Llys (gw. n. 42), y mae *OTr* ac *IS* yn gytŷn o ran eu trefn hyd at *LIBleg* § 35 (Naw Affaith Tân). Gosododd copi'ydd *S* draethig arall ar yr un thema, sef *LIBleg* § 47 (Tân Damweiniol), yn syth ar ôl § 35. Gan fod § 47 yn ei le rheolaidd yn *I*, rhesymol fyddai credu ei fod yn ei le rheolaidd hefyd yng nghynsail *IS*, ond bod copi'ydd *S* wedi ei symud oddi yno'n fwriadol. Torrwyd ar draws trefn arferol testunau Math B ar ôl *LIBleg* § 40 (Mach) yn *IS*, ac ad-drefnu'r deunydd ar raddfa sylweddol. Symudwyd §§ 41–52 o'u lle arferol, i'w cynnwys yn ddiweddarach yn y testun, ond gosodwyd ychydig o ddeunydd ychwanegol ar ôl § 40, fel y gwelwyd eisoes. Y mae 'afreoleidd-dra' gweddill *IS* i raddau helaeth yn ganlyniad uniongyrchol adleoli *LIBleg* §§ 41–52 mewn rhannau eraill o'r testun.

Dilynir *LIBleg* § 53 (Gwerth Aelodau) gan §§ 54 (Sarhad, Galanas a Gwerth) yn ôl y drefn arferol, ond torrwyd ar draws § 54 gan rai arferion cyfraith ar yr un thema. Y mae *IS* yn cadw at drefn arferol *OTr* rhwng *LIBleg* §§ 58 a 69, ond wedyn gosodwyd swmp a sylwedd §§ 41–52 ar ôl § 69 (Amrywion). Cadwyd *LIBleg* §§ 41:1,13–15 a § 42 i'w cynnwys yn ddiweddarach, ond wedyn y mae'r gyfres hon o draethigau'n dechrau mewn ffordd ddigon arferol: *LIBleg* §§ 41, 43, 44—ond gwahanwyd § 44 oddi wrth §§ 46–48 gan §§ 71 a 37. Y mae egluro lleoliad *LIBleg* § 71 (Gwadu Eiddo) ar ôl § 44 (Taeogion ac eraill) yn anodd; byddai'n gweddu'n well o lawer ar ôl § 43 (Adnau). Llawer mwy anodd yw egluro lleoliad *LIBleg* § 37 (Tystion) yn *IS* gan nad yw'n perthyn yn rhesymegol i'r traethigau yn yr adran honno o gwbl.<sup>43</sup> Ar ôl *LIBleg* § 71 (Gwadu Eiddo) â *IS* ymlaen yn naturiol gyda *LIBleg* §§ 45 (Meiri a Chyngellorion) a 46 (Ebediw), ac *I* yn unig gyda §§ 47 a 48 (Tân Damweiniol a Gwerth Odynau; yr oedd *S* eisoes wedi cynnwys § 47 gyda deunydd arall ar yr un thema, ond wrth symud § 47 o'r fan hon, hepgorodd § 48 yn ogystal—trwy gamgymeriad, o bosibl). Cadwyd *LIBleg* §§ 49–52 (Hela, Cŵn, Hebogau, Gwenyn) i'w cynnwys mewn man addas yn nes ymlaen yn y ddwy lawysgrif, cafwyd *LIBleg* §§ 53 a 54 (Gwerth Aelodau, a Sarhad, Galanas a Gwerth) eisoes, a gosodwyd § 55 (Gwagedd) yn y fan hon yn awr. Wedyn cadwyd at drefn arferol testunau Math B hyd *LIBleg* § 74 (Cynnen a Rhaith yn erbyn Lleidr). Symudwyd § 75 (Buchod ac Ychen) yn nes at draethigau sy'n ymdrin ag anifeiliaid dof, a thynnwyd § 77 (Cyhuddo o Ledrad) o'i leoliad ymwithiol rhwng §§ 76 a 78 (Meirch, a oedd

yn un traethig yn wreiddiol, y mae'n bur sicr). Ar ôl *LIBleg* §§ 79–82, y cyfan yn ymdrin ag anifeiliaid, gosodwyd bloc arall o draethigau sy'n ymwneud ag anifeiliaid sef §§ 49–52.

Heb fanylu ymhellach, y mae'n glir y gellir rhoi cyfrif am y gwahaniaethau o ran trefn rhwng *OTr* ac *IS* yn nhermau golygu ymwybodol (er rhaid cyfaddef nad yw'r *rheswm* dros symud pob un o'r traethigau a ail-leolwyd yn *IS* yn amlwg bob tro), a thybio mai camgymeriadau a wnaed wrth ad-drefnu sy'n egluro'r ffaith bod *IS* wedi hepgor *LIBleg* § 57, bod *I* wedi hepgor § 56 ac *S* wedi hepgor § 48, a bod *I* yn cynnwys *LIBleg* § 37 ddwywaith. Yn union fel y gellir rhoi cyfrif am y gwahaniaethau mewn trefn rhwng testunau Math A a rhai Math B trwy ddeall Math B fel fersiwn golygedig o gysail ar batrwm Math A, a rhwng testunau rheolaidd Math A a *QEpP* trwy ddeall *QEpP* fel fersiynau golygedig ar gysail ar batrwm *L*, yn yr un modd gellir egluro'r gwahaniaethau rhwng testunau rheolaidd Math B ac *IS* trwy ddeall *IS* fel fersiwn golygedig ar gysail ar batrwm *OTr*.

Os yw'r ddadl uchod yn gywir, ymddengys yn debygol y bu dau brif gyfnod o weithgarwch golygyddol yn hanes testunau Bleg. Gellid tybio i'r gwaith golygu cyntaf ddigwydd yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg, a hynny dan law Gwilym Was Da,<sup>44</sup> ond y mae'n arwyddocaol mai i'r bymthegfed ganrif y perthyn y testunau afreolaidd o fewn y ddau ddsbarth. Fel y nodwyd eisoes, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg ac i mewn i'r bymthegfed ganrif yr oedd copi-wyr testunau Bleg yn cynnull pob math o ddeunyddiau ychwanegol o wahanol ffynonellau i'w hatodi ar ffurf cynffon hir ar ddiwedd eu copi o Bleg. Tybed na ellir deall yr ad-drefnu a golygu pellach hwn, o fewn dau ddsbarth testunau Bleg, fel gwedd arall ar yr un gweithgarwch golygyddol diweddarach, ac yn ymateb naturiol i ddatblygiadau yng ngweinyddiad y gyfraith yn ne Cymru ar y pryd. Er ei bod yn ddigon posibl bod rhyw wedd hynafiaethol yn ymhlyg yn y gwaith o gasglu deunydd ychwanegol i'w testunau cyfraith, ac awydd i greu llyfrau a awgrymai bwysigrwydd a statws eu perchnogion mewn rhai achosion o leiaf, prif amcan copi-wyr y llyfrau cyfraith diweddar yn ddiau oedd cynhyrchu llyfrau ymarferol, llyfrau hawdd eu defnyddio yn y llys gan frawdwr o fraint tir a ddsbarthwyr, oherwydd fel y gwelwyd y mae pob lle i gredu bod llyfrau tebyg iawn eu cynnwys i *S*, *Tim* a *Q* wedi cael eu defnyddio mewn achosion cyfreithiol yng nghyfnod olaf un gweinyddu'r gyfraith frodorol. Y mae osgo 'ymarferol'—onid iwtilitaraidd—copi-ydd-olygydd *S* i'w gweld yn glir yn y cymal ychwanegol a geir yn y llawysgrif honno ar ddiwedd y frawddeg sy'n esbonio pam nad yw ei destun ef yn cynnwys Cyfreithiau'r Llys:

Peida6 6ethion a 6nna6n a chyfreitheu s6ydogion llys y brenhin, kanyt oes aruer na reit 6rthunt, *namyn blinder eu hyscrifennu a chosti memr6n a du yn diffr6yth.*

[*S* § 30; myfi biau'r italeiddio]

### **Pethynas *S* â rhai llawysgrifau eraill**

Fel y gwelwyd, y mae cynnwys *S* yn ymrannu'n ddwy, sef y testun Bleg traddodiadol (ff. 4–59) ynghyd ag atodiad o ddeunydd ychwanegol ar ffurf 'cynffon' hir (ff. 60 *et seq.*). Y mae'r rhaniad hwn yng nghynnwys *S* yn adlewyrchu ei pherthynas â llawysgrifau eraill dull Bleg.

***Y testun Bleg: perthynas S ac I***

Perthyn *S* i'r grŵp hwnnw o bedair llawysgrif Bleg sy'n hepgor Cyfreithiau'r Llys ac yn gosod y trioedd yn un sydyn tua'r diwedd (testunau Math B)—sef *O*, *Tr*, *I* ac *S*. Tynnwyd sylw eisoes at y gwahaniaethau rhwng trefn 'reolaidd' cynnwys *OTr* ar y naill law a threfn 'afreolaidd' *IS* ar y llall, a dangosir y gwahaniaethau hynny mewn dull sgematig yng Nghonsbectws 1 ar ddiwedd yhon. Fodd bynnag, yn ogystal â threfn eu cynnwys, ceir digon o dystiolaeth arall sy'n cyplysu *S* ac *I* â'i gilydd, tra'n eu gosod ar wahân i weddill testunau Bleg. (Myfi biau'r italeiddio yn yr enghreifftiau a ddyfynnir isod.)

i) Y mae nifer o adnodau sy'n eisiau o *I* ac *S*, ond a geir fel arfer yn nhestunau Math A a Math B fel ei gilydd: e.e. *LIBleg* §§ 6:2–4, 33:4, 36:13, 65:4–6.

ii) Ceir rhai adnodau ychwanegol yn *I* ac *S* nas ceir mewn llawysgrifau eraill: e.e., ar ôl *LIBleg* §§ 36:8, 9 (sy'n digwydd yn y drefn afreolaidd §§ 36:9, 8 yn *I* ac *S*):

<b><i>O</i></b> 6ythuet y6 kymryt ran o lletrat. Na6uet y6 kelu y lletrat ar y lleidyr.	<b><i>Tr</i></b> 6ythuet y6 kymryt ran or lledrat. Na6uet y6 kelu y lledrat ar y lleidyr.
---	---

<b><i>I</i></b> 6ythuet y6 kelu y lledrat ar y lleidyr. Na6uet y6 kymryt ran or lledrat. <i>Y neb a batto vn o affeitheu hyn rodet l6 deg6yr a deu vgeint.</i>	<b><i>S</i></b> Wythuet y6 kelu y lledrat ar y lleidir. Na6uet y6 kymryt rann or lledrat. <i>Y neb a batto vn or na6 affeith hynn rodet l6 deg 6yr a deu vgeint.</i>
--	--

iii) Ceir trefn afreolaidd ar gymalau o fewn adnod: e.e., *LIBleg* § 55:18.

<b><i>O</i></b> Or a mor6yn wry yn llathrut heb gyghor y chenedyl y that a dycha6n y hatt6yn rac y g6r oe hanuod <i>ac ny chyll dim oe ia6n y gan y neb ae duc ac ny thal y that y hamobyr y hargl6yd.</i>	<b><i>Tr</i></b> Or a mor6yn wry yn llathrut heb gyghor y chenedyl y that a dycha6[n] y hatt6yn rac y g6r oe hanuod <i>ac ny chyll dim oe ia6n y gan y neb ae duc ac ny thal y that y hamobyr y hargl6yd.</i>
--	---

<b><i>I</i></b> Or a mor6yn wry yn llathrut heb [rod] kenedyl y that a dycha6n y hatt6yn rac y g6r oe hanuod <i>ac ny thal y hamobyr yr argl6yd ac ny chyll hi dim oe ia6n y gan y neb ae duc.</i>	<b><i>S</i></b> Or a mor6yn wry yn llathryt heb [rod] kenedyl y that a dycha6n y hatt6yn rac y g6r oe hanuod <i>ac ny thal y that y gobyr yr argl6yd ac ny chyll hytheu dim oe ia6n y gan y neb ae duc.</i>
--	---

iv) Ceir manylion orgraffyddol anarferol weithiau: e.e., *LIBleg* § 55:35 a 66:

<b>O</b>	Odyna y wreic a ran ar gŵr a dewis eithyr y <i>dotrefyn</i> a renhir [...]	<b>Tr</b>	Odyna y wreic a ran ar gŵr a dewis eithyr y <i>dotrefyn</i> a renhir [...]
	Megys y dyly y gŵr rodi meicheu dros yr egŵedi velly y dyly ryeni y vorŵyn rodi meicheu na wnel hitheu <i>gŵc</i> yn erbyn y gŵr.		Megys y dyly gŵr rodi meicheu dros yr egŵedi uelly y dyly rieni y uorŵyn rodi meicheu na wnel <i>gŵc</i> hitheu yn erbyn y gŵr.
<b>I</b>	Odyna y breic a ran ar gŵr a deŵis eithyr y <i>doodrefyn</i> a rennir [...]	<b>S</b>	Odyna y breic a ran ar gŵr a dewis eithyr y <i>dootrefyn</i> a rennir [...]
	Megys y dyly gŵr nodi [ <i>sic</i> ] meicheu dros y hegŵedi velly y dyly ryeni y vorŵyn rodi meicheu na ŵnel hitheu <i>gŵc</i> yn erbyn y gŵr.		Megis y dyly gŵr rodi meicheu dros y hegŵedi velly y dyly ryeni y vorŵyn rodi meicheu na ŵnel hitheu <i>gŵc</i> yn erbyn y gŵr.

v) Ceir defnydd ar eirfa wahanol weithiau: e.e., *LIBleg* § 50:20:

<b>O</b>	Ki keneuodic <i>ar vrathu</i> [...]	<b>Tr</b>	Ki keneuodic <i>ar urathu</i> [...]
<b>I</b>	Ki kynefodic <i>a rŵycco</i> [...]	<b>S</b>	Ki kyneuodedic [ <i>sic</i> ] <i>a rŵycco</i> [...]

vi) Ceir darlleniadau afreolaidd yn sgil ‘llam llygad’: e.e., *LIBleg* § 59:10:

<b>O</b>	Breint oet y braŵt hynaf a wna y brodyr ieuaf yn ampriodoryon <i>ac ae gŵna ynteu yn vn priodaŵr ar datanhud o gŵbyl</i> .	<b>Tr</b>	[ <i>Y llawysgrif yn ddiffygiol</i> ]
<b>I</b>	Breint oet y braŵt hynaf a ŵna y brodyr ieuaf oll yn amhriodoryon <i>ar datanhud cŵbyl</i> .	<b>S</b>	Breint oet y braŵd hynhaf a ŵnna y brodyr ieuaf yn ampriodoryon <i>ar dadanhud kŵbyl</i> .

vii) Ceir amrywiadau weithiau o ran manylion sylwedd y gyfraith: e.e., *LlBleg* § 54:7:

<i>O</i>	G6erth aela6t penkenedyl y6 <i>na6 mu a na6 vgein mu</i> gan tri drychafel.	<i>Tr</i>	G6erth aela6t penkenedyl y6 <i>na6 mu a na6 vgein mu</i> gan tri drychafel.
<i>I</i>	Galanas aela6t penkenedyl <i>nyt</i> <i>amgen y gar a telir o 6he bu a</i> <i>6heugeint mu</i> gan tri drychafel [...]	<i>S</i>	Galannas aela6t pennkenedyl <i>nyt amgen y gar a telir o 6he</i> <i>bu a 6he vgeint mu</i> gann tri drychafel [...]

Dengys yr ychydig enghreifftiau uchod fod darlleniadau *I* ac *S* yn gyson debycach i'w gilydd nag y maent i *O* a *Tr*. Fodd bynnag, nid yw *S* (canol y bymthegfed ganrif) yn gopi o *I* (dechrau'r bymthegfed ganrif); fel y gwelir o Gonsbectws 1, digwydd *LlBleg* § 56 yn ei safle rheolaidd yn *S*, lle y mae *I* yn ei hepgor yn llwyr, a chollwyd rhai adnodau o *I* sydd i'w cael yn rheolaidd yn *S*. At hynny, y mae *I* yn cynnwys lliaws o ddarlleniadau gwallus neu amrywiol lle y mae *S* yn darllen yn gywir a / neu yn rheolaidd. Ymddengys yn debygol felly bod *I* ac *S* yn disgyn o gysail gyffredin a oedd eisoes mewn trefn afreolaidd, ac mai adrefnu a golygu pellach ar ran copiŵyr *I* ac *S* (neu eu cyseiliau uniongyrchol, os oedd mwy nag un cam rhyngddynt a'r gysail gyffredin) sy'n esbonio'r mân wahaniaethau yn nhrefn eu traethigau, y darlleniadau amrywiol ynddynt, a'r ffaith bod *I* yn colli *LlBleg* § 56, *S* yn colli § 48 ac *I* yn cynnwys § 37 ddwywaith.

### ***Y 'gynffon': perthynas S a Tim***

Nid yw dosbarthu llawysgrifau Bleg yn destunau Math A a Math B yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod deunydd o ffynonellau amrywiol yn cael ei ychwanegu at y deunydd Bleg traddodiadol ar ffurf 'cynffonnau' hirion erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, nes creu testunau cyfansawdd sylweddol fel *J*, *S*, *Tim*, *Q* ac *Ep*. Fodd bynnag, os cymerir mai'r 91 traethig a argraffwyd yn *LlBleg* yw sylwedd traddodiadol y dull hwnnw, rhaid nodi ar unwaith nad arfer a ddechreuodd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd gosod deunydd ychwanegol ar ddiwedd testun Bleg: gwelir arwyddion o'r peth hyd yn oed yn un o'r llawysgrifau Bleg cynharaf a gadwyd inni, sef *L* (canol y bedwaredd ganrif ar ddeg).<sup>45</sup> Wedi cyrraedd diwedd Bleg § 91, â *L* yn ei blaen â'r ddolen ganlynol:

Dywededic y6 hyt hynn o gyureith hywel da ae arueroed ae gynneuodeu: dywedad6y y6  
rac lla6 o ach6annec kyureith dyludedus y chynnal a gossodedic tr6y gyuundeb g6lat ac  
argl6yd ... (ff. 86)

Gosodir allan y gyfraith 'ach6annec' hon am ryw bedair ffolio arall (hyd ff. 90), gan drafod pynciau amrywiol megis, 'Dynion na ddylai eu tystiolaeth sefyll', 'Profi Ynadon', 'Oedi cyfraith', 'Ceidwaid', 'Pethau sydd unfraint â lledrad yn llaw' ac 'Amod'. Gan y dywed y llyfrau cyfraith amdanynt eu hunain mai tair rhan sydd i Gyfraith Hywel, sef 'kyfreith y lys



peunydyawl a chyfreith y wlat, ac aruer kyfreithiawl o pob vn ohonynt' (*LiBleg* § 90:222), a chan y cyflwynir y deunydd hwn yn *L* fel 'ach6annec kyureith dyledus y chynnal', gellid dadlau mai enghraifft gynnar o gynffon sydd yma.<sup>46</sup>

Ar sail tystiolaeth y llawysgrifau a gadwyd, ymddengys mai arfer a ddatblygodd yn araf yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg oedd ychwanegu cynffon o ddeunydd atodol at destun Bleg. Ceir peth deunydd ychwanegol yn *Bost* (canol y bedwaredd ganrif ar ddeg), ond nid oes fawr mwy yma nag sydd yn *L*.<sup>47</sup> Erbyn y bymthegfed ganrif, fodd bynnag, y mae'r sefyllfa'n dechrau newid o ddifrif. Ceir cynffon sylweddol yn *J* (c. 1400), ac erbyn *S* a *Tim* (canol y bymthegfed ganrif) datblygodd y gynffon yn atodiad hirfaith a chymhleth—yn hwy o dipyn na'r testun Bleg sy'n ei rhagflaenu.<sup>48</sup> Y mae cynffonnau *J*, *S* a *Tim* yn cyferbynnu'n gryf â'u prif-destun. Lle y mae'r testun Bleg yn drefnus, ac wedi ei lunio o draethigau eglur, thematig, y mae'r gynffon ar y llaw arall yn tueddu i fod yn ddi-drefn a phytiog, gan newid o thema i thema o adnod i adnod gan arddangos llawer o nodweddion llyfr lloffion. Y mae eraill o lawysgrifau'r bymthegfed ganrif yn fwy trefnus, fodd bynnag. Yn *Q* (hanner cyntaf y bymthegfed ganrif), ynghyd ag *Ep* a *P* (ail hanner y bymthegfed ganrif), ni osodwyd y cwbl o'r deunydd ychwanegol yn un sypyn di-drefn ar ôl y testun Bleg fel yn achos *J*, *S*, a *Tim*; er y digwydd peth deunydd ychwanegol yn y safle hwnnw o hyd, gosodwyd llawer ohono'n thematig mewn mannau priodol rhwng y traethigau Bleg,<sup>49</sup> a gellid dadlau bod y llawysgrifau hyn yn cynrychioli pen draw proses y gwelwyd ei ddechreuadau yn *L* dros ganrif ynghynt.

Yn wahanol iawn i'r deunydd Bleg, sy'n gyson iawn ei sylwedd o lawysgrif i lawysgrif (er yn amrywio o ran ei drefn o fewn patrwm penodol, fel y gwelwyd eisoes), y mae pob cynffon a gadwyd yn unigryw o ran cynnwys a threfn. Wedi dweud hynny, gellir olrhain perthynas rhwng y naill gynffon a'r llall ac, yn hollol wahanol eto i'r deunydd Bleg, gwelir bod cysylltiadau a chyfatebiaethau ar draws y ddau brif ddosbarth o destunau, sef rhai Math A a Math B.<sup>50</sup> Diddorol hefyd yw sylwi bod y datblygiad 'cronolegol' yn yr egwyddor o ychwanegu cynffon at destun Bleg a amlinellwyd uchod yn cael ei adlewyrchu mewn datblygiad cyfatebol o ran y cynnwys. Cynffon *L* sydd yn *Bost*, yn ei hanfod, ond bod rhai traethigau ychwanegol ar y diwedd nas ceir yn *L*. Cynffon *LBost* sydd ar ddechrau cynffon *J*, ond cyfran fechan o gynffon hwy o lawer ydyw bellach. Ni cheir cynffon *LBost* ar ddechrau'r deunydd ychwanegol yn *S* a *Tim*, na'r cwlwm *QEpP*, er y ceir y rhan fwyaf o'r deunydd hwnnw, a hefyd y deunydd pellach sydd yng nghynffon *J*, ar wasgar trwy gynffonnau'r llawysgrifau hyn, ac aeth y cynffonnau bellach yn atodiadau hirfaith iawn.

Ac eithrio'r tebygrwydd sylfaenol sydd rhwng cynffonnau'r testunau agos-gysylltiedig *Q*, *Ep* a *P*, y mae'n drawiadol mai rhwng cynffon *S* (un o destunau Math B) a chynffon *Tim* (un o destunau Math A) y ceir y gyfatebiaeth agosaf oll ymhlith llawysgrifau Bleg. Cyn ystyried natur y gyfatebiaeth honno, fodd bynnag, rhaid tynnu sylw at dair nodwedd gyffredinol sy'n cysylltu'r ddau destun hyn â'i gilydd.

1. Y cysylltiad mwyaf sylfaenol rhwng *S* a *Tim* yw'r ffaith eu bod wedi eu copïo gan yr un llaw anhysbys.<sup>51</sup> Dyma enghraifft o'r un copïydd yn atodi cynffonnau, y dangosir isod eu bod yn perthyn yn agos iawn i'w gilydd, i ddau fersiwn hollol wahanol o Bleg, y naill yn Fath A (*Tim*), a'r llall yn Fath B (*S*). Y mae hyn ynddo'i hun yn ddiddorol am ei bod yn awgrymu nad ystyrid y naill fersiwn na'r llall o Bleg yn fwy cywir nac yn fwy defnyddiol nac yn fwy safonol na'r llall.<sup>52</sup>

2. Y mae *S* a *Tim* yn cynnwys llun sy'n dangos safleoedd y swyddogion gwahanol adeg eisteddiad y llys.<sup>53</sup> Er bod amryw o lawysgrifau, yn enwedig rhai Ior, yn cynnwys cynllun moel o eisteddiad y llys a leolir fel arfer yn nghorff y testun lle y trafodir y pwnc hwnnw (*Llor* § 73), *S* a *Tim* yw'r unig lawysgrifau canoloesol sydd wedi datblygu'r cynllun yn ddyluniad cyflawn, ac mae'n llenwi tudalen cyfan yn y ddwy lawysgrif fel ei gilydd.<sup>54</sup> Er bod y llun yn *S* wedi ei osod ar ddechrau'r llawysgrif (ff. 3v), gyferbyn â thudalen cyntaf y testun cyfraith, lle y daw fersiwn *Tim* ar ddiwedd y testun (ff. 61v); ac er bod llun *S* yn llawer mwy caboledig a gorffenedig nag un *Tim*, sydd bellach wedi ei rwbio ac o'r herwydd braidd yn aneglur, yr un llun sylfaenol sydd yn y ddwy—peth a gadarnheir gan y modd y maent ill dau wedi gosod y geiriau *llys* a *kymut* uwchben y gair *yngnat* yn y capsionau sy'n dynodi'r cymeriadau hynny, ac nid o dano fel y byddid wedi ei ddisgwyl. Hyd y gellir barnu, gwaith copiyydd y testun yw'r llun yn *S*, ond ymddengys mai cynnyrch llaw wahanol (ond cyfoes, y mae'n debyg) yw'r dylunwaith yn *Tim*,<sup>55</sup> fodd bynnag ni wyddys bellach a yw'r naill lun yn gopi o'r llall, ai ynteu copïau annibynnol yw'r ddau o lun mewn cysail gyffredin. Ymgais i ddylunio'r hyn a ddywed y testun am eisteddiad y llys yw'r llun hwn—deunydd sy'n digwydd yng nghynffon *S* a *Tim*,<sup>56</sup> ond sy'n tarddu yn y pen draw o *Llor* § 73. Ymhlith y newidiadau a wnaeth copiyydd *S* (neu ei ragflaenydd) i'r testun Ior yn fan hon oedd disodli'r term 'ynad' yn y gwreiddiol â'r gair 'brawdwr'—gair sy'n fwy cydnaws â llyfr cyfraith yn null Bleg.<sup>57</sup> Fodd bynnag bradychir ffynhonnell y traethig (a hefyd ffynhonnell y llun?) gan y ffaith mai 'ynnad' a ddefnyddir yng nghapsionau'r llun. Gellid casglu, felly, nad creu dyluniad o sylwedd ei destun ei hun a wnaeth copiyydd *S*, ond ei gopi o ffynhonnell arall, er bod arddull y llun, ym marn yr hanesydd celf, G. D. S. Henderson o Brifysgol Caergrawnt, yn awgrymu ei fod yn gyfoed â'r llawysgrif.<sup>58</sup>

3. Cyswllt diddorol pellach rhwng y ddwy lawysgrif hyn yw'r ffaith eu bod yn cynnwys enghreifftiau o alw ar enwau seintiau. Nodwedd bur anghyffredin yw hyn mewn llawysgrifau Cymraeg, ac ni chadwyd yr un enghraifft arall ymhlith llawysgrifau Cyfraith Hywel.<sup>59</sup> Digwydd yr enwau hyn bob tro ar ddiwedd llinell, wedi gorffen brawddeg, yn arbennig lle y bo'r frawddeg honno hefyd yn ddiwedd traethig. Gwasgarwyd yr enwau trwy destun *S*, yn y deunydd Bleg a'r gynffon fel ei gilydd, ond digwyddant yn y gynffon yn unig yn *Tim*. (Fodd bynnag, gan fod cyfran sylweddol o'r testun Bleg bellach yn eisiau yn *Tim* yn sgil colli dail, nid yw'r amhosibl bod enghreifftiau o alw ar y seintiau hefyd wedi eu colli o'r rhan honno o'r testun.) Y cyfeiriadau hyn at seintiau lleol, ynghyd â'r enwi ar gwmwd Gwynionydd-uwch-cerdin sy'n cyd-ddigwydd â hwy, sy'n ein harwain i gynnig mai hanner uchaf Dyffryn Teifi yw'r man tebycaf i *S* a *Tim* gael eu copïo a hefyd, o bosibl, eu defnyddio gyntaf.<sup>60</sup>

Dewi sy'n cael y prif sylw yn *S*: gelwir arno 28 o weithiau i gyd, a'r rheini i gyd namyn dau yn cyfeirio ato fel Dewi Brefi, sy'n awgrymu rhyw ymlyniad neu ddi-ddordeb arbennig ym mhlwyf Llanddewibrefi. Mewn un man (§ 1296), cyfeirir ato fel *Debi Breui o'r Bryn G6yn*—cyfeiriad, y mae'n debyg, at y bryn y dywed traddodiad iddo godi'n wyrthiol o dan draed Dewi wrth iddo bregethu yn Synod Llanddewibrefi ac y codwyd eglwys plwyf Llanddewibrefi arno'n ddiweddarach.<sup>61</sup> Yn ogystal gelwir unwaith yr un ar Gwenog, nawddsantes plwyf cyfagos Llanwenog, ac ar Lawrens Ferthyr, a gelwir ar Dduw ei hun ddwywaith, yn y ffurfiau *gwir duw krea6dr* a *deo gracias*.<sup>62</sup>

Y mae'r ffaith bod y copiïdd yn galw ar Lawrens yn ddiddorol, ond yn anodd ei esbonio mewn termau daearyddol lleol, fel y gellir ei wneud yn achos y cyfeiriadau at Ddewi a Gwenog yn *S*, a'r galw ar Gwenog a Gwnnen yn *Tim* a drafodir isod.<sup>63</sup> Yn wahanol i'r tri sant hyn a gysylltir yn benodol ag eglwysi plwyf yn neau Ceredigion, nid wyddys am yr un cysegriad i Lawrens yn yr union ardal honno y gellir ei ddyddio cyn y Diwygiad Protestannaidd.<sup>64</sup> Yr hyn sy'n nodedig am Lawrens, ar y llaw arall, yw'r ffaith fod ei gwlt ymhlith y cynharaf a'r mwyaf poblogaidd yn hanes Cristnogaeth. Yr oedd bri mawr arno yn Rhufain yn yr Oesoedd Canol, ac yr oedd pererinion o Gymru ymhlith y rhai a heidiai i'r ddinas honno yn sgil methiant Ail Ryfel y Groes yn 1270 a wnaethai Jerwsalem yn anghyraeddadwy.<sup>65</sup> Wrth ddychwelyd adref, daethant â chwlt Lawrens yn ôl gyda hwy, ac ymddengys i'r diddordeb ynddo gyrraedd ei anterth yng Nghymru tua chanol y bymthegfed ganrif—sef union gyfnod ysgrifennu *S* a *Tim*, a chyfnod a nodweddid gan ddiddordeb mawr yn y seintiau yn gyffredinol. Ymhlith y beirdd Cymraeg a fentrodd i Rufain, y mae ambell un yn crybwyll Lawrens yn eu cerddi. Un o'r rhai mwyaf diddorol yw cywydd Huw Cae Llwyd, 'Y Creiriau yn Rhufain' (y gellid ei ddyddio i'r flwyddyn 1475), sy'n enwi Lawrens yn nhermau ei ferthyrddod:

Gwnaeth ef, o'i ddiodefaint,  
Lawrens wyn lawer yn saint.<sup>66</sup>

A chymharer y cyfeiriad yn y cywydd hwn a luniwyd rhwng 1455 ac 1458 pan oedd Calistus yn Bab:

Oddyno hawdd yw enwi  
Eglwys wen lle gwelais i  
Y llech rudd o'r llewylch wres  
Y doluriwyd Saint Lawres.<sup>67</sup>

Yn ei 'Owdyl a wnaed i Harri [Tudur], Iarll Richmwnt',<sup>68</sup> y mae Dafydd Nanmor yn rhaffu enwau nifer fawr o seintiau, gan ddeisyf am eu bendith ar Harri. Yn eu plith ceir enwau Gwnnen a Gwenog (ll. 48), Dewi (ll. 60) a Lawrens (ll. 65). Gan fod Dafydd Nanmor wedi treulio'r rhan fwyaf o'i fywyd creadigol yng nghartref Rhys ap Meredydd a'i deulu yn y Tywyn, ger Aberteifi, gellid dadlau bod Lawrens yn gymaint rhan o ymwybyddiaeth grefyddol dyffryn Teifi yn y bymthegfed ganrif ag yr oedd y seintiau lleol. Y mae'n bosibl y ceir ateg pellach i hyn mewn dau enw lle, sef 'Tyddyn Lawrens' a 'Tire Lawrens' ym mhlwyf Llandygwydd cyfagos.<sup>69</sup> Ac wrth geisio dirnad pam y byddai copiïdd y testun wedi dwyn enw Lawrens i gof, rhaid hefyd gofio'r traddodiad a bwysleisir mewn ffordd arbennig yn *S* (§§ 2375, 2552–3) i Hywel Dda ei hun ymweld â Rhufain er cael bendith y Pab ar ei gyfreithiau.

Ar Gwenog y mae'r copiïdd yn galw'n bennaf yn yr hyn sydd wedi goroesi o *Tim*; chwe gwaith i gyd ac y mae pedair o'r rhain yn cysylltu ei henw â Gwnnen, nawddsant(es) plwyf cyfagos Llanwnnen. Yn gysylltiedig ag enwau Gwenog a Gwnnen, cyfeirir hefyd at Gwynionydd-uwch-cerdin, sef rhan ogleddol hen arglwyddiaeth Gwynionydd yr oedd plwyfi Llanwenog a Llanwnnen yn rhan ohoni. Yn ogystal â'r cyfeiriadau lleol hyn, gelwir unwaith

ar enw Mair, yr oedd poblogrwydd ei chwlt yn hollbresennol yng Nghymru (fel amryw o wledydd eraill) tua chanol y bymthegfed ganrif.

Ni ellir ond dyfalu ynghylch bwriad y copïydd wrth iddo ysgrifennu'r enwau hyn ar ddail ei ddau lyfr cyfraith.<sup>70</sup> Nid yw eu dosbarthiad yn awgrymu perthynas â'r calendr litwrgaidd, er enghraifft.<sup>71</sup> Temtasiwn yw dehongli'r deisyfiadau am gymorth—*Debi Brefi ynn kanhorth6y, Gwenoc helpa*—yn ebychiadau copïydd a flinodd neu a ddiflasodd ar ei waith. Dehongliad mwy ysbrydol fyddai eu deall fel saeth-weddiâu gan gopïydd defosiynol a ddymunai i'r seintiau fendithio nid yn unig ei lafur ef ei hun, o bosibl, ond hefyd weithgarwch y sawl yr oedd yn llunio'r llyfrau cyfraith hyn ar eu cyfer.<sup>72</sup> Nid yw cynnwys elfen grefyddol neu ddefosiynol mewn llawysgrif o Gyfraith Hywel yn unigryw i *S* a *Tim*; er enghraifft, rhagflaenir y testun cyfraith yn *Q* gan gopi o galendr litwrgaidd (ff. 2-7v), a cheir *incipit* defosiynol yn *N* (ff. 4) a choloffon defosiynol yn *Tr* (ff. 68). Bid a fo am hynny, o'u cymryd ynghyd y mae'r cyfeiriadau at seintiau lleol yn *S* a *Tim* yn darparu awgrym pendant iawn ynghylch tarddle'r llawysgrifau hyn, sef ei bod yn ymddangos yn debygol iddynt gael eu copïo rywle yn hanner uchaf Dyffryn Teifi, a hynny tua chanol y bymthegfed ganrif fel y nodwyd.

Yn ogystal â'r nodweddion cyffredinol hyn sy'n cysylltu *S* a *Tim*, y mae perthynas drawiadol hefyd rhwng cynffonnau'r ddwy lawysgrif. I ddeall y berthynas honno, rhaid ystyried bod dwy ran i'r gynffon yn y ddau lyfr: y rhan gyntaf (*S* §§ 1234–2236; *Tim* ff. 21v<sup>30</sup>–45v<sup>28</sup>) lle y ceir cyfatebiaeth agos iawn rhwng y ddau destun, a'r ail ran (*S* §§ 2237 i'r diwedd; *Tim* ff. 45v<sup>28</sup> i'r diwedd) lle y mae'r ddwy lawysgrif yn bur annibynnol ar ei gilydd.

#### *Rhan gyntaf cynffon S a Tim*

Y mae'r gynffon yn agor yn yr un modd yn *S* a *Tim* ill dwy â'r paragraff a ganlyn:

Kyn no hyn y de6esb6yd o so6ydogyon llys benyda6l y brenhin, a chyfreitheu y llys benyda6l. Bellach y de6edir o s6ydogyon y 6lad a'r gyfreith gyffredin a ossoded o bleid y brenhin rong y brenhin a'e 6yr ymhop g6lad o'e deyrnas. Nyd amgen s6ydogyon a ossoded ym pob llys o dadleuoed k6m6d neu gantref yG6yned a Pho6ys: maer, kyghella6r, righill, offeiriad u yssgrifenu dadleuoed, ac vn bra6d6r o vreint s6yd; a phed6ar s6ydoc megis y rei kyntaf ymhop llys o dadleuoed k6m6d neu ganteref yNeheubarth, a llya6s o vra6d6yr o vreint tir, nyd amgen no phob perchen tir, megis yd oedynt kyn Hy6el Da, her6yd kyfreith Dyfyn6al. (*S* §§ 1234–6)

Fel y nodwyd eisoes, y mae copïydd y llawysgrifau hyn (neu un o'i ragflaenwyr) wedi addasu'r paragraff sy'n cysylltu Cyfreithiau'r Llys a Chyfreithiau'r Wlad (*LlBleg* § 32:21–3) a'i ddefnyddio'n ddolen rhwng diwedd y testun Bleg a dechrau'r gynffon—gan ddarparu enghraifft ddiddorol o'r modd y byddai copïwyr y testunau diweddar yn ailddefnyddio deunydd i'w atodi'n gynffon i brif destun.

O'r pwynt hwn ymlaen, y mae'r gyfatebiaeth rhwng *S* a *Tim* yn agos iawn, gydag ond ychydig o amrywiadau o ran cynnwys, trefn a manylion darlenniadau—er teg nodi bod agosrwydd y gyfatebiaeth wedi ei chuddio i ryw raddau bellach gan bedwar *hiatus* sylweddol yn *Tim*.<sup>73</sup> O ddadansoddi cydiant *Tim*, gellid bwrw amcan faint o ddail ac felly faint o ddeunydd a gollwyd, ac y mae'n drawiadol bod maint y deunydd a gollwyd yn cyfateb yn

agos iawn i faint y deunydd a gadwyd yn y manau cyfatebol yn *S*.<sup>74</sup> Nid afresymol felly fyddai cynnig bod y deunydd yn rhan gyntaf *S* sydd bellach yn unigryw i'r testun hwnnw i'w gael yn *Tim* hefyd ar un adeg.

Gwnaethpwyd sylwadau cyffredinol eisoes, tt. xii–xv, ynghylch y math o ddeunydd a gadwyd yng nghynffon *S* (a chan hynny yng nghynffon *Tim*), a dengys Consbectws 2 natur gymysg y rhan gyntaf hon o'r gynffon yn glir. Deunydd Ior sydd yma'n bennaf, ynghyd â pheth deunydd a gadwyd hefyd yn nhestunau Lladin B ac E, a deunydd amrywiol arall. Y mae llawer ohono ar ffurf damweiniau a thrioedd. Y mae peth o'r deunydd ychwanegol hwn wedi ei gadw hefyd yn *J*, *Q*, *Ep* a *P* (ymhlith testunau eraill), ond ymddengys fod o leiaf ryw gymaint ohono'n unigryw (bellach) i *S* a *Tim*.

Ceir amcan o'r gyfatebiaeth fanwl rhwng *S* a *Tim* yn rhan gyntaf eu cynffon o'r dyfyniadau isod:<sup>75</sup>

**S** Pan adne6da6d ho6el da brenhin kymry gyfreitheu kymry ynn hollha6l ef a gadar[n]ha6d amryfaylon vreineu y amryfaylon dnyon oe deurnas ef. ac yn gyntaf y bob argl6yd egl6yssc megis archesgob myni6 neu esgob neu abad y kynyttaod braint brenhina6l y gynhal datleuoed ar eu llyegon dr6y gyfreith gyffredin gymry.

(ff. 71<sup>25</sup>–71<sup>v3</sup> = §§ 1373–4)

**Tim** Pan adne6yda6d hy6el da brenhin kymry gyfritheu kymry yn holla6l ef gadarnha6d anryfaylon [*sic*] vreineu y amryfaylon dnyon oe deirnas ef. ac yn gyntaf y bob argl6yd egl6yssc megis archesgob mynn6 neu esgob neu abad y kynhataod breint brenhina6l y genhal dadleuoed ar y llygyon dr[6]y gyfreith gyffredin gymry.

(ff. 30<sup>3-9</sup>)

**S** Ped6ar peth ar pymthec yssyd reid y bod kyn h6anokau dlyed gorssed ar neb: Tri a berthyn yr gorssoda6c y 6neuthur eistau yn gyfyon a chad6 ia6n y brenhin kyfreithloni pleideu roi ryfic y 6ann ynn erbyn y kadarn ae dilyssu y ofyn ac y ateb: deu a berthyn ar yr higill tystu a g6ssio. Pym peth yssyd reid y amdiffyn6r y gaffel kyn kollo: g6ys. ha6l. ateb barn a thygnodef y dyfod yr llys: A Seith gynedyf bra6d6r ac o llythra amser ynn erbyn g6ystyl O dervyd yr amdiffyn6r [vn] or pygkeu hynn reid y6 kymryd tervyn amdana6 p6y bynac a d6etto y vod ynn kael kam ynn vn or defnydyon hynn kyfreith a dyly y 6randa6.

(ff. 95<sup>v21</sup>–96<sup>6</sup> = §§1800–6)

**Tim** Ped6ar peth ar bymthec yssyd reid y bod kyn h6anakay dlyed gorssed ar neb tri a berthyn yr gorsseda6c y 6neuthyr eistau yn gyfyon kad6 ia6n y brenhin kyfreithloni pleideu rodi ryfic y6 6an yn erbyn y kadarn ay dilysu y ofyn ac y ateb. deu a berthyn ar yr righill tystu a g6ssio. Pym peth y syd reid y amdiffyn6r y gael kyn kollo, g6ys, ha6l, ateb, barn a thanedef y dyfod yr llys. A seith gynedef bra6d6r a llythiro yr amser ac yn erbyn g6ystyl. Ac o dervyd yr amdiffyn6r vn [or] pyngkeu hyn reid y6 kymryd tervyn. P6y bynac a d6etto y vod yn kael kam yn vn or defnydyon hyn kyfreith a dyly y 6randa6.

(ff. 38<sup>19-30</sup>)

Yn ogystal â'r gyfatebiaeth agos yng nghynnwys, trefn ac union ddarlleniadau'r deunydd yn y rhan gyntaf hon o'r gynffon, y mae *S* a *Tim* hefyd yn gytûn yn aml mewn hynodion orgraffyddol a darlleniadau gwallus. Fel y trafodir yn llawn isod, tt. lxi–lxviii, y mae orgraff *S* yn bur anghyson a cheir amrywiadau orgraffyddol niferus hyd yn oed yn achos geiriau byrion, syml. Yr hyn sy'n drawiadol yn rhan gyntaf y gynffon yn *S* a *Tim* yw eu bod yn aml yn gytûn wrth roi ffurf eithriadol. Bodlonir ar nodi tair enghraifft (myfi biau'r italeiddio ym mhob achos):

<i>S</i>	Maer. kyghella6r Righill. Offeiriad u yssgrifenu <i>dadloeoed</i> [...] (ff. 60 <sup>7-8</sup> = § 1236)	<b><i>Tim</i></b>	Maer. Kyghella6r. Righill. Offeiriad y ysg[r]ifenu <i>dadloyoed</i> [...] (ff. 22 <sup>2-3</sup> )
<i>S</i>	Eeil neu y dryded y6 beth bynac a dygo ar y seithued oe <i>gynyseifeid</i> o 6yr [...] (ff. 73 <sup>6-7</sup> = § 1395)	<b><i>Tim</i></b>	yr eil neu y dryded beth bynac a dygo ar y seithued oe <i>gynysseifeid</i> o 6yr [...] (ff. 31 <sup>25-7</sup> )
<i>S</i>	[...] dadanyd ar ac eredic a dadanyd <i>born</i> a baich a dadanyd <i>kart</i> . (ff. 111 <sup>18-19</sup> = § 2036)	<b><i>Tim</i></b>	[...] dadanyd ar ac eredic: A dadanyd <i>born</i> a baich a dadanyd <i>kart</i> . (ff. 39v <sup>11-12</sup> )

Yn ogystal â chytuno ar hynodion orgraffyddol, y mae nifer o wallau testunol amlwg yn gyffredin i *S* a *Tim* yn rhan gyntaf y gynffon. Er enghraifft:

<i>S</i>	ef a vesyr6ys yr ynys hon <i>o benryn peng6aed yn y gogled. hyt ygherni6</i> . (ff. 93v <sup>1-2</sup> § 1769)	<b><i>Tim</i></b>	ef a vessyr6ys yr ynys hon <i>o benryn pen g6aed yn y gogled y ygherni6</i> . (ff. 36v <sup>18-20</sup> )
----------	--	-------------------	---

Bwriad y copïydd oedd cyfleu 'o un pen i Brydain i'r pen arall', ond ni wna'r ymadrodd hwn lawer o synnwyr fel y mae, gan mai yng Nghernyw y lleolir 'Penrhyn Peng6aed'.<sup>76</sup>

<i>S</i>	hynn o rif er6eu a vyd ynn y kantref pedeir er6 ymhob tydyn vn ar bymthec ymhop randir pedeir er6 a thrigeint ymhob gavael vn er6 ar bymthec a <i>de[u] kant</i> ymhob tref pedeir er6 a <i>thrigein</i> a mil ymhop maena6r [...] (ff. 94 <sup>6-10</sup> = § 1779)	<b><i>Tim</i></b>	Hyn y6 o rif er6eu a vyd yn y kantref. pedeir er6 y hop tydyn. Vn ar bymthec ymhop randir pedeir er6 a thrigein ymhob gafael vn er6 ar bymthec a <i>deu C</i> ymhop tref. Pedeir er6 a <i>thrigein</i> a mil ymhop mayn6r [...] (ff. 37 <sup>9-12</sup> )
----------	--	-------------------	---

Yma, y mae *S* a *Tim* yn cytuno mewn mathemateg wallus: collwyd y dilyniad arithmetig a ddylai fod yn y frawddeg hon, ac a geir yn *LLor* § 90:15 ('[...] un ar bymthec a *deugeynt* a *deu cant* en e tref; pedeyr eru ar *ugeynt* a myl o erwy em pob maenaul).<sup>77</sup>

Y mae'r ddwy lawysgrif hefyd yn gytûn yn aml wrth golli'r un geiriau, a'r rheini'n angenrheidiol i synnwyr y testun. Er enghraifft:

**S** Teir gorssed gyfreitha6l yssyd: gorssed argl6yd a hon esgop a hon abad ar teir hynny [*a dylyant*] g6rogaeth g6yr: ac ny dyly g6r o vn ohonynt g6neuthur ia6n namyn ynn y orssed ef yhyn: ony bei damch6eina6 y 6r yr esgob 6neuthur kam [*ygorssed*] yr argl6yd: Neu 6r yr argl6yd ygorssed yr esgob: Neu 6r yr abad ynn vn or d6y ereill.  
(ff. 110v<sup>4-11</sup> = § 2028)

**Tim** Teir gorssed gyfreitha6l yssyd: gorssed argl6yd a hon esgob a hon abad ar teir hynny [*a dylyant*] g6rogaeth g6yr: ac ny dyly g6r o vn ohonynt g6neythyr Ia6n namyn yn [y] orssed ef [y]hyn: ony bei damch6eino y 6r yr esgob g6neuthur cam [*ygorssed*] yr argl6yd: Neu 6r yr argl6yd ygorssed yr esgob. Neu 6r yr abad yn vn or d6y ereill.  
(ff. 39<sup>14-19</sup>)

Y mae'r enghreifftiau a nodwyd uchod yn dangos bod *S a Tim* yn perthyn yn agos iawn i'w gilydd. Ar y llaw arall, fodd bynnag, ceir gwahaniaethau rhyngddynt sy'n dangos na all y naill fod yn gopi uniongyrchol o'r llall. Er enghraifft, y mae fersiwn carbwl *S* o destun eglur yn *Tim* yn awgrymu'n gryf nad *S* oedd cysail *Tim*:

**S** Ni dyliyr dieneida6 kaeth os pryn y argl6yd ef ac ony cheffir dim ynn y la6 y argl6yd a eill y diheira6. Ac o achos yd udis yn defodi gadel yr argl6ydi diheura6 y geissa6 alltydion dros vor ne o 6lad arall. Oher6yd kyfreith ni dylir dienydya6 dyn am vo6yd a diod hyt ymhem tri dieu a their nos kans ryd vyd namyn dif6yn y da yr neb ae pieiffo.  
(ff. 64<sup>10-16</sup> = §§ 1303-4)

**Tim** Ny dylir dienydya6 kaeth os pryn y argl6yd ef. Ac ony cheffir dim yn y la6 y argl6yd aill y dihoira6. Ac acha6s yd ydis yn defodi gadel yr argl6ydi diheira6 y g[6]eisson. Alldydion dros vor. neu o 6lad arall o gyfrith ny dylir y denydya6 am v6yd a diod hyd ymhem teir nos a thri dieu kans ryd ynt. yn amyn dif6yn y da yr neb a pieiffo.  
(ff. 25<sup>5-11</sup>)

Yr un modd, yn yr enghraifft a ganlyn y mae *Tim* yn rhoi fersiwn carbwl ar ddeunydd sy'n eglur yn *S*, a hynny yn ei dro'n awgrymu nad *Tim* oedd cysail *S*:

**S** O deryd roi barn ynn erbyn dyn ni bo ky6lad ac yr ynad: G6edy bo ky6lad ef ar ynad y dycha6n ym6ystla6 pan vyno o ve6n vn dyd a bl6ydyd: Ony chyffry ha6l hyd ymhem vn dyd a bl6ydyd eil6ith kaedic vyd kyfreith ryda6 ar ynad.  
(ff. 89v<sup>15-20</sup> = §§ 1708-9)

**Tim** Ony byd ky6lad ygnad a dyn ef g6edy y bo ky6lad yr ynad ac ef y dycha6n ym6ystla6 pan vyno. Ony chyffry ha6l eil6eith hyt ymhem vn dyd a bl6ydyd onys kyffry kaedic vyd kyfreith ryda6 ar ynat.  
(ff. 34<sup>22-5</sup>)

Yn ogystal â'r enghreifftiau penodol hyn, fel y gwelir o Gonsbectws 2 ceir ambell adnod (neu ddyrnaid o adnodau ynghyd weithiau) yn y naill lawysgrif nad ydynt yn digwydd yn y llall, ac y mae hyn eto'n cadarnhau na all y naill fod yn gopi uniongyrchol o'r llall. O'i chymryd ynghyd, y mae'r dystiolaeth yn awgrymu'n gryf bod rhan gyntaf y gynffon yn *S* a *Tim* yn tarddu o ffynhonnell gyffredin a oedd, y mae'n debyg, ar ffurf un testun ysgrifenedig. Os gellir gosod pwys ar y sylw yn *Tim* sy'n rhagflaenu'r rhagymadrodd i'r gynffon yn y llawysgrif honno:

Dbeta[d]6y y6 rac lla6 o rol dauid ll6yd sef y6 honno seretein o pyngkeu yssyd gyfreidiol y pob g6r o gyfreith 6rthynt pob amser. (ff. 21v)

yna gellir awgrymu, fel y gwnaethpwyd uchod, tt. xxi–xxii, fod *S* a *Tim* ill dwy'n dechrau copio yn y fan hon ddeunydd a dynnwyd o lawlyfr dosbarthwr hysbys a fu'n weithredol yng Ngwynionydd-uwch-cerdin yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg, sef Dafydd Llwyd ap Gwilym.

#### *Ail ran cynffon S a Tim*

Y mae'r paragraff cyswllt rhwng diwedd y testun Bleg a dechrau'r gynffon yn *S* a *Tim* yn awgrymu bod y copïydd yn ymwybodol ei fod yn gorffen ymdrin â deunydd o fath arbennig ac yn troi at ddeunydd o fath arall. Fodd bynnag, yn *S* a *Tim* fel ei gilydd, symudir o ran gyntaf y gynffon (lle y mae ganddynt yr un deunydd yn yr un drefn) at yr ail ran (lle y maent yn bur annibynnol ar ei gilydd),<sup>78</sup> heb unrhyw reswm amlwg, a heb i'r naill lawysgrif na'r llall dynnu sylw at y symudiad—er i'r symudiad hwnnw ddigwydd ar ganol adnod:

<i>S</i>	Ni dylir taly t6nck o dir kyfrif Sef acha6s y6 <i>am nad oes er6 diffodedic</i> <i>ynda6.</i> (ff. 123v <sup>27</sup> –124 <sup>1</sup> = § 2236)	<i>Tim</i>	Ni dylir taly t6nc o dir kyfrif. Sef acha6s y6 <i>6rth na dylir k6ynos ohona6.</i> ( <i>Tim</i> ff. 45v <sup>26–8</sup> )
----------	--	------------	---

Ymddengys mai *Tim* sy'n cadw darlleniad y gysail, ac mai creadigaeth 'llam llygad' yw ddarlleniad *S*: cf. y frawddeg nesaf namyn un yn *Tim*: 'Ni byd er6 diffodedic yn tir kyfrif kany dyly neb bryny er6 y vap y gilyd.' Gw. hefyd § 2236n, ynghyd â'r Casgliadau isod.

Gan y daw natur ail ran cynffon *S*, ynghyd ag awgrym am ei ffynonellau a'i pherthynas ag amrediad o lawysgrifau eraill, yn amlwg o Gonsbectws 2, ni fanylir ar y materion hyn yma. Digon yw tynnu sylw at y ffaith bod cryn dipyn o'r cynnwys yn addasiad neu'n ad-drefniad ar ddeunydd Ior, er enghraifft y traethig hir ar 'Lwgr Yd' (§§ 2237–305), neu ynteu'n ddeunydd a godwyd yn uniongyrchol o ddull Ior, er enghraifft y traethigau ar 'Fach' a 'Thir' (§§ 2307–29; 2330–48). Ceir yma hefyd draethigau na ellir eu holrhain i'r un o'r dulliau traddodiadol, ond sydd hefyd yn digwydd mewn deddfgronau eraill, yn enwedig *Q*, *Ep* a *J*, er enghraifft y traethig ar 'Holi Lledrad' (§§ 2349–59), a rhai o'r 'Amrywion' a 'Damweiniau' (§§ 2491–517). Ond ceir yma'n ogystal ddefnyddiau sydd, hyd y gellir barnu o'r llawysgrifau a archwiliwyd, yn unigryw i *S*, er enghraifft 'Geiriau'r Seithwyr Doethion' (§§ 2479–86) a'r ymdriniaeth â 'Chyd-etifeddion' (§§ 2377–81). Yr enghraifft orau o ddeunydd o'r fath yw'r traethig hirfaith ar 'Wyddor Cyfraith Hywel' (§§ 2382–472), sy'n ffurfio ychydig o dan hanner ail ran cynffon *S*.

Y mae ail ran cynffon *Tim* ar y llaw arall yn llawer mwy traddodiadol nag *S*. Daw cyfran helaeth ohoni'n uniongyrchol o Ior, er enghraifft y traethigau ar 'Gyfraith y Gwragedd' (ff. 51v–52v), 'Cyfar' (ff. 52v–54) a 'Holi Tir' (ff. 58–60v); ceir cyfres hir o Ddamweiniau (ff. 45v–51v), ynghyd â rhai adrannau sydd hefyd yn digwydd yn nhestun 'Dull Gwent' yn *Ancient Laws*, cyf. i. Ar y cyfan, ychydig ddeunydd, fe ymddengys, sy'n unigryw i *Tim*; er enghraifft, ff. 55v–56.<sup>79</sup>



## Casgliadau

O'r astudiaeth hon o'r berthynas rhwng *S*, *Tim* a rhai llawysgrifau eraill, ac ar sail Conspectws 2, gellir tynnu rhai casgliadau petrus ynghylch y math o ffynonellau y medrai'r copiyydd dynnu arnynt wrth lunio'r ddau ddeddfgrawn hyn. Yn gyntaf, y mae'n glir fod ganddo ddau destun gwahanol o Bleg, y naill yn perthyn i ddsbarth testunau Math A a'r llall yn perthyn i rai Math B. Gellir tybio hefyd fod ganddo wrth law lyfr (neu gopi o lyfr) dosbarthwr adnabyddus, sef 'rhol Dafydd Llwyd', a bod deunydd o amryw ffynonellau eraill eisoes wedi dod ynghyd yn y testun ysgrifenedig hwnnw. Copiodd y brawdlyfr hwn ddwywaith, yn rhan gyntaf cynffon *S* a *Tim* fel ei gilydd. Ni ellir ond dyfalu ynghylch natur ffynhonnell ail ran y gynffon lle y mae *S* a *Tim* yn annibynnol ar ei gilydd. Gan nad oes toriad pendant rhwng dwy ran y gynffon yn na *S* na *Tim*, ni ellir gwybod a yw'r naill neu'r llall yn cynrychioli parhad o'r 'rhol Dafydd Llwyd' dybiedig. Fodd bynnag gellid nodi sawl ffactor sydd yn awgrymu'r tebygolrwydd bod ail ran cynffon *Tim* yn barhad o'r 'rhol', a bod diwedd *S* yn annibynnol:

- i) Y mae'r adnod sy'n cynnwys y symudiad o ddiwedd rhan gyntaf y gynffon i ddechrau'r ail yn digwydd ar ganol cyfres o ddamweiniau yn *Tim*, ond daw'r gyfres o ddamweiniau i ben gyda'r adnod hon yn *S*, cyn dechrau traethig newydd ar destun 'Llwgr Ŷd'.
- ii) Y mae'r adnod sy'n cynnwys y symudiad o ddiwedd rhan gyntaf y gynffon i ddechrau'r ail yn syrthio ar ddiwedd cydiad yn *S* ond ar ganol tudalen yn *Tim*.<sup>80</sup>
- iii) Ceir peth tystiolaeth sy'n awgrymu nad yw *S* ff. 132 *et seq.* yn rhan o'r testun 'gwreiddiol'; gw. tt. lxx–lxxi.
- iv) Y mae natur fwy 'traddodiadol' ail ran cynffon *Tim* yn ymgysylltu o ran naws a strwythur â rhan gyntaf ei chynffon;<sup>81</sup> ar y llaw arall, y mae natur fwy 'gwreiddiol' ail ran cynffon *S* yn awgrymu'r posibilrwydd—onid yn wir y tebygolrwydd—fod y copiyydd yn tynnu bellach ar ffynhonnell neu ffynonellau newydd.

Fodd bynnag, anniogel fyddai tynnu casgliadau pendant o'r awgrymiadau hyn, ac y mae hi yr un mor bosibl mai diwedd *S* sy'n cynrychioli'r parhad o'r 'rhol', neu yn wir bod y copiyydd wedi llunio diwedd gwahanol, annibynnol ar ei gilydd, ar gyfer *S* a *Tim* ill dwy—er enghraifft oherwydd bod rhyw ddiffyg yn y 'rhol'.

Y mae hyn yn gadael dwy wedd ar berthynas *S* a *Tim* heb eu hesbonio, sef pam y bu'r un copiyydd mor deyrngar (ar yr wyneb o leiaf) i nawddsant plwyf Llanddewibrefi pan gopiodd *S* ac i nawddsantesau plwyfi Llanwenog a Llanwnnen pan gopiodd *Tim*;<sup>82</sup> a pham y byddai'r un copiyydd wedi atodi cynffonnau hanfodol debyg (yn eu rhannau cyntaf o leiaf) i ddau destun Bleg gwahanol. Cyn cynnig rhai awgrymiadau petrus, dylid nodi dwy ystyriaeth.

Erbyn y bymthegfed ganrif nid oedd copïo llawysgrifau'n briod faes gwŷr crefydd yn unig; eto i gyd y mae'r galw ar enwau'r seintiau yn *S* a *Tim* yn awgrymu bod y copiyydd yn ddyn mwy crefyddol na'r cyffredin. Y mae Llyfr Ancr Llanddewibrefi yn ein hatgoffa na fyddai copïo llawysgrifau yn beth dieithr yn ardal Llanddewibrefi. Yr oedd Llanddewi'n ganolfan eglwysig draddodiadol o gryn bwysigrwydd yn yr Oesoedd Canol—yr oedd o bosibl yn eglwys glas, ac yn ffocws i gwlt Dewi, ac yn 1287 sefydlodd yr Esgob Thomas Bek eglwys golegol yno, gan sicrhau statws Llanddewibrefi fel canolfan dysg a defosiwn.<sup>83</sup> Hyd yn oed os na fu gan gopiyydd y llawysgrifau hyn gysylltiad uniongyrchol â'r sefydliad eglwysig yn Llanddewibrefi, ni ddylid ei anwybyddu fel cefndir tebygol i'w lafur.

Yn ail, gwyddys bod nifer o'r swyddogion a fu'n gweithredu yn yr ardal hon tua chanol y bymthegfed ganrif yn dwyn yr enw Llwyd,<sup>84</sup> ac nid yw'n amhosibl bod un neu fwy o'r rhain yn ddisgynyddion i Ddafydd Llwyd y dosbarthwr.

A yw hi'n bosibl, felly, bod *S* a *Tim* yn gynnwys copi'edd a chanddo ryw gysylltiad (digon tenau o bosibl) â Llanddewibrefi? Y mae'n bosibl bod y newid yn ei deyrngarwch o Dewi i Gwenog a Gwnnen ond yn adlewyrchu newid yn ei fan gwaith, gan nad oes raid credu i'r ddwy lawysgrif gael eu copïo yn yr un lle. Os gwir mai llyfrau ymarferol a ddefnyddid yn y llysoedd gan frawdwr o fraint tir neu ddosbarthwr oedd *S* a *Tim*, tybed nad yw'r newid teyrngarwch ymddangosiadol yn adlewyrchu'r posibilrwydd bod y llawysgrifau hyn wedi eu llunio'n wreiddiol ar gyfer dau frawdwr o fraint tir neu ddosbarthwr (y naill neu'r llall o bosibl yn ddisgynydd i Ddafydd Llwyd), un yn byw yn Llanddewibrefi ac am gael y fersiwn 'diwygiedig' ar Lyfr Blegywryd (sef *S*), a'r llall yn byw yn ardal Llanwenog–Llanwnnen ac am gael y fersiwn traddodiadol a cheidwadol ar y testun hwnnw (sef *Tim*).

### 3. LLAWYSGRIF BL ADD. 22356 (S)

#### **Disgrifiad o'r llawysgrif**

Ceir disgrifiad cryno o'r llawysgrif hon o Gyfraith Hywel yn y *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum 1854–1860*.<sup>1</sup> Fe'i disgrifiwyd eto gan Gwenogvryn Evans yn ei *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, lle y rhoddwyd y rhif 'MS. 9' arni, a'i dyddio'n ddiweddar yn y bymthegfed ganrif.<sup>2</sup> Cyhoeddais innau ddisgrifiad llawn o'r llawysgrif yng *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*,<sup>3</sup> ac yn fwy diweddar fe'i disgrifiwyd yn gryno gan Daniel Huws yn ei *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* lle y mae'n ei dyddio i ganol y bymthegfed ganrif: y dyddiad hwnnw a dderbyniwyd ar gyfer yr astudiaeth bresennol. Er cyflawnder, disgrifir BL Add. 22356 yn fanwl yma eto, gan fanteisio'n llawn ar y cyfle i ddiwygio a chywiro disgrifiadau blaenorol yn ôl yr angen.

Defnyddiwyd y llawysgrif ar gyfer y ddau argraffiad cyfansawdd o'r cyfreithiau brodorol a ymddangosodd cyn i ysgolheictod diweddar roi sylw iddynt, sef *Leges Wallicae* (William Wotton), lle y'i dynodir gan 'S.2.' a'i disgrifio fel a ganlyn:

*Codex Wallicus membranaceus plus CCCL abhinc annos in Agro Cereticensi scriptus, id quod invocata subinde Sanctorum nomina isti Regioni propria, ut Dewi Breffi, Dewi Bryngwyn, Gwenog helpa, & similia, satis luculenter probant. Hic Codex in pluribus rebus quamproxime accedit ad Cott.4.H.3.P. & ejusdem classis Codd. recentiores.*<sup>4</sup>

ac *Ancient Laws* (Aneurin Owen) lle y'i dynodir gan 'S' a'i disgrifio fel hyn:

A Manuscript in the Library of the Cymrodorion [*sic*] Society in London, who freely permitted the loan of it for transcript. It is of about the fifteenth century, and was evidently written in Cardiganshire, from its invocations of Dewi and Gwenog, the saints of the churches of Llanddewi brevi and Llanwenog in that county, frequently appended to sentences. Much matter, not elsewhere to be found, has been collected from this volume.<sup>5</sup>

#### **Cynnwys**

Fel y nodwyd eisoes, ceir yn y llawysgrif hon destun o Gyfraith Hywel yn ôl dull Blegywryd, (ff. 4–59),<sup>6</sup> a ddilynir gan *coda* neu 'gynffon' o ddeunydd ychwanegol, wedi ei gasglu o amryw ffynonellau a heb ei drefnu'n systematig (ff. 60–145).<sup>7</sup> Y mae'n hynod ymhlith llawysgrifau Cyfraith Hywel yn y ffaith ei bod, i bob ymddangosiad, yn gyflawn ac mewn cyflwr da trwyddi.

*Dechrau*, ff. 4. Howel da o rad du6 mab gadell brenhin kymry oll a 6elas kymry yn kam arver o gyfritheu a devodeu ...

*Gorffen*, ff. 145v ... a thafa6t 6eli a g6erth tervyneu ar ffinieu ae kospeu a phob da di berchenna6c a tholl y velineu

#### **Deunydd a chyfansoddiad**

Memrwn yw deunydd y llawysgrif hon, a phob dalen yn mesur tua 250mm × 175mm (ac eithrio ff. 146 a 147 nad ydynt yn rhan o'r llawysgrif wreiddiol, gw. isod). Ar y cyfan y mae'r

memrwn mewn cyflwr da, yn lân a heb felynu ryw lawer. Y mae ôl tamprwydd i'w weld ar hyd ymyl y rhan fwyaf o'r dail, ond nid yw hyn wedi effeithio dim ar yr ysgrifen, sy'n glir a darllenadwy trwy gydol y llawysgrif. Atgyweiriwyd rhai o'r dail yn sylweddol. Y mae dull amrwd y trwsio ar odre sawl dalen yn awgrymu i hyn gael ei wneud yn eithaf cynnar yn hanes y llawysgrif, ond ni ellir bod yn sicr a wnaethpwyd y gwaith hwn cyn ysgrifennu ar y dail ai peidio.

- ff. 1. Dalen femrwn, felynach a mwy brwnt na dail y testun cyfraith. Dalen o lawysgrif Ladin o'r bedwaredd ganrif ar ddeg yw hon, yn cynnwys rhan o *Constitutiones* y Pab Clementis V, sef Lib. I, tit. iii, cap. iv–vii; collwyd peth o'r ysgrifen drwy drimio. Defnyddiwyd y *recto* ar gyfer profi pin. Bu hon gynt yn ddalen-lud (*paste-down*).
- ff. 2 Dalen eithaf brwnt, ond cyfoes â dail y testun. Profi pin helaeth ar y *recto*.
- ff. 3 Dalen weddol lân, yn yr un cyflwr da â'r testun ei hun. Yn y gornel chwith uchaf ceir y rhif '22,356' mewn pensil, ac yn y gornel dde uchaf sêl 'Sebright' ynghyd â'r rhif '54' mewn inc du.<sup>8</sup> Ceir cynllun o eisteddiad y llys, o waith copiyydd y testun, ar y *verso*.
- ff. 4–145 Y mae'r dail hyn, sy'n cynnwys y testun cyfraith, oll mewn cyflwr da. Ar y cyfan, y mae dail blaen ac ôl y cydiadau ryw gymaint yn fwy brwnt na'r lleill, sy'n awgrymu na fu'r cyfnod rhwng copïo'r testun a'i rwymo'n un maith. Y mae ff. 132 ychydig yn fwy brwnt na'r gweddill, ac awgrymir rheswm posibl dros hyn yn yr Atodiad i'r disgrifiad hwn, tt. lxx–lxxi.
- ff. 146 Dalen frwnt iawn, a blygwyd yn y canol yn wreiddiol. Ceir dernyn o'r cyfreithiau (pymthegfed ganrif) a llun dyn (brenin?) ar y *recto*; defnyddiwyd y *verso* ar gyfer profi pin. Ymddengys i hon gael ei chynnwys yn wreiddiol fel dalen-rwymo, ond ei bod bellach wedi ei chamleoli.
- ff. 147 Dalen bapur ac arni ymdriniaeth fer yn Gymraeg a Lladin â 'Verba Inusitata in lege H.D. script' Morgeny' yn llaw William Jones, cynorthwydd Edward Lhuyd.<sup>9</sup> Olion sêl 'Sebright'. Defnyddiodd Moses Williams<sup>10</sup> y *verso* ar gyfer profi pin.
- ff. 148 Dalen frwnt a drwsiodd yn sylweddol. Ceir peth ysgrifen ar y *recto*, a llinellau ar gyfer ysgrifennu ar y *verso*. Bu hon gynt yn ddalen-lud.
- ff. 149 Cymar i ff. 1, yn cynnwys darn arall o *Constitutiones* Clementis V, sef Lib. V, tit. i, cap. i–tit. ii, cap. i. Profi pin ar y *verso*. Bu hon gynt yn ddalen-lud.

Rhifwyd y tudalennau 1–286 mewn inc brown-lwyd, sef o'r cynllun o eisteddiad y llys (ff. 3v) hyd at ddiwedd y testun cyfraith (ff. 145v), gan law o'r ail ganrif a'r bymtheg neu'r ddeunawfed ganrif, o bosibl un o gynorthwywyr Edward Lhuyd. Gosodwyd y rhifau ar frig pob tudalen, uwchben ymyl allanol y bloc o ysgrifen, gan roi'r rhifau 1–45, 47 a 49 o fewn cromfachau.<sup>11</sup> Ar ôl i'r llawysgrif gyrraedd yr Amgueddfa Brydeinig,<sup>12</sup> rhifwyd y dail yn 1–149 (gan gynnwys y dail memrwn a osodwyd gan y rhwymwr o flaen ac ar ôl y testun, a'r dail a gynhwyswyd yn ddiweddarach) mewn pensil ar frig *recto* pob dalen, yn y gornel dde, a tharo llinell bensil ysgafn drwy rifau'r tudaleniad blaenorol.

Ymddengys fod y llawysgrif yn gyflawn: yn sicr, nid yw na'r cynnwys, na'r ddau dudaleniad, na'r coladiad a nodir isod, yn awgrymu bod unrhyw ddail wedi eu colli. Gan fod y llawysgrif wedi ei rhwymo'n dynn, anodd sicrhau union gyfansoddiad ambell gydiad, ond ymddengys mai'r hyn a geir yw:

- A 3 dalen ddigyswllt: ff. 1–3
- B<sup>8</sup> (4 a 5 yn ddail digyswllt): ff. 4–11
- C<sup>8</sup> ff. 12–19
- D<sup>8</sup> ff. 20–7
- E<sup>8</sup> (3 a 6 yn ddail digyswllt): ff. 28–35
- F<sup>8</sup> ff. 36–43
- G<sup>8</sup> ff. 44–51
- H<sup>8</sup> (2 a 7 yn ddail digyswllt): ff. 52–9
- I<sup>8</sup> (1 ac 8 yn ddail digyswllt): ff. 60–7
- J<sup>8</sup> (1 ac 8 yn ddail digyswllt): ff. 68–75
- K<sup>8</sup> (1 ac 8 yn ddail digyswllt): ff. 76–83
- L<sup>8</sup> ff. 84–91
- M<sup>8</sup> ff. 92–9
- N<sup>8</sup> ff. 100–7
- O<sup>8</sup> (2 a 7 yn ddail digyswllt): ff. 108–15
- P<sup>8</sup> ff. 116–23
- Q<sup>8</sup> + 1 ddalen ar ôl 6 = ff. 130 (2 a 7 yn ddail digyswllt): ff. 124–32
- R<sup>6</sup> (2 a 5, a 3 a 4 yn ddail digyswllt): ff. 133–8
- S ff. 139–49. Cydiad cymhleth. Ymddengys fod 10 dalen yn y cydiad hwn yn wreiddiol, ond bod dail 8 a 10 bellach yn eisiau (wedi eu torri allan ar ôl gorffen ysgrifennu'r llawysgrif i'w defnyddio at waith arall, o bosibl). Bellach gosodwyd ff. 146 a 147 yn lle'r hen ddalen 8 drwy eu gludo wrth ff. 148 (dalen 9) ar sribedi papur (*guards*), a gosodwyd ff. 149 yn ddalen-rwymo yn safle'r hen ddalen 10. Y mae'n eithaf posibl mai safle gwreiddiol ff. 146 oedd o flaen ff. 149, yn ddalen-rwymo arall, ond iddi gael ei chamleoli (wrth drwsio'r rhwymiad, o bosibl), ac y mae bellach wedi ei sicrhau yn ei safle newydd.

Ceir cadwynair ar ddiwedd cydiadau B–P, wedi ei leoli bob tro ar odre *verso* dalen olaf y cydiad, yn y gornel dde. Y mae'r cadwyneiriau yn yr un inc a llaw â'r testun cyfraith, ac addurnwyd llawer ohonynt ag inc coch. Gosodwyd pob un o fewn sgrôl sydd hefyd yn yr un inc â'r testun, ac addurnwyd llawer o'r rhain eto ag inc coch (inc gwyrdd yn achos y cadwynair ar ddiwedd cydiad E, ff. 35v). Nid oes cadwynair ar ddiwedd cydiadau Q ac R, nac ychwaith ar ddiwedd cydiad S (diwedd y testun).

Rhwymwyd y llawysgrif rhwng byrddau pren a orchuddiwyd â lledr llo brown tywyll. Rhed dwy linell (*double fillet*) o offeru plaen (*blind tooling*) yn gyfochrog â'r pedwar ymyl, ar y blaen a'r cefn. Clymwyd y llawysgrif yn wreiddiol gan ddau glesbyn pres a sicrhawyd gan gareiau lledr, ond y clesbyn uchaf yn unig sydd wedi goroesi. Y mae'r defnydd ar fyrddau pren yn awgrymu rhwymiad canoloesol, ac ategir hyn gan y gwaith-metel amrwd ar y clesbyn sydd ar ôl. Nid yw'n amhosibl mai hwn yw'r rhwymiad gwreiddiol a dichon mai wrth rwymo'r llawysgrif am y tro cyntaf y torrwyd y dail gwag o'r cydiad olaf, ac y gludwyd ff. 148 ar y bwrdd cefn. Ni oroesodd y ddalen wreiddiol a ludwyd ar y bwrdd blaen.

Bu sawl cam yn hanes rhwymiad y llawysgrif—y mae'r ffaith fod ynnddi dair dalen a fu unwaith yn ddail-glud yn brawf o hynny. Y mae'n rhesymol tybio mai wrth wneud rhyw waith trwsio ar y rhwymiad y codwyd ff. 148 oddi ar y bwrdd cefn, a'i gymar oddi ar y bwrdd blaen, a gosod dail newydd ar y byrddau yn eu lle, sef ff. 1 a 149 bellach, gan adael ff. 148 yn ddalen-rwymo. Efallai mai wrth wneud y gwaith hwn y collwyd y ddalen wreiddiol a ludwyd ar y bwrdd blaen, ac y gosodwyd ff. 146 yn ddalen-rwymo ychwanegol (wedi ei lleoli'n wreiddiol ar ôl ff. 148?). Er na wyddys pryd y gwnaethpwyd hyn, gellir bwrw amcan iddo ddigwydd rywbryd rhwng canol yr unfed ganrif ar bymtheg (pryd yr aeth llawer o lawysgrifau eglwysig, megis *Constitutiones Clementis V*, yn 'ddiwerth' ar ôl diddymu'r mynachlogydd) a chyn dechrau'r ddeunawfed ganrif, a'r llawysgrif erbyn hynny yn nwylo Edward Lhuyd.

Nododd Gwenogvryn Evans yn 1910<sup>13</sup> fod meingefn y llawysgrif wedi ei adnewyddu. Er na lwyddwyd i ganfod cofnod i gadarnhau hyn, dichon i ryw waith trwsio gael ei wneud ar y rhwymiad wrth dderbyn y llawysgrif i'r Amgueddfa Brydeinig ym mis Ebrill 1858. Rhesymol fyddai tybio mai'r pryd hwnnw y codwyd y dail memrwn Lladin (ff. 1 a 49 bellach) oddi ar y byrddau a'u cynnwys fel dail-rwymo, gan ludo dail papur yn eu lle, ac ychwanegu tair dalen-rwymo bapur yn y blaen a'r cefn. Y pryd hynny hefyd, y mae'n debyg, y gosodwyd ff. 146 a 147 yn eu safle presennol ar stribedi papur. Rhaid wedyn mai rywbryd rhwng mis Ebrill 1858 a Gorffennaf 1867 y cyflawnwyd y gwaith hwn, oherwydd ar frig y drydedd ddalen-flaen bapur ceir y rhif '22,356' ac oddi tano, 'PRESENTED / BY THE / CYMMRODORION / SOCIETY', ill dau wedi eu stampio mewn inc du. O dan hynny, ysgrifennwyd y nodyn canlynol mewn inc brown-ddu:

This volume belonged to the Collection of Welsh Mss. [N<sup>o</sup>. VIII] presented in April 1844 by the Cymmrodorion Society, but was at that time missing having been lent to Aneurin Owen, by whose Son, Mr. W<sup>m</sup>. Owen, of Tan y Gyrt, co. Denbigh it was returned to me, 16<sup>th</sup> April 1858.

F. Madden.<sup>14</sup>

Ar *recto*'r ddalen-rwymo bapur gyntaf yng nghefn y gyfrol, ysgrifennwyd mewn pensil, '149 Folios HK. July 1867 / Ex'm'd WL.'

Trwsiodd y meingefn yn gymharol ddiweddar gan ddefnyddio lledr brown ac arno linellau o offeru plaen ac offeru aur. Gosodwyd tri phanel coch yn y meingefn a llythrennu aur arnynt:

LAWS OF / HYWEL DDA. / (WELSH.)

PRESENTED / BY THE / CYMMRODORION / SOCIETY.

BRIT. MUS. / ADDITIONAL / MS. / 22,356.

Methwyd dod o hyd i unrhyw gofnod ynglŷn â phryd y gwnaethpwyd y gwaith trwsio diweddaraf hwn, ond y mae arddull y gwaith yn awgrymu iddo gael ei wneud yn yr Amgueddfa Brydeinig tua diwedd pumdegau'r ugeinfed ganrif,<sup>15</sup> a gwyddys, felly, y byddai'r rhwymwr wedi ei gyfarwyddo i gopiö dull y rhwymiad blaenorol mor bell ag oedd modd.

### *Dull y testun*

Mesur y testun ar y memrwn yw 180mm × 117mm, gydag ychydig wyro i'r naill ochr a'r llall o'r mesuriadau hynny. Llinellwyd y dail yn ysgafn mewn inc brown, yr un fath â'r inc a ddefnyddiwyd i ysgrifennu'r testun cyfraith. Cynhwyswyd y bloc o ysgrifen o fewn llinellau fertigol sengl fel arfer, ac ar rai dail ceir llinell fertigol yn rhedeg trwy linell y pigladau neu ynteu'n agos ati, e.e. ff. 4, 11v, 20–1v. Digwydd y pigladau ar hyd ymyl allanol y dail yn unig ac fel arfer pigwyd cydiad cyfan ar y tro. Gwelir mwy nag un rhes o bigladau mewn rhai cydiadau, e.e. y mae dwy res yng nghydiad H a phedair yng nghydiad N. Nid oes pigladau i'w gweld yng nghydiad I, am iddynt gael eu colli drwy drimio'r dail, y mae'n debyg. Fel y gellid disgwyl o'r coladiad uchod, y mae pigladau cydiadau Q, R ac S yn gymhleth:

- Q Ni phigwyd ff. 132 gyda gweddill y cydiad.
- R Pigwyd ff. 133 a 134 gyda'i gilydd, ac felly hefyd 135 a 136, a 137 a 138.
- S Pigwyd ff. 139 ar ei phen ei hun (neu o bosibl gyda ff. 148). Pigwyd ff. 140–2 gyda'i gilydd, ac felly ff. 143–4. Anodd bod yn sicr ynglŷn â ff. 145 gan fod ymyl y ddalen mor frwnt.

Saith linell ar hugain o ysgrifen sydd ar y rhan fwyaf o'r tudalennau, ac y mae cydiadau B–I, K–M yn hollol reolaidd yn hyn o beth. Ceir ychydig o amrywiaeth o fewn cydiadau J, N–S, ond ni cheir rhagor na naw llinell ar hugain, na llai na chwe llinell ar hugain ar unrhyw dudalen, ac eithrio ff. 131v a 132.<sup>16</sup> Un bloc o ysgrifen sydd ar bob tudalen. Ni rannwyd y deunydd yn baragraffau, ac nid oes teitlau i gyflwyno adrannau neu draethigau newydd (ac eithrio mewn ychydig fannau yn ail ran y llawysgrif). Lle'r ymdeimlodd y copïydd â dechrau adran newydd yng nghynnwys ei destun, dechreuodd linell newydd ac agor yr adran â llythyren fawr liw gan beri iddi ymestyn dros sawl llinell yn aml.

Defnyddiwyd inc brown ar gyfer ysgrifennu'r testun cyfraith. Amrywia arlliw yr inc gryn dipyn o fan i fan yn y llawysgrif, gan roi'r argraff fod ynddi gyfres o 'ddechreuadau newydd', a newid yn arlliw'r inc yn arwyddo ymroi o'r newydd ar ran y copïydd i'r gwaith ysgrifennu. Y mae'r newid o inc brown cymedrol ar ff. 144 i'r inc brown-lwyd ar ff. 144v (ac ymlaen hyd at ff. 145v) yn drawiadol, a thybir bellach mai gwaith copïydd arall (cyfoeswr i'r prif gopïydd) yw'r tudalennau olaf hyn.<sup>17</sup>

Rhuddellwyd y llawysgrif ar ôl ysgrifennu'r testun. Defnyddiwyd inc coch at sawl pwrpas: ar gyfer llythyren fawr ar ddechrau traethig, yn aml yn ymestyn dros sawl llinell; ar gyfer llythyren fawr ar ddechrau brawddeg (ond nid yw'r defnydd hwn yn gwbl gyson); iii) yn achlysurol ceir pytau coch ar ganol geiriau; iv) ar gyfer yr ychydig deitlau a chyfarwyddiadau a geir yn ail hanner y testun, e.e. 71<sup>24</sup>, 128v<sup>19</sup>, 141v<sup>12</sup>. Defnyddiwyd rhywfaint o inc gwyrdd hefyd: un briflythyren werdd a geir (sef y *P* ar ddechrau traethig newydd, ff. 21v), ond defnyddiwyd tipyn o wyrdd at addurno'r priflythrennau coch ar ff. 16v–48v, a 130v–133. Mewn sawl man yn y testun gadawyd lle ar gyfer priflythyren liw, ond nis llanwyd: e.e. gadwyd bwlch ar gyfer *B* liw ar ff. 6 ond nis llanwyd er bod gweddill y tudalen wedi ei ruddellu. Ni ruddellwyd y tudalennau canlynol o gwbl: ff. 68v, 131v, 132v, 137–40, 144–5.

### *Dull yr ysgrifennu*

Ac eithrio ff. 144v–5v, y mae'r testun wedi ei ysgrifennu gan yr un copïydd, er y byddai golwg gyflym ar y llawysgrif yn awgrymu'n wahanol gan fod y newidiadau aml yn arlliw yr inc a maint a gwedd yr ysgrifen yn rhoi'r argraff mai gwaith sawl copïydd gwahanol sydd yma. Y tebyg yw mai cynnyrch sawl cyfnod o weithgarwch yw'r llawysgrif hon, ac mai dechrau cyfnod arall o ysgrifennu a chael pin newydd sy'n bennaf gyfrifol am y newid llaw ymddangosiadol. Y mae'n amlwg o'r llinellau addurn (*flourishes*) ar yr esgynyddion ar frig y dail, ac ar y disgynyddion ar odre'r dail, nad oedd y copïydd yn ofni arbrofi â'i law, a gall hyn ynddo'i hun gyfrif yn ddigonol am yr aml fân newidiadau yn null a gwedd yr ysgrifen. Y mae hyder y copïydd wrth ysgrifennu, a'i arddull bersonol wrth ffurfio rhai llythrennau, yn awgrymu ei fod gopiyydd profiadol, a dengys y llinellau Lladin ar ff. 144r ei fod yn ysgrifennu Lladin yr un mor hyderus â Chymraeg. Nid oes rheswm dros beidio â phriodoli'r llaw fawr ar ff. 131v i'r un copïydd hwn a gellid awgrymu, felly, ei fod yn gyfarwydd ag ysgrifennu rholiau llys.<sup>18</sup> Yn ôl yr arfer yng Nghymru, rhuddellwyd y gwaith gan y copïydd ei hun, ar ôl gorffen ysgrifennu'r testun.

Llaw destun fawr heb fod yn rheolaidd iawn a geir yma, a honno'n tueddu i fod yn gron. Y mae iddi rai nodweddion diddorol:

- i) Ceir tuedd i wneud triongl trwm ar ben yr esgynyddion.
- ii) Ceir tuedd i redeg llythrennau i'w gilydd. Fel unrhyw law o'r cyfnod y mae'r cyfuniadau *da, de, do, d6, dy* yn rhedeg i'w gilydd fel arfer, ond y mae'r duedd i redeg *ar ac ac* i'w gilydd yn nodwedd eithaf anghyffredin mewn llawysgrifau eraill.
- iii) Y mae *n* neu *m* ar ddiwedd gair yn aml yn magu 'troed' sy'n peri bod minim olaf y llythrennau hyn ar ffurf '3'.
- iv) Y mae *-s* ar ddiwedd gair yn aml yn magu bachyn.
- v) Fel y gwelir o'r drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth y testun, *6* yw'r symbol mwyaf cyffredin i ddynodi /u/; ceir *w* yn achlysurol ar ddechrau gair, ond y mae'n brinnach o lawer ar ganol neu ar ddiwedd gair. Ar wahân i'r ffurf *Howel* (sef gair cyntaf un y testun) a dwy enghraifft o *Pwy* (lle y mae'r *w* yn dilyn priflythyren goch), ni cheir enghraifft o *w* ar ganol nac ar ddiwedd gair nes cyrraedd ff. 144v.
- (vi) Ffurfiwyd y priflythrennau nad ydynt yn rhai lliw drwy ddyblu strociau (h.y. un strôc yn inc y testun a strôc arall mewn inc lliw). Yr oedd ffurfio priflythrennau yn y dull hwn yn arfer a gysylltir ag ysgrifennu dogfennau, ond teg nodi iddo fynd yn bur gyffredin mewn llawysgrifau o fathau eraill erbyn y bymthegfed ganrif.

Ceir llawer o dalfyriadau yma, yn bennaf er mwyn arbed yr undonedd o ysgrifennu'n llawn eiriau sy'n digwydd yn aml o anghenraid mewn testun o'r math hwn. Defnyddir yr arwydd  $\lambda$  yn helaeth ar gyfer atal a chwtogi dyrnaid o eiriau sy'n digwydd dro ar ôl tro, e.e. *kλ* (kyfreith), *keλ* (keinha6c), *kλeu* (kyfreitheu), *aghyfλloni* (aghyfreithloni). Ceir ambell enghraifft o ysgrifennu llythyren â bachyn i ddynodi talfyriad, e.e. *t'* (tervyna).

Ceir lliaws o enghreifftiau o ddefnyddio llinell uwchysgrifol i ddynodi *n*, neu weithiau *m*, e.e. *ādana6*, *kās*, *kō6t*, *nāyn*; ac fe'i defnyddir hefyd mewn cyd-destunau eraill weithiau, e.e. *Hō* (Howel), *hl* (ha6l). Yn achlysurol ceir llythyren uwchysgrifol i ddynodi bod llafariad (*u* neu *y*) yn eisiau o'i blaen, e.e. *g6neuth'*, *g6neuth'edic*, *odieith'*, *lyth'*.



Ceir ychydig o enghreifftiau o'r byrfodd safonol *p* i ddynodi *pro-*, e.e. *p* (pro), *p*post (propost). Llauer mwy anarferol yw'r defnydd ar *.p.* i ddynodi *per-*, e.e. *.p.thyn* (perthyn), *.p.son* (person), *.p.thynno* (perthynno). Defnyddir yr arwydd safonol *z* ar gyfer atal a chwtdogi geiriau yn y llinellau o farddoniaeth Ladin ar ff. 144r, e.e. *legibz* (legibus), *quoqz* (quoque), *sum̄at* (sumperat). Yn ogystal, ceir enghraifft o'r byrfodd safonol *t̄c* (et cetera), a sawl enghraifft o'r arwydd safonol *7* i gyfleu *-er*, e.e. *ams7*, *ams7oed*.

Atalnodwyd y testun yn helaeth. Y mae'r rhan fwyaf o'r atalnodau yn yr un inc â'r testun, ond ychwanegwyd rhai eraill wrth ruddellu. Yr atalnod mwyaf cyffredin yw [:] ond y mae [-] a [.] yn digwydd yn eithaf cyffredin hefyd, ac fe'u ceir lle y defnyddir unrhyw un o'n hatalnodau modern. Er y ceir yr argraff weithiau bod [-] a [.] yn dynodi toriad llai na [:], mewn manau eraill ymddengys fod y nodau hyn yn amrywio'n ddiamod. Yn aml y mae [-] yn magu cynffon, ac fe'i defnyddir ynghyd â chyfuniad o'r atalnodau eraill, e.e. [· · ·], fel arfer er mwyn llenwi llinell ar ddiwedd adnod, yn enwedig pan fo'r adnod honno hefyd yn ddiwedd traethig, nes creu dyfais addurniadol. Nid oes atalnodau i ddynodi cwestiwn nac araith union. Defnyddir yr arwydd [z̄] i ddynodi bod gair wedi ei rannu dros ddwy linell, ond hepgorir yr arwydd yn eithaf aml. Defnyddir [.] a [-] at bwrpas heblaw atalnodi, sef oddeutu rhifau rhufeinig, e.e. *.ii;* *.xl. a .ix C̄* mylyned.

Dull arferol y copiyydd o ychwanegu rhywbeth i'r testun yw trwy roi saeth (*caret*) yn y man priodol (fel arfer yn yr un inc â'r testun, ond weithiau mewn inc coch), a chynnwys yr ychwanegiad uwch ei ben, rhwng y llinellau, neu weithiau ar ymyl y ddalen. Ychwanegwyd llythrennau unigol, geiriau cyfan, a hyd yn oed gymalau yn y dull hwn. Ceir sawl enghraifft o ychwanegiad wedi ei wasgu rhwng y llinellau ond heb saeth i ddynodi ei leoliad bwriadedig. Ychwanegwyd rhai geiriau gan ddwylo diweddarach: eu dull arferol hwy yw nodi'r ychwanegiad ar ymyl y ddalen ynghyd ag arwydd o'i flaen, a gosod un arwydd yn y man priodol yn y testun.

Dileodd y copiyydd wallau yn ei destun mewn sawl ffordd: i) trwy 'rwbio allan' yr elfen anghywir, a naill ai ailysgrifennu dros yr un man neu adael bwlech; ii) trwy danddotio'r elfen anghywir; iii) trwy dynnu llinell drwy'r elfen anghywir; iv) trwy danddotio'r elfen anghywir yn ogystal â thynnu llinell drwyddi; v) trwy ysgrifennu llythyren gywir dros un anghywir. Fel arfer defnyddiodd y copiyydd yr un inc â'r testun i gywiro gwallau, ond y mae ambell gywiriad mewn inc coch.

Erys llauer o wallau yn y testun na sylwodd y copiyydd arnynt, gan gynnwys: i) geiriau angenrheidiol i synnwyr y testun wedi eu hepgor; ii) enghreifftiau o'r copiyydd yn camddarllen neu'n camddeall ei ffynhonnell; iii) enghreifftiau o haplograffeg, e.e. *Tryd* (Trydyd); iv) enghreifftiau o dditograffeg, e.e. *ia6a6nn* (ia6n). Cywirwyd rhai o'r gwallau hyn gan ddwylo diweddarach.

Addurnwyd y llawysgrif yn helaeth, yn bennaf mewn inc coch, ond hefyd mewn gwyrdd yn ogystal â'r inc brown a ddefnyddiwyd i ysgrifennu'r testun. Y mae'r addurnwaith o bob math yn fwy cyffredin yn hanner cyntaf y llawysgrif ac yn prinhau'n sylweddol tua'r diwedd. Crybwyllwyd eisoes y defnydd addurniadol a wnaed ar atalnodau. Y prif fath arall o addurn yw'r llinellau-addurn a ychwanegwyd at briflythyren ar ddechrau traethig, a gall y rhain ymestyn am ran sylweddol o hyd y ddalen, e.e. y *K* ar ff. 6, y *P* ar ff. 16v. Weithiau y mae'r llinellau-addurn hyn yn gorffen â llun o anifail (dychmygol yn aml), a dyfeisiwyd llun dyn o gwmpas dwy briflythyren gyfagos ar ff. 32v.

Addurnwyd ymylon y dail yn helaeth. Gweithiwyd patrwm cymhleth ond amrwd mewn inc coch ar ff. 54v–55, er enghraifft, ac mewn inc brown ar ff. 12. Weithiau ceir ymgais i ddynwared (mewn dull digon cyntefig) fath ar addurn ymyl-y-ddalen sy'n bur gyffredin yn llawysgrifau'r bymthegfed ganrif, e.e. ff. 42. Ceir addurn ar lun cadwyn yn aml, e.e. ff. 4–5, 122v–123, ac y mae'r rhain fel arfer wedi eu gweithio'n eithaf celfydd. Digwydd llawer o luniau bach ar ymylon dail y llawysgrif hon—yn bennaf, traed, dwylo, anifeiliaid a bwystfilod rhyfedd, a phennau dauwynebog.

Rhan arall o ddi-ddordeb y llawysgrif hon yw'r ffaith bod ei dail yn frith o nodiadau gan ddwylo eraill. Y mae ff. 1 wedi ei ddefnyddio ychydig ar gyfer profi pin, ac yn cynnwys yr enw *Ho' ap Res*. Ar ff. 2r ceir *Rees thomas Lewis esquire pro[?] Regina Elisabeth*, ynghyd â *Rex ineternium* yn yr un llaw (?). Digwydd *Res ap thomas ap morgan – 1000Li* mewn llaw o'r unfed ganrif ar bymtheg, a pheth ymarfer ysgrifennu rhifau ar frig y ddalen yn yr un llaw. Tua chanol yr un tudalen mewn llaw arall ceir *In [nomine patris ?]*, sef rhagor o waith profi pin.

Ceir nodiadau mewn sawl llaw ar ymylon dail y testun cyfraith. Ysgrifennodd llaw o'r bymthegfed ganrif y geiriau *nota bene* ar frig ff. 73. Cyfeiria Gwenogvryn Evans at 'two marginal notes in the hand of Gr. Dwnn', ar ff. 16v a 59;<sup>19</sup> fodd bynnag o gymharu'r nodiadau hyn â llaw Gruffudd Dwnn yn LIGC Llanstephan 40, gwelir nad ei law ef sydd yma ond yn hytrach rhyw law arall o'r un cyfnod, sef tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Ysgrifennodd yr un llaw hon yr enw *gr. ap Jeuan ap Res* (ff. 16v, a cf. ff. 18v, 58, 74v–75 etc.),<sup>20</sup> a hefyd y geiriau *gwaclaw gorcheidwad camoresgynwr* ar ff. 59 er tynnu sylw at gynnwys y testun yn y fan honno.

Gosododd llaw ysgrifenyddol ddestlus o ail chwarter yr unfed ganrif ar bymtheg benawdau ar ymylon sawl dalen hyd at ff. 50v, e.e. ff. 9, 10, 22v–26; a cheir nodiadau mewn llaw italig arall o ddiwedd y ganrif honno ar ff. 48, 97, 114 etc.

Ceir nifer o nodiadau mewn llaw o gyfnod Edward Lhuyd—ei law ef ei hun o bosibl mewn ambell achos—i gyd at bwrpas cywiro darlenniadau gwallus yn y testun, a cheir sawl nodyn i'r un diben hefyd yn llaw Moses Williams, e.e. ar ff. 119 a 147v.<sup>21</sup> Ar ff. 132–43 ceir ychydig nodiadau pensil yn llaw Gwenogvryn Evans, i ddiben lleoli cynnwys y dail hynny yn ail gyfrol *Ancient Laws*.<sup>22</sup>

## Hanes y Llawysgrif

Fel y gwelwyd ym mhennod 2 uchod, y mae'r galw ar Gwenog, Gwnnen a Dewi Breff yn *S a Tim*, a'r enwi ar gwmwd Gwynionydd-uwch-cerdin sy'n cyd-ddigwydd â hynny weithiau, ynghyd â'r cyfeiriad yn *Tim at rol dauid ll6yd* (ff. 21v) y mentrwyd ei uniaethu â dosbarthwr hysbys a weithredai yn y cwmwd hwnnw yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg, oll yn ein harwain i gredu mai rywle yn hanner uchaf Dyffryn Teifi y gwelodd y ddwy lawysgrif hyn olau dydd am y tro cyntaf a hynny, fel y gwelwyd, tua chanol y bymthegfed ganrif.<sup>23</sup>

Rhesymol fyddai tybio i'r llyfrau cyfraith hyn aros yn yr ardal honno am ryw gyfnod ar ôl eu hysgrifennu, a'u defnyddio yno gan ddsbarthwyr lleol o bosibl, ond nid oes dim pendant yn hysbys am hanes cynnar *S na Tim* mewn gwirionedd. Defnyddiwyd llyfrau tebyg iawn eu cynnwys iddynt yn yr achosion yng Nghydweli yn 1510 a Chaeo yn 1540 y cyfeiriwyd atynt eisoes, ond rhaid pwysleisio eto yn y fan hon nad oes unrhyw awgrym mai *S*

neu *Tim* a ddefnyddiwyd yn y naill na'r llall o'r achosion hynny.<sup>24</sup> Fel y gwelwyd uchod, torrodd pedwar dyn eu henwau ar ddail *S* tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg—Rhys Thomas Lewis, Rhys ap Thomas ap Morgan, Howel ap Rhys a Gruffudd ab Ieuan ap Rhys—ac er na wyddys natur perthynas y rhain â'r llyfr, y mae'n ddigon posibl bod un neu fwy ohonynt yn berchen arno, yn eu tro.<sup>25</sup> Gwyddys, er enghraifft, fod un Gruffudd ab Ieuan ap Rhys ymhlith disgynyddion Rhys ab Ieuan Fychan, dosbarthwr hysbys a fu'n weithredol mewn amryw o swyddogaethau yn sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg a rhai cyntaf y bymthegfed ganrif,<sup>26</sup> ac nid yw'n amhosibl felly mai at ddefnydd aelod o'r teulu hwnnw y comisiynwyd *S* yn y lle cyntaf—ond ni oroesodd unrhyw dystiolaeth bendant i gefnogi'r awgrym hwn.

Ni wyddys dim am ei hanes wedyn tan ddechrau'r ddeunawfed ganrif, ond o'r adeg honno ymlaen y mae modd olrhain symudiadau'r llawysgrif yn eithaf manwl, a hithau erbyn hynny'n wrthrych diddordeb hynafiaethol yn hytrach na llyfr at ddefnydd ymarferol cyfreithiwr wrth ei waith. Er na wyddom bellach sut na phryd y cafodd Edward Lhuyd afael arni, yr oedd yn sicr yn ei feddiant erbyn ei farwolaeth annhymig ym mis Mehefin 1709,<sup>27</sup> oherwydd gwelir ar ff. 3 y ddau farc sy'n arwydd sicr bod llawysgrif yn rhan o gasgliad Lhuyd adeg ei farw, sef argraff sêl (y sgutor, y mae'n debyg) mewn cwyr coch ynghyd â rhif (54 yn achos *S*) mewn inc du.<sup>28</sup> Amgylchiadau marw Edward Lhuyd a lywiodd hynt y llawysgrif o'r adeg honno ymlaen. Ei fwriad, fe gredir, oedd cymynroddi ei gasgliad helaeth o lyfrau a llawysgrifau i'w rhannu'n gyfartal rhwng Coleg Iesu a Phrifysgol Rhydychen,<sup>29</sup> ond bu farw'n ddyledwr a heb wneud ewyllys; yn sgil hynny aeth llyfrau Lhuyd i'r Brifysgol i dalu ei ddyledion argraffu a rhoddwyd ei lawysgrifau ar werth. Prynwyd y cyfan yn 1716 gan Syr Thomas Saunders Sebright, y pedwerydd barwnig, am y swm anrhydeddus o £80, ond nid cyn i'r Brifysgol a Choleg Iesu wrthod eu prynu—ffaith hynod, efallai, o ystyried cyfoeth arbennig y casgliad a dymuniadau Lhuyd ar ei gyfer.<sup>30</sup>

Er i ddeiliadaeth teulu Sebright o lawysgrifau Lhuyd ddenu beirniadaeth gyfoes lem o rai cyfeiriadau,<sup>31</sup> mewn gwirionedd y mae pob rheswm dros gredu bod y teulu'n llawn sylweddoli gwerth y casgliad, ac am y rheswm hwnnw y buont mor barod nid yn unig i ganiatáu i ysgolheigion ymgynghori â'r llawysgrifau yn y llyfrgell yn Beechwood, cartref y teulu yn swydd Hertford, ond hefyd i roi eitemau unigol allan ar fenthyg.<sup>32</sup> Ymhlith y rhai a fanteisiodd ar eu caredigrwydd yn hyn o beth, gellid nodi'n benodol William Wotton a Moses Williams, gan fod *S* ymhlith y llawysgrifau a ddefnyddiwyd ganddynt wrth lunio *Leges Wallicae*.<sup>33</sup>

Y mae ar glawr o hyd ddau gatalog o gasgliad Lhuyd-Sebright a luniwyd yn ystod y ddeunawfed ganrif. Gwaith yr hanesydd Thomas Carte yw'r cyntaf ohonynt, *c.* 1736,<sup>34</sup> ac er mor anodd yw adnabod eitemau yn y catalog hwn,<sup>35</sup> gellid bod yn bur sicr mai *S* yw'r eitem a ddynodir fel a ganlyn ar ff. 387:

54 240 – D<sup>o</sup> [= MS.] in vellom. p.286 – in various hands, seems to be Howel Da's Laws

Lluniwyd yr ail gatalog, o'r llawysgrifau Cymraeg a Cheltaidd yn y casgliad, gan y Parch. John Jones, cymrodor o Goleg Iesu, yn 1781.<sup>36</sup> Er bod y catalog hwnnw'n llawer mwy manwl nag un Carte, ni ellir adnabod *S* ymhlith yr eitemau a restrwyd. Nid oes raid tybio iddi fynd o

feddiant teulu Sebright erbyn 1781, fodd bynnag, oherwydd gwyddys iddi gael ei gwerthu, gyda chnewyllyn llyfrgell Beechwood, mewn arwerthiant ym mis Ebrill 1807.<sup>37</sup>

Dechreuwyd eisoes ar y broses o chwalu llyfrgell Beechwood yn 1782, pan gyflwynodd Syr John Sanders Sebright, y chweched barwnig, yr holl lawysgrifau Gwyddelig yn y casgliad i Goleg y Drindod, Dulyn. Erbyn 1797, yr oedd ei olynnydd, y seithfed barwnig, wedi trosglwyddo cyfran helaeth o lawysgrifau Cymraeg Lhuyd i Thomas Johnes o Hafod—ond nid pob un ohonynt fel y credai Johnes ar y pryd.<sup>38</sup> Ymddengys nad oedd gan y seithfed barwnig yr un diddordeb â'i gyndeidiau yn llyfrgell y teulu, oherwydd gwerthwyd cnewyllyn llyfrgell Beechwood, sef casgliadau Edward Lhuyd a Syr Roger Twysden, gan Leigh a Sotheby mewn arwerthiant a ddechreuodd ar ddydd Llun, 6 Ebrill 1807. Hyd y gellir gweld o ddisgrifiadau cryno'r catalog swyddogol, un llawysgrif yn unig o Gyfraith Hywel a werthwyd, sef lot 1231, 'The Laws of Howel da, in Welch, an Antient Manuscript, *on vellum*', a brynwyd am £1. 3s. 0d gan un o'r enw Kimpton, yn ôl copi Owen Jones (Owain Myfyr) o gatalog yr arwerthiant.<sup>39</sup> Ni wyddys fawr ddim am y Kimpton hwn, ond ymddengys yn bur sicr mai asiant ydoedd a weithredodd ar ran Owain Myfyr yn y cyd-destun hwn,<sup>40</sup> oherwydd yn nhrydedd ran y *Myvyrian Archaiology* (1807) ceir y nodyn canlynol yn rhagflaenu testun o 'TRIODD [*sic*] CYVRAITH' sy'n amlwg wedi ei dynnu o *S* (ond bod yr orgraff wedi ei newid):

Sev y triodd canlynawl á dynwyd o gyvysgriv ar groen o Gyvreithiau Hywel Dda, yr hwn lyvyr á brynoedd O. Iones yn Llundain, Ebrill y 12. 1807. pan werthwyd y rhan oedd ar ol o ysgrivlyvrau Edward Llwyd, yn meddiant Sir John Sebright.<sup>41</sup>

Ymddengys i'r llawysgrif aros ym meddiant Owain Myfyr hyd ei farwolaeth yn 1814 ac iddi gael ei phrynu maes o law, ynghyd â gweddill ei gasgliad, gan ail Gymdeithas y Cymmrodorion am y swm o £50 a godwyd trwy gronfa a sefydlwyd gan Syr Watkin Williams Wynn a'r Esgob Burgess. Ym mis Mai 1822 cludwyd llyfrgell Owain Myfyr i Neuadd y Cymmrodorion i'w hychwanegu at y casgliad gwerthfawr a oedd gan y Gymdeithas eisoes yn yr Ysgol Gymreig. Yn y rhagymadrodd i'r 'Catalogue of the Myvyrian MSS belonging to the Cymmrodorion' a gyhoeddwyd y flwyddyn honno, tynnodd William Owen Pughe sylw arbennig at *S*, gan gyfeirio ati fel 'the most valuable of any one book in the whole collection'.<sup>42</sup>

Daeth ail Gymdeithas y Cymmrodorion i ben yn 1843, ac yn y cyfarfod olaf trefnwyd cludo eu holl lyfrau a phapurau i'r Amgueddfa Brydeinig—ond nid aeth *S* yno gyda gweddill y casgliad. Y mae'r nodyn ar *recto* ei thrydedd ddalen-flaen bapur (a ddyfynnwyd eisoes) yn adrodd gweddill ei hanes:

This Volume belonged to the Collection of Welsh MSS. [N<sup>o</sup>. VIII] presented in April 1844 by the Cymmrodorion Society, but was at that time missing having been lent to Aneurin Owen, by whose Son, Mr W<sup>m</sup>. Owen, of Tan y Gyrt, co. Denbigh it was returned to me, 16<sup>th</sup>. April 1848.

F. Madden<sup>43</sup>

## Orgraff a Seinyddiaeth

Un o nodweddion mwyaf trawiadol orgraff *S* yw ei hanghysonder, a grisielir yn y modd yr ysgrifennodd y copiyydd yr un gair mewn nifer o wahanol ffyrdd; er enghraifft, ceir saith amrywiad ar *anifeil*, saith amrywiad ar *henaḅdyrieid*, pum amrywiad ar *ysgolheic* ac wyth amrywiad ar *eithyr*—a gellid bod wedi dewis amryw o enghreifftiau eraill.<sup>44</sup> Y mae anghysonder o'r fath yn cymhlethu unrhyw drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth, a chymylir y sefyllfa ymhellach gan y ffaith bod *S* yn destun cyfansawdd, nid yn unig yn yr ystyr i'r copiyydd dynnu, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ar nifer o ffynonellau gwahanol o wahanol fathau ac o wahanol gyfnodau wrth iddo lunio ei lyfr,<sup>45</sup> ond hefyd yn yr ystyr bod lle i gredu i'r testun gael ei chopïo mewn sawl cam.<sup>46</sup> O'r herwydd ni chynigir yma ond disgrifiad bras o brif nodweddion yr orgraff, gan ganolbwyntio'n arbennig ar elfennau anghyffredin, a hefyd ar yr elfennau hynny y gellid o bosibl eu dehongli'n nodweddion tafodieithol, gan gofio'r awgrym a wnaed eisoes ei bod yn bur debygol i'r llawysgrif hon gael ei chopïo rywle ym mharthau uchaf Dyffryn Teifi tua chanol y bymthegfed ganrif.<sup>47</sup>

### *Y llafariaid*

**/a/** Digwydd *a* yn gyson ym mhob safle: *arch, kalan, brathedic, bḅa*. Ceir ambell enghraifft o *aa* i ddynodi /a:/: *aa, taad, amlykaa* (a derbyn bod /a-a/ wedi troi'n /a:/ erbyn cyfnod ysgrifennu *S*, cf. ffurfiau megis *katarnha, kanhatta*), ond nodwyd hefyd un enghraifft o *aa* am /a/ fer ddiacen: *bynaac*. Un o nodweddion tafodiaith godre Ceredigion yw bod /a/ yn gallu troi'n /e/ yn y goben acennog,<sup>48</sup> a cheir ambell awgrym o hyn yn *S* mewn ffurfiau fel *kenaḅl, deni*. Nodwedd arall ar y dafodiaith dan sylw yw'r duedd i /a/ mewn sillaf ddiacen wanhau ac ymdebygu i /ə/.<sup>49</sup> Nid tuedd a gyfyngir i /a/ mo hon, fodd bynnag: y mae /e/ ac /ə/ mewn sillafau diacen yn arddangos yr un duedd yn union. Ceir lliaws o enghreifftiau o hyn yn *S*, a dynodwyd y llafariad aneglur (sef ffurf wan ar /a/ neu /e/ neu /ə/) gan *e* neu *y* neu *a*: *yberffraḅ, ydnabod, ygoret, egoret, prysḅylyḅ, ambryno, ssanhḅyraḅ, keffinyd, esgefeint*.

**/e/** Y symbol arferol ym mhob safle yw *e*: *lle, eglḅys, tervynny, myned*. Ceir rhai enghreifftiau o *ee* i ddynodi /e:/: *ree, veel*, ond cf. hefyd *eenḅi, eebediḅ* lle nad oes unrhyw arwyddocâd seinegol amlwg i'r ddeugraff. Ceir rhai enghreifftiau o *ae, ei, eu* am /e/ yn y goben acennog: *diofraedaḅc, deira, deuheu*. Anodd esbonio'r rhain oni bai eu bod yn ffurfiau a luniwyd trwy gydweddiad, a'r copiyydd yn gyfarwydd ag ysgrifennu *ae, ei, eu* am seiniau a droes yn /e/ ar lafar: *petheu* /peḅe/, *tystoliaeth* /təstoljeḅ/ etc.<sup>50</sup> Ar y duedd i /e/ fynd yn aneglur mewn sillafau diacen, gw. dan /a/. Er bod tuedd yn y dafodiaith dan sylw i /e/ droi'n /i/ neu'n /ə/ yn y goben acennog,<sup>51</sup> ychydig o dystiolaeth o hyn a welir yn *S*, ond cf. y ffurf *chyghyllaḅr*.<sup>52</sup>

**/o/** Digwydd *o* yn gyson ym mhob safle: *moch, bonclyst, offeiraf, kadno*. Ceir un enghraifft o *oo*: *dootrefyn*, ond y mae'n bosibl mai ôl tarddiad y gair sydd yma (o *dyodrefn*).<sup>53</sup> Sylwyd ar un enghraifft o *ao*: *laoscḅrn*, ond anodd esbonio'r ffurf hon a gall mai gwall ydyw. Gw. dan /u/ am y cymysgu rhwng /o/ ac /u/ sy'n nodweddu'r testun.

**/u/** Y symbol arferol yw mhob safle yw *ḅ*: *gḅr, llḅdyn, gḅrthotto, amḅs*. Ceir rhai enghreifftiau o *w* ar gyfer sain cyntaf gair: *wrthḅyneb, wrth*; a nodwyd rhai enghreifftiau o *u* mewn geiriau unsill: *tunc, huch*. Ymhlith nodweddion y dafodiaith dan sylw yw'r duedd i /o/ yn y sillaf

ddiacen o flaen y goben ac yn y goben acennog droi'n /u/; yn ogystal, gall /u/ droi'n /o/ yn y sillaf olaf ddiacen,<sup>54</sup> ac un o nodweddion mwyaf diddorol orgraff *S* yw lluosogrwydd yr enghreifftiau o amrywio rhwng /o/ ac /u/, a hynny ym mhob safle bron: *born, cobyll, komod, attebor; m6ch, k6lled, h6lir, kyng6r*. Gellid tybio, felly, bod y ddwy sain hyn yn agos iawn at ei gilydd yn nhafodiaith y copïydd—hynny yw, ei fod yn ynganu /o/ yn fwy crwn ac /u/ yn fwy agored nag a wneir mewn Cymraeg Diweddar safonol. Y mae'r ffurf *cho6rsi* fel petai'n awgrym pellach i'r un cyfeiriad hwnnw.

**/i, y, u/** Ni wahaniaethir yn nhafodiaith godre Ceredigion heddiw rhwng /i/ ac /y/, ac y mae'n bosibl nad oedd y gwahaniaeth i'w glywed ychwaith adeg ysgrifennu *S*: eto dengys yr orgraff fod gan y copïydd ryw ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth traddodiadol rhwng y seiniau hyn, ac felly ymdrinnir â hwy ar wahân yma. Y mae'n bur sicr, fodd bynnag, fod /u/ wedi diflannu erbyn cyfnod ysgrifennu *S*, ac ni wahaniaethir o gwbl yn orgraffyddol rhwng y sain hanesyddol hon ac /y/; gan hynny ymdrinnir ag /y/ ac /u/ gyda'i gilydd yma.

**/i/** Ceir *i* ym mhob safle: *ing, blinder, milldireu, beichogi*. Fodd bynnag, digwydd y yn gyffredin hefyd (er yn llai aml yn y goben acennog): *try, dyr6est, ryfedi, milldyr*. Ceir ychydig o enghreifftiau o *u* mewn sillafau diacen: *truchan6r, kyssygreduc*, a cheir *u* a *v* yn ffurfiau 3 lluosog yr arddodiad *i*: *udunt, vdunt*.<sup>55</sup> Olion orgraff hŷn, y mae'n debyg, sy'n cyfrif am ffurf fel *aneueil*, gan yr arferid *e* am /i/ mewn Cymraeg Canol Cynnar.<sup>56</sup> Nodwyd hefyd rai enghreifftiau o *ei* am /i/, *kyssyfeina6l, ergeitta6*; anodd esbonio'r rhain oni thybir iddynt ddigwydd trwy gydweddiad, a'r copïydd yn gyfarwydd ag ysgrifennu *ei* am seiniau a droes yn /i, i:/ ar lafar: *keinh6c /kinog/, eisteu /iste/* etc.<sup>57</sup>

**/y, u/** Y symbol mwyaf cyffredin ym mhob safle yw *y*: *byd, kydrycha6l, penyd; syl, ygein, klystgochion, pally*. Ond ceir *u* hefyd, yn ogystal ag *v* ac *i*: *tust, klist, pvnt, ugeint, bigel, vchel, uchel6r, vfullda6d, gestull, alldit, kymvn*. Sylwyd ar un enghraifft o *6y*: *llofr6yd*. Dynodwyd y sain ddwbl /y-i/ gan *yi* neu *iy*: *dlyit, dyliyr*, ac /ə-u/ gan *yu* neu *uu*: *dyundeb, duundeb*. Y mae tuedd i /y, u/ droi'n /yu, u/ o flaen /x/: *yuchel6r, by6ch*—er nad yw hyn yn digwydd yn gyson ychwaith: *buch, vch*.<sup>58</sup>

**/ə/** Y symbol arferol yw *y*: *dy, yma, bacyneu, llythya6l, gyfne6id*. Ceir enghreifftiau hefyd o *v, e, u* ac *i*: *en, u* (bannod), *vndi, mun6ent, kebyd, ffurnigr6yd, difarno*. Yn y dafodiaith dan sylw yma, y mae tuedd i /i, y, u/ droi'n /ə/ mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog,<sup>59</sup> ond gan mai'r un symbolau a ddefnyddir yn *S* i ddynodi /i, y, u, ə/ fel ei gilydd, ni ellir bod yn sicr bob tro o'r seinyddiaeth a fwriadwyd. Mewn perthynas â'r duedd leol i /ə/ yn y goben acennog droi'n /u/,<sup>60</sup> sylwyd ar un enghraifft: *b6g6th*. Y mae'n bosibl bod ffurfiau fel *kymodoc, manoli*, wedi eu llunio trwy gydweddiad â *kymod, manol*; ar amrywio /o/ ac /u/, gw. dan /u/.

Dangoswyd -w ansillafog ddiwedol bron yn ddieithriad yn y testun hwn, ac 6 yw'r symbol arferol: *kaml6r6, med6*. Nodwyd un enghraifft o *w*: *chadw*.

Ysgrifennwyd y llafariad brosthetig yn gyffredin yn *S* (ond nid bob tro), ac y neu *e* yw ei ffurf arferol: *emenyn, enifer, ynamyn, ysgrubyl*. Gw. hefyd y nodyn ar y llafariad aneglur mewn sillafau diacen, dan /a/.

Ysgrifennwyd y llafariad epenthetig yn y sillaf olaf ddiacen yn amlach na pheidio yn *S*, ac y neu *i* yw ei ffurf arferol: *anadyl, bra6dlyfyr, chicdyscil*.<sup>61</sup> Fe'i hysgrifennwyd yn aml

hefyd yn derfynol mewn geiriau unsill, ac ymdebyga fel arfer i'r llafariad flaenorol, neu i ail elfen y ddeusain: *ankar, kefen, brôdyr*; ond digwydd y ac *i* yn y safle hwn hefyd: *bobyl, diledif*. Er ei bod yn arferol i'r llafariad epenthetig ddiplannu wrth ychwanegu sillaf(au) ar ddiwedd gair, nodwyd sawl enghraifft o'i hysgrifennu mewn safle canol yn *S*: *amdifffynbeleid, berechen, gyffiredin, ystylys*. Anghyffredin iawn yw cael llafariad epenthetig yn y sillaf gyntaf, ond nodwyd rhai enghreifftiau yn *S*: *talodi, berenhin, gyrôytro, tyric*.

### ***Y lled-llafariaid***

**/j/** Digwydd *i* a *j* i ddynodi /j/ ddechreuol: *iachau, iarll, jaôn, jessu*. Ym mhob safle arall, defnyddir *i* neu *y*: *anian, anghyfieithus, taryan, anyanaôl*. Sylwyd ar rai enghreifftiau prin o *u* yn y sillaf olaf ddiacen: *kyduaô, henaôdyrueid*; ynghyd ag un enghraifft o *e*, *ôybydeid*.

**/u/** Y symbol arferol ym mhob safle yw *ô*: *gôerth, pedôeryd, gôassanaeth, treôir*. Ceir ychydig enghreifftiau o *w* ar ddechrau ac ar ganol gair: *wlad, waedlydyaô, howel, keidweid*; a nodwyd un enghraifft o *v*: *vyr*. Ar amrywio /u/ a /v/, gw. o dan /v/.

### ***Colli llafariaid***

Nodwedd sy'n adlewyrchu arfer tafodieithol, y mae'n debyg, yw'r ffaith bod /a, e, y, j/ yn tueddu i ddiplannu o'r sillaf ddiacen sy'n rhagflaenu'r brif acen, neu rhwng rhag-acen a'r brif acen: *diôradôyd, chrenyd, knefin, dbededic, amprodorion*. Collir /j/ yn gyffredin o'r sillaf olaf ddiacen: *cleifon, kadeiraô, keinaôc*.<sup>62</sup> Sylwyd ar ambell enghraifft o golli /e/ ac /a/ o'r safle hwn hefyd: *gyfiaôndr, barnt*. Y mae tuedd i'r cyfuniad /guo/ droi'n /go/, gan roi ffurfiau Cymraeg Diweddar: *gorcheidôat, goresgyn*, ond ceir nifer o ffurfiau'n /gua/ hefyd: *gôarcheidôad*.<sup>63</sup> Er bod colli llafariaid acennog yn anghyffredin, sylwyd ar rai enghreifftiau yn *S*: *chymerssant, drôy*.<sup>64</sup> Fodd bynnag, y mae tuedd bendant yma i /ə, y/ acennog ddiplannu ar ôl /u/: *tyôny, eôllys, adneôdaôd*. Pan ddigwydd dwy llafariad debyg yn nesaf at ei gilydd, neu wedi eu gwahanu gan /h/, tueddir i'w cywasgu'n un: *gôard, gôan, dyndeb, dunaô, dlir*.

### ***Y deuseiniaid***

Yn y modd y dynodir y deuseiniaid y ceir yr anghysonder mwyaf yn orgraff *S*: yn y cyddestun hwn y gwelir gliriaf duedd y copiïdd i ddilyn ei glust yn hytrach na thraddodiad yr iaith ysgrifenedig. Adlewyrcha'r orgraff ddwy duedd amlwg yn nhafodiaith yr ardal dan sylw, sef symleiddio deuseiniaid yn llafariaid hirion,<sup>65</sup> a'r ffaith na chlywir unrhyw wahaniaeth rhwng /e, i, y, u/ fel ail elfen deusain.

**/ae, ai, au/** Ni wahaniaethir rhwng y seiniau hyn ar lafar yng ngodre Ceredigion heddiw, a chymysgir rhyngddynt yn orgraffyddol yma. Cymhlethir y sefyllfa ymhellach gan fod /ae, ai/ yn troi'n /ei/ dan rai amgylchiadau yn y dafodiaith dan sylw,<sup>66</sup> yn ogystal â'r ffaith i /ei, eu/ fynd yn fwy agored yn ystod y cyfnod canol nes rhoi /ai, au/. Adlewyrchir hyn yn *S* yn y modd y cymysgir ac yr amrywir y dull o ddynodi /ae, ai, au/ ac /ei, eu/ nes ei gwneud yn amhosibl penderfynu ai amrywiad orgraffyddol sydd y tu ôl i ambell ffurf neu ynteu seinyddiaeth arbennig. Gan hynny, dylid darllen yr amlinelliad hon yn gyfochrog â'r adran ar /ei, eu/.

Er bod /ae/ yn symleiddio'n /a:/ mewn geiriau unsill yn y dafodiaith dan sylw bellach,<sup>67</sup> ni cheir awgrym o hyn yn *S*. Fel arfer ceir *ae* neu *ai* am /ae, ai/ yn y safle hwn: *aeth, saeth, kae, tair, maint*; ynghyd â rhai enghreifftiau o *au* ac *ay*: *kay, gwayw, kau*. Er bod tuedd i /ae/ droi'n /ei/ ar lafar yn y goben acennog,<sup>68</sup> ceir *ae* ac *ay* fel arfer yn y safle hwn: *aeduct, gaeaf, amryfaylon, draynen*; gyda ambell enghraifft brin o *au* ac *ai*: *gauaf, amrafailion*. Nodwyd dwy enghraifft o *a*: *arbassaf, varoni*. Er y gall /ae/ droi'n /ei/ o flaen yr acen yn y dafodiaith dan sylw,<sup>69</sup> fe'i dynodwyd gan *ay, ae* ac weithiau *au*: *mayroniaeth, taeogion, tauogeu*. Try /ae, ai/ yn /e/ yn y sillaf olaf ddiacen yn y dafodiaith dan sylw,<sup>70</sup> a defnyddir *e* yn gyffredin yn y cyd-destun hwn yn *S*: *ameth, dystolyeth*. Fodd bynnag, ceir *ae* yn aml yn y safle hwn, ynghyd â rhai enghreifftiau o *a* ac *eu*: *abadaeth, gbassanaeth, yffeiriad, argeu*. Y mae'n debyg bod ffurfiau achlysurol fel *aeidi, aeill, braeint, vathaeu* yn arwydd o ansicrwydd y copïydd, gan grisialu'r gwrthdaro rhwng ei awydd i ddilyn ei glust ar y naill law a chonfensiynau'r iaith ysgrifenedig ar y llaw arall.

**/ei, eu/** Er na wahaniaethid rhwng y seiniau hyn erbyn canol y bymthegfed ganrif, ymddengys bod y copïydd yn ymwybodol o'r gwahaniaeth hanesyddol rhyngddynt, ac adlewyrchir hyn yn ei ddull o'u dynodi. Gw. hefyd y nodyn ar /ae, ai, æ/.

**/ei/** Ceir *ei* yn fwyaf cyffredin, a hynny ym mhob safle: *eillt, deiliat, teilygach, mynei*. Yn ogystal, digwydd enghreifftiau o *ey* ac *eu*: *euthaf, dimeu, dyckeu, reydu, henryeyt*. Nodwyd un enghraifft o *iei*: *ieida6*; ac un enghraifft o *eei*: *eeil*.

**/eu/** Digwydd *eu* fel arfer ym mhob safle: *eur, beuty, deupartha6c, abadeu*. Y mae *ey* yn gyffredin hefyd: *breyr, penteylu, beynydyab1*; a cheir rhai enghreifftiau o *ei* mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog: *dei, ch6eigeint*. Ceir un enghraifft o *euy*: *deuyth*; ac un hefyd o *yeu*: *yeu*.

Sylwyd ar nifer o enghreifftiau o /ei, eu/ yn symleiddio'n /e/ yn y sillaf olaf ddiacen: *bigel, orcheidwed, amdiffyne, bie*. Er nad yw'r seiniau hyn yn symleiddio'n /e/ yn y goben acennog fel arfer, nodwyd nifer o ffurfiau sy'n awgrymu bod hyn yn digwydd yn *S*: *telu, g6rega6c, bethion, ethur*; a cf. hefyd *ne*. Ceir hefyd rai ffurfiau yn /i/: *arbin, keid6id, eil6ith*. Gall /ei, eu/ amrywio ag /oi/ yn y dafodiaith dan sylw,<sup>71</sup> a gwelir nifer o ffurfiau acennog a diacen sy'n adlewyrchu hynny yn *S*: *troeledic, adnouaeth, dadloeoed, deuthaf, deuthineb*.

**/oe, oi/** Er bod /oi/ yn symleiddio'n /o, o:/ mewn geiriau unsill ac yn y sillaf olaf ddiacen yn y dafodiaith hon,<sup>72</sup> ni cheir awgrym amlwg o hyn yn orgraff *S*. Dynodir y ddeusain fel arfer gan *oe*: *oed, poeneu, doethineb, lleoed*; ond digwydd *oy* ac *oi* hefyd: *lloyger, chroissi, doythineb*. Ceir ambell enghraifft brin o *o*: *poni, odi*. Digwydd *oi* fel arfer am /oi/ < /o-i/: *baratoi, kyffroi*; a sylwyd ar un enghraifft o *oy*: *gyffroy*. Ar /oi/ yn amrywio ag /ei, eu/, gw. o dan /ei, eu/. Ar /oi/ yn amrywio ac /ui/, gw. o dan /ui/.

**/ui/** Dynodir y sain hon fel arfer gan *by*: *g6yl, bythnos, ch6yna6dyr, mor6yn*. Ceir hefyd ddyrnaid o enghreifftiau o *bi*: *bi, k6inir, egl6is*; a hefyd rhai enghreifftiau prin o *u6* ac *bu*: *vubell, r6umedic*. Ceir un enghraifft yr un o *eby* a *byu*: *lle6yna6c, byur*. Pan fydd /ui/ yn sain gyntaf gair, ceir wy weithiau: *wyf, wythfed*. Unwaith yn unig y digwydd wy pan fo sain arall o'i blaen: *pwy*; a cheir un enghraifft hefyd o *why*: *whythuet*.



Yn union fel y mae /o/ ac /u/ yn amrywio â'i gilydd yn y testun hwn, felly hefyd y ceir amrywio rhwng /oi/ a /ui/, yn acennog ac yn ddiacen. Y mae'r enghreifftiau o /oi/ am /ui/ yn llawer mwy lluosog nag /ui/ am /oi/ (un enghraifft yn unig o'r diwethaf a nodwyd): *dilyssroyd, void, hoyrach, oyth, kyh6yda6c*. Y mae ffurf megis *sofydogion* o bosibl yn awgrymu ansawdd elfen gyntaf y ddeusain. Gw. hefyd o dan /u/. Sylwyd ar un enghraifft o /ui/ yn amrywio ag /iu/: *throthy6*. Nododd Evan Jenkin Davies duedd yn y dafodiaith dan sylw i /ui/ symleiddio'n /u/ mewn geiriau unsill, yn y goben acennog ac yn y sillaf olaf ddiacen,<sup>73</sup> a nodwyd enghreifftiau o hyn yn *S: dr6, b6ell, trag6da6l, modr6*.

**/ui, uə/** Digwydd *6y* fel arfer ym mhob safle: *g6yn, g6yr, g6ynseit, g6irion, g6ystloriaeth*; ceir hefyd rai enghreifftiau o *6i*: *g6ir, g6ialen*. Y mae /ui/ yn y goben acennog yn tueddu i droi'n /u/ yn y dafodiaith dan sylw,<sup>74</sup> a nodwyd sawl enghraifft o hyn yn y testun: *g6rion, g6nion, wh6tho*.

**/au/** Dynodir y ddeusain hon fel arfer gan *a6*: *a6st, lla6er, dir6ya6*. Sylwyd ar ambell enghraifft o *au*: *audyrda6t, llakaut*; ac un enghraifft yr un o *aa6* ac *aw*: *anianaa6l, halawkty*. Fodd bynnag ceidwadaeth orgraff sy'n gyfrifol am lawer o'r ffurfiau hyn gan fod /au/ eisoes wedi troi'n /o/ yn y sillaf olaf ddiacen erbyn canol y bymthegfed ganrif, fel y tystia ffurfiau megis *achos, keinoc, llithro*. Nododd Evan Jenkin Davies duedd i /au/ droi'n /ou/ mewn geiriau unsill ac yn y goben acennog,<sup>75</sup> a gwelwyd ambell enghraifft o hyn yn *S: ad6ssei, io6naf*. Sylwyd hefyd ar ambell enghraifft o ddefnyddio *a* am /au/: *taladr, g6astrad, adyrda6d, adyrdodys*.

**/eu/** Defnyddiodd y copiydd *e6* yn gyson: *ble6, e6in, e6ylllys*. Y mae /eu/ yn amrywio ag /i6/ yn y ffurfiau *me6n, miwn*, ond amrywiad cyffredin yw hwn.

**/iu, yu, əu, uu/** Ni wahaniaethir yn glir rhwng y seiniau hyn yn *S*. Tueddir i ddefnyddio *u6* ar gyfer y ddeusain hanesyddol /uu/: *du6, du6older*; ond digwydd *y6* yn gyffredin hefyd: *bridy6, dy6*. Digwydd *y6* fel arfer am /iu, yu, əu/: *by6, y6en, ty6arch, kyfry6*; ond ceir *i6* hefyd, yn arbennig yn y sillaf olaf ddiacen: *lli6a6, ydi6, distri6*. Y mae /iu, əu/ yn y goben acennog yn tueddu i droi'n /ou/ yn nhafodiaith yr ardal hon,<sup>76</sup> a nodwyd nifer o enghreifftiau o hyn: *bobyd, do6eid*. Gall /iu, əu/ symleiddio'n /u, u/ yn acennog ac o flaen yr acen,<sup>77</sup> a cheir sawl enghraifft o hyn hefyd: *r6, kl6o, k6irdeb*.

### ***Y cytseiniaid***

**/p/** Y symbol arferol yw mhob safle yw *p*: *p6gk, kapel, s6mp*. Yn ogystal ceir rhai enghreifftiau o *pp*, yn enwedig yn ffurfiau modd dibynnol y ferf: *adnappo, attepper*. Nodwyd un enghraifft o *b*: *anhebcor*.

**/t/** Digwydd *t* ym mhob safle: *tad, kota, etifed, trist*. Ceir rhai enghreifftiau o *tt* ar ganol gair: *atta6, nattyryol, dy6etto*. Sylwyd hefyd ar enghreifftiau o ddefnyddio *d* a *td* yn y ffurfiau *alldydiaeth, alltdyd6ys*, ond dichon mai'r /t/ a barodd ansicrwydd ynghylch y sain yn yr enghreifftiau hyn. Sylwyd hefyd ar *d* am /t/ derfynol yn y ffurfiau *helynd* a *genyd* (yr olaf yn ffurf Gymraeg Canol safonol, ac o bosibl yn olion orgraff hŷn). Cadwyd y terfyniad /nt/ yn

gyflawn mewn rhai manau: *genveint, esgefeint*; ond y mae ffurfiau a gollodd y /t/ yn fwy cyffredin: *keneuin, yscefein* (ac eithrio yn achos y ffurf *aryant*, sy'n llawer mwy cyffredin nag *aryan*). Pan ddigwydd /d + d/ neu /d + t/ ar ganol gair, dynodir y sain mewn amrywiaeth o ffyrdd: *waetir, attwyn, baetir, nabetyd, nabfedyd, nabveddyd, baettir*.

**/k/** Y symbol arferol ym mhob safle yw *k*, ond ceir enghreifftiau hefyd o *c*,<sup>78</sup> *cc, ck* a *kc*: *kadarn, kenedl, cryman, cyssan, amlyka, llosker, deucant, meinceu, acco, bryccan, drickio, grocker, diagk, beinc, p6nkc*. Gw. hefyd o dan /ŋ/.

**/b/** Y symbol arferol yw *b*: *baich, abad, adnabod, krib*. Ceir hefyd rai enghreifftiau o *p* ar ganol gair, yn arbennig lle y gall fod awgrym o ddileisio (e.e. yn y goben acennog neu o fewn cwlwm cytseiniol), a hefyd ar ddiwedd gair: *kwpyl, hepda6, attep, cheip*. Nodwyd un enghraifft o *bb*: *abbat*. Sylwyd ar un enghraifft o /b/ ddechreuol yn caledu ar ôl /s/: *llys peunydia6l*; ac un enghraifft o golli /b/: *esgotty*.

**/d/** Digwydd *d* yn gyson ar ddechrau gair, ac weithiau ar ganol ac ar ddiwedd gair: *dadl, abadeu, adnabod, dillad*. Ceir *t* hefyd ar ganol gair, yn arbennig lle y gall fod awgrym o ddileisio (e.e. yn y goben acennog neu o fewn cwlwm cytseiniol), a hefyd ar ddiwedd gair: *brathetic, kytsynnya6, aela6t, merchet*. Sylwyd hefyd ar enghreifftiau prin o *td*: *petd6ar, gossotdedigaetheu*, ac un enghraifft o *dd*: *addneu*. Nodwyd un enghraifft o /d/ ddechreuol yn caledu ar ôl /s/: *nys tyly*. Y mae'n bosibl mai dynodi calediad hefyd a wna *tt* mewn ffurfiau fel *kyttya, dotteu*. Am /d/ a /ð/ yn dod ynghyd mewn geiriau cyfansawdd, gw. o dan /t/.

**/g/** Y symbol arferol ar ddechrau ac ar ganol gair yw *g*: *galanas, agored, beichogi*; llawer mwy prin yw *g* ar ddiwedd gair: *bala6g*. Digwydd *c* yn gyffredin ar ganol gair: *lleicion, racda6, bacla6c*; *c* hefyd sy'n fwyaf arferol ar ddiwedd gair: *anoc, coc*. Nodwyd ychydig enghreifftiau o *ck* a *k* ar ganol ac ar ddiwedd gair: *kydkeu, ch6anecku, drok*. Y mae *-c-*, *-k-* a *-ck-* yn fwyaf tebygol o ddigwydd lle y gall fod awgrym o ddileisio (e.e. yn y goben acennog neu o fewn cwlwm cytseiniol); nodwyd un enghraifft o /g/ ddechreuol yn caledu ar ôl /s/: *ass cofynho*.

**/f/** Y symbol arferol yw *ff*, ac y mae'n digwydd ym mhob safle: *ffalt, nenfforch, korff, raff*. Ceir *f* yn achlysurol ar ddechrau ac ar ganol gair: *ford, gyfredin, ymfydyab*; a nodwyd dwy enghraifft o *f* ar ddiwedd gair, *raf, keif*. Sylwyd ar /f/ ac /θ/ yn amrywio yn yr enghraifft *benffic / benthic*, ond y mae amrywio'r ffurfiau hyn yn gyffredin yn Gymraeg. Gw. hefyd yr ymdriniaeth â'r Treigladd Llaes.

**/x/** Y symbol arferol ym mhob safle yw *ch*: *ch6echet, perchen, golchydes, bellach*. Nodwyd un enghraifft o *c*: *parcell*. Digwydd y symbol *ç* ryw hanner dwsin o weithiau ar ganol ac ar ddiwedd gair: *degre, maç, veirç*. Sylwyd ar rai enghreifftiau o'r sain /u/ yn cael ei cholli o'r cyfuniad /xu/: *cheigeint, damchein*. Y mae'n arferol yn nhafodiaith yr ardal hon i /xu/ ar ddechrau gair wanychu'n /hu/, a dynodir hyn fel arfer gan *h6* neu *6h*: *h6ech, h6artha6r, 6hefra6r, 6hytho*; gydag ychydig enghreifftiau o *wh*: *whech, wheygeint*; ac un enghraifft o *6*:

*bartha6r*. Y mae'n debygol mai gwanychu ar ganol gair sy'n gyfrifol am ffurfiau megis *chyh6neu*, *ymhoelyt*. Gw. hefyd yr ymdriniaeth â'r Treigladd Llaes.

**/θ/** Digwydd *th* gan amlaf ym mhob safle: *pymthec*, *dethol*, *rwymedigaetheu*, *adnewaeth*, *kaeth*. Nodwyd un enghraifft o *d* ar ganol gair: *g6eidred*; a thair enghraifft o *t* ar ddiwedd gair: *pymtheg6eit*, *nythl6yt*, *tystiolaet*—y mae'n bosibl mai olion orgraff hŷn yw'r rhain. Gw. hefyd yr ymdriniaeth ag /ð/ ac â'r Treigladd Llaes.

**/v/** Digwydd y symbolau *v*, *f*, *ff* ac *u*. Y symbol arferol ar ddechrau gair yw *v*: *verch*, *vy6yt*; ond ceir enghreifftiau hefyd o *u* ac *f*: *uot*, *uessyr*, *fot*, *fu*. Ar ganol ac ar ddiwedd gair, *f* yw'r symbol mwyaf cyffredin: *afon*, *claf6r*, *adef*, *ffluf*. Ceir llawer o enghreifftiau o *u* a *v* hefyd ar ganol gair: *divediany*, *gavael*, *ffaluu*, *lletuegin*; a rhai enghreifftiau o *u* derfynol: *eu*, *kartreu*. Defnyddir *ff* yn achlysurol ar ganol ac ar ddiwedd gair: *chyffia6nder*, *proffi*, *gaeaff*. Ceir peth amrywio rhwng /v/ a /ð/: *ofef*, *tyfyn*, *hedyd*; a hefyd amrywio rhwng /v/ a /u, ʊ/: *dobod*, *pythe6nos*—nodwyd ar dafodiaith yr ardal a drafodir gan Evan Jenkin Davies.<sup>79</sup> Collir /v/ o ffurfiau megis *dedryd*, *dotren*, *drachen*, ac y mae hyn eto'n nodwyd ar lafar godre Ceredigion hyd heddiw.

**/ð/** Y symbol arferol ym mhob safle yw *d*: *deu dyn*, *adef*, *bardoniaeth*, *abreid*, *med*. Ceir rhai enghreifftiau digon prin o *dd*, *th* a *t*: *ho6el dda*, *g6yddor*, *llessgedd*, *othy*, *otheuthur*, *senet*, *trefgort*. Er y tueddir i gysylltu *dd* am /ð/ â Chymraeg Diweddar, ceir enghreifftiau mor gynnar â'r drydedd ganrif ar ddeg. Arferid *th* a *t* am /ð/ mewn Cymraeg Canol Cynnar, felly y mae'n bosibl mai olion orgraff hŷn sydd yma. Cymhlethir y sefyllfa ymhellach gan y ffaith bod /ð/ ac /θ/ yn amrywio yn nhafodiaith yr ardal hon;<sup>80</sup> gan hynny, gall mai amrywiadau seinegol yw'r rhai a nodwyd, yn hytrach na rhai orgraffyddol.

**/s/** Defnyddir *s* ac *ss* ym mhob safle, ond *s* sydd fwyaf cyffredin ar ddechrau ac ar ddiwedd gair: *sad6rn*, *costa6c*, *nesaf*, *anafys*, *ssylg6yn*, *nessaf*, *abssen*, *nyss*.

**/r/** Defnyddir *r* ac *rr*. Y symbol arferol ar ddechrau gair yw *r*: *roed*, *a rodes*; un enghraifft o *rr* ddechreuol sydd yn *S*: *rranu*. Ar ganol ac ar ddiwedd gair ceir *r* ac *rr*: *argl6yd*, *offeren*, *adar*, *ped6ar*, *arrwyda6*, *torri*, *karr*, *gyrr*. Nodwyd tuedd bendant i ddefnyddio *rr* ar ddiwedd gair unsill pan fo'r llafariad yn un fer.

**/r̥/** Y symbol arferol yw *r*: *randir*, *penryn*, ond ceir nifer o enghreifftiau o *rh* (oll yn ddechreuol): *yr hei*, *yr higill*.

**/h/** Defnyddir *h* ym mhob safle: *hala6c*, *y haffeitheu*, *kynhebrwg*, *rydhau*. Dynodir yr *h* yn y cyfuniad /aŋh/ (sef treigladd /an + k/) pan fydd yn acennog ac yn ddiacen: *aghyffredin*, *aghyfr6ys*. Gwelir *h* weithiau mewn sillaf ddiacen ar ôl cytsain drwynol: *agheu*, *brenhin*; a hefyd yn nherfyniadau'r modd dibynnol: *ranho*, *talhont*—er bod ffurfiau megis *ranno*, *talo*, yn dangos bod yr /h/ wedi diflannu ar lafar o'r safle hwnnw. Nodwyd sawl enghraifft o golli /h/ ddechreuol: *anhera6c*, *agen*; a dwy enghraifft o golli /h/ ganol acennog: *ysgoleic*,

*agenion*—er y gallai'r olaf fod yn enghraifft o ddefnyddio *g* am /ŋh/; gw. y drafodaeth ar y Treigladd Trwynol.

**/m/** Defnyddir *m* ym mhob safle: *mach, gormes, kam, offr6m*. Gw. hefyd y drafodaeth ar y Treigladd Trwynol.

**/n/** Y symbol arferol yw *n*, ond ceir enghreifftiau o *nn* yn ogystal, yn enwedig ar ganol gair. Defnyddir *n* ac *nn* ar gyfer /n/ sengl a dwbl fel ei gilydd: *nadolic, enill, llynyaeth, absen, maen, nneu, nnodi, enn6i, barnneu, meithrynn, offerenn*.

**/ŋ/** Y symbol mwyaf cyffredin ym mhob safle yw *g*, ond ceir rhai enghreifftiau o *ng*: *ageu, tagnef, anheil6g, llog, kyngain, teilyngda6d, edling*. Nodwyd un enghraifft o *n*: *gynylloryaeth*. Ar /ŋ/ ddechreuol, gw. y drafodaeth ar y Treigladd Trwynol. Ceir nifer o amrywiadau orgraffyddol ar y cwlwm cytseiniol /ŋk/—digwydd *gk, ngk, nck, ngk, nc* a *ngkc*: *diagk, diangk, dianck, dieinc, p6ngkc*. Gw. hefyd dan [k].

**/l/** Y symbol arferol ym mhob safle yw *l*: *labrens, heb laeth, argl6yd, gelein, dirgel*. Nodwyd ychydig enghreifftiau o *ll*: *wello, hella, gwbyll*.

**/l/** Digwydd *ll* ym mhob safle: *llan, llofrydiaeth, allan, melldith, erchyll, t6ll*. Ceir rhai enghreifftiau achlysurol o *l*; y mae'r rhain yn brin iawn ar ddechrau ac ar ddiwedd gair, ond ychydig yn fwy cyffredin ar ganol gair: *le, letrat, koledic, darlain, aral, sefyl*.

### ***Y treigladdau mewn cytseiniaid dechreuol***

Dynodwyd y **Treigladd Llaes** yn gyson. Defnyddir *th* i ddynodi /θ/: *ni thal, a threissa6; ch* i ddynodi /x/: *tri chaeth, y chroth*; a *ph* i ddynodi /φ/: *a phadell, tri phet6ar*—er y ceir hefyd rai enghreifftiau o *ff*: *y fflant, a ffluf*. Ni ddangosir treiglo /p/ bob tro. Gw. hefyd § 246n.

Ni ddynodwyd y **Treigladd Meddal** yn gyson, er iddo gael ei ddangos yn aml. Pan ddynodir y treigladd, ceir yr un symbol am y gytsain a dreiglwyd ag a ddefnyddid pe bai'n gytsain gysefin: h.y. ni wahaniaethir rhwng /b/ ddechreuol gysefin a /b/ ddechreuol < /p/, etc. Gan nad yw'r orgraff yn gwahaniaethu rhwng /d/ ac /ð/ ddechreuol, na rhwng /r/ ac /r/ ddechreuol, ni ddynodwyd y Treigladd Meddal o gwbl yn achos y cytseiniaid hyn.

Gydag ond ychydig eithriadau prin, dynodwyd y **Treigladd Trwynol** yn gyson yn *S*, er bod tipyn o amrywiaeth yn null y dynodi. Yn aml iawn yn achos /p, k, g/, dangosir y treigladd yn yr elfen sy'n ei beri, gan gadw cytsain gysefin y gair a dreiglir: *ym pell, yg kyfreith, yg gobyr*. (Ni ddangosir yr /h/ sy'n gynnyrch trwynoli /p, k/.) Mwy cyffredin yn achos y cytseiniaid hyn, fodd bynnag, a'r rhai eraill a gymer y Treigladd Trwynol, yw dangos y treigladd trwy ddefnyddio cytsain drwynol yn lle'r gytsain gysefin, gan nodi hefyd yn bur gyson yr /h/ a gynhyrchir wrth drwynoli /p, t, k/: *ymhen, vy nhir, ygharchar, kant mlyned, dec ni6arna6t, yg6lad*. Nodwyd ychydig enghreifftiau o beidio â dangos trwynoli /t/ a /d/: *yn tref, yn dyd, yn dyfet*.

### *Casgliadau*

Y mae testun *S* yn arddangos mewn modd clir y tensiwn a all fodoli rhwng orgraff a seinyddiaeth. Er mai dull o ddynodi mewn llawysgrifen seiniau a leferir yw orgraff yn ei hanfod, tuedd orgraff bob amser yw bod yn geidwadol, gan newid yn arafach na seiniau'r iaith lafar y mae'n honni eu dynodi.

Erbyn cyfnod copïo *S*, yr oedd y system orgraffyddol pur sefydlog a ddatblygasai erbyn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg yn prysur ddadfeilio, ond ni ddaethai system newydd eto i gymryd ei le, a'i safle ar y groesffordd rhwng dau gonfensiwn orgraffyddol sy'n cyfrif yn y pen draw am lawer o anwadalwch orgraffyddol *S*. Oherwydd er mai orgraff draddodiadol Cymraeg Canol yw'r sylfaen yn y bôn,<sup>81</sup> y mae yma, yr un pryd, symud pendant tuag at ddull llawer mwy seinegol o ysgrifio. Gwelir hyn gliriaf yn null y copïydd o ddynodi'r llafariaid a'r deuseiniaid. Gellir rhoi cyfrif am bron pob amrywiad orgraffyddol a nodwyd uchod yn nhermau gwyrto oddi wrth gonfensiwn canoloesol tuag at gofnodi mewn modd a adlewyrchai'r newidiadau a ddigwyddasai o ran ansawdd seiniau yn y Gymraeg yn gyffredinol ar y naill llaw, ac ar y llaw arall ddynodi nodweddion lleol neu dafodieithol penodol megis cywasgu llafariaid, cyfnewid seiniau, symleiddio deuseiniaid yn llafariaid hirion, ac yn y blaen.

Cyfeiriwyd yn gyson yn yr adran hon at ddisgrifiad Evan Jenkin Davies o dafodiaith Dihewyd a Llandygydd, a gwelwyd bod rhai nodweddion yn orgraff *S* yn awgrymu seinyddiaeth debyg iawn i eiddo'r dafodiaith honno. Yn achos y llafariaid a'r deuseiniaid y ceir y gyfatebiaeth agosaf, hyd yn oed mewn manylion. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r cyfnewidiadau cytseiniol sy'n nodweddu'r dafodiaith honno ac a drafodwyd gan Evan Jenkin Davies a ddynodir yn orgraffyddol yn *S*,<sup>82</sup> ond teg nodi hefyd bod yr astudiaeth honno yn perthyn i gyfnod diweddarach o lawer na chyfnod copïo *S*. Gan na cheisiwyd cymharu orgraff a seinyddiaeth *S* ag unrhyw dafodieithoedd eraill, y mae'n glir na ellid mentro tynnu casgliadau daeryddol pendant yn sgil y drafodaeth uchod; ac fel y nodwyd ar y dechrau, gan fod *S* yn tynnu—boed yn uniongyrchol neu ynteu'n anuniongyrchol—ar amrywiaeth o ffynonellau gwahanol o gyfnodau gwahanol, ni ellid bod yn sicr yn aml ai orgraff y copïydd neu ynteu ei ffynhonnell sydd dan sylw. Fodd bynnag, bernir bod yma ddigon o enghreifftiau o nodweddion orgraffyddol o wahanol fathau sy'n awgrymu seinyddiaeth debyg i eiddo tafodieithoedd godre Ceredigion, i ganiatáu inni ategu'r awgrym a wnaed eisoes, o gyfeiriadau eraill, ei bod yn debygol i'r llawysgrif hon hanu o'r ardal arbennig honno.<sup>83</sup>

### Atodiad i Bennod 3

Fel y nodwyd uchod, ymddengys mai cynnyrch sawl cyfnod o weithgarwch yw'r llawysgrif hon: rhyw glytwaith o destun sydd yma mewn sawl ffordd, un sy'n llawn o 'ddechreuadau newydd' a mân raniadau. Ond ymddengys fod ynddi ddau raniad pendant iawn. Daw'r naill, fel y manylwyd eisoes, rhwng ff. 59v a 60, sef rhwng diwedd y testun Bleg a dechrau'r gynffon. Daw'r llall rhwng ff. 131r a 131v. Dadleuir yma fod tri thudalen olaf cydiad Q ynghyd â chydiadau R–S (sef o ff. 131v hyd y diwedd) yn perthyn i'w gilydd mewn ffordd nad ydynt yn perthyn i weddill y testun. Y mae'r dystiolaeth dros hyn yn amryfath:

- i) Ceir cadwyneiriau ar odre *verso* dalen olaf pob cydiad ac eithrio cydiadau Q ac R (ni ddisgwylir cadwynair ar ddiwedd cydiad S gan mai dyna ddiwedd y llawysgrif).
- ii) Pigwyd cydiadau B–P gydiad cyfan ar y tro; nid felly cydiadau Q–S.
- iii) Y mae cydiadau B–P yn hollol reolaidd o safbwynt nifer y dail ym mhob un (sef 8); y mae cydiadau Q–S yn afreolaidd yn hyn o beth, Q = 9, R = 6, S = 10 (yn wreiddiol).
- iv) Y mae'r defnydd ar inc coch yn llawer mwy ysbeidiol ar ôl ff. 131r. Un ddalen yn unig cyn ff. 131 sydd heb ei rhuddellu, sef ff. 68v; ar ôl ff. 131r y mae'r dalennau canlynol i gyd heb eu rhuddellu: ff. 131v, 132v, 137–140, 144–5.
- v) Nid oes galw ar y seintiau ar ôl ff. 131, lle y bu'r arfer mor gyffredin cyn hynny.
- vi) Y mae cynnwys ff. 131v ymlaen yn didoli'r rhan hon oddi wrth weddill y llawysgrif. Tua gwaelod ff. 130v, dechreuir trafod 'Cyfar', ond daw'r ymdriniaeth i ddiwedd disymwth ar waelod ff. 131r (fe'i gadewir ar hanner brawddeg, § 2374) ac ar ff. 131v ceir dyddiad taith Hywel Dda i Rufain a dyddiad ei farwolaeth, mewn ysgrifen fawr (§§ 2375–6). Y mae'r llawysgrif fel petai'n ailagor ar ff. 132 gyda'r diagram achyddol ac ymdriniaeth fer ar gyd-etifeddu. Y mae hyn yn esgor ar drafodaeth hir ar 'Wyddor Cyfraith Hywel', ac y mae naws y drafodaeth honno'n hollol wahanol i unrhyw beth sydd wedi ei rhagflaenu. Yma y mae'r copïydd fel petai'n sefyll y tu allan i'r llyfr cyfraith, gan draethu mewn dull mwy dadansoddol, a chydag ychydig eithriadau y mae'r awyrgylch hwn yn parhau hyd ddiwedd y testun (gan gynnwys y darn mewn llaw arall, ff. 144v–5v).

O'u cymryd ynghyd, y mae'r ffactorau hyn fel petaent yn awgrymu bod cydiadau A–Q ff. 131r yn cynrychioli un cyfnod (rhanedig) o weithgarwch, a bod y copïydd—am ba reswm bynnag—wedi gadael y gwaith yn anorffenedig (a dalennau olaf cydiad Q yn wag), gan fwriadu gorffen yr adran ar 'Gyfar' yn ddiweddarach; ac mai cynnyrch cyfnod arall o weithgarwch yw ff. 131v ymlaen, a'r copïydd bellach yn defnyddio ffynhonnell arall, o bosibl, neu hyd yn oed yn llunio'i ddeunydd ei hun.

Gan fod dalennau blaen ac ôl cydiadau B–Q yn eithaf glân, rhaid na fu'r cyfnod rhwng ysgrifennu'r llawysgrif a'i rhwymo'n hir iawn. Ond gan fod ff. 4 (dalen gyntaf cydiad B) a ff. 132v (dalen olaf cydiad Q) ryw gymaint yn fryntach na dalennau blaen ac ôl y cydiadau eraill, nid yw'n amhosibl i'r llyfr cyfraith hwn fodoli am beth amser a ff. 132v yn ddalen ôl iddi. Wrth i'r copïydd ailafael yn ei waith, y mae'n bosibl iddo adael ff. 131v yn wag ar gyfer gorffen y traethig ar 'Gyfar', gan fwrw ymlaen â'r traethigau mwy dadansoddol ar ddiwedd y llawysgrif. Os felly, y mae'n bur debygol wedyn mai yn ddiweddarach y llanwyd ff. 131v—

a'r copïydd o bosibl wedi anghofio bellach am yr adran anorffenedig ar 'Gyfar'a phwrpas y ddalen wag.

## NODIADAU'R RHAGYMDRODD

### PENNOD 1—CYFRAITH HYWEL: YSTYRIAETHAU CYFFREDINOL

<sup>1</sup> Fe'u rhestrir isod, tt. 247–8. Disgrifiwyd y rhan fwyaf o'r llawysgrifau hyn gan J. Gwenogvryn Evans yn *RMWL, passim*, ond am yr ysgolheictod diweddaraf ar bob un gw. bellach Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* (i ymddangos). Ceir llyfryddiaeth hynod ddefnyddiol yn Meinir Elin Harris, *A Bibliography of the Welsh Law Manuscripts*, Pamffledi Cyfraith Hywel (Seminar Cyfraith Hywel, 2006). Yn ogystal â'r llawysgrifau canoloesol o Gyfraith Hywel, goroesodd hefyd ryw ddeugain o lawysgrifau eraill sy'n hanu o'r cyfnod ar ôl canol yr unfed ganrif a'r bymtheg, ond y mae'r rhan fwyaf o'r rheini'n gopiâu o lawysgrifau hŷn sydd ar glawr o hyd, ac nid oes a wnelo'r astudiaeth hon â hwy. Am gyflwyniad cyffredinol i Gyfraith Hywel, gw. Dafydd Jenkins, *Cyfraith Hywel* (Llandysul, 1970); *idem*, *The Law of Hywel Dda: law texts of Medieval Wales* (Llandysul, 1986); T. M. Charles-Edwards, *The Welsh Laws*, cyfres Writers of Wales (Cardiff, 1989). Adnodd hynod werthfawr ar gyfer astudio pob agwedd ar Gyfraith Hywel, gan gynnwys y gwahanol destunau cyfraith a'r llawysgrifau sy'n eu cynnwys, yw gwefan Cyfraith Hywel, [www.cyfraith-hywel.org.uk](http://www.cyfraith-hywel.org.uk).

<sup>2</sup> Gw. J. E. Lloyd, *Hywel Dda: pen a moliant yr holl vrytanyeit* (Caerdydd, 1928); *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953), tt. 382–3 (fersiwn ar-lein yn <http://yba.llgc.org.uk/cy/index.html>); John Davies, *Hanes Cymru* (Llundain, 1990), tt. 84–5. Yr unig rannau o Gymru na fu dan lywodraeth Hywel yn ymarferol oedd Morgannwg a Gwent.

<sup>3</sup> Am enghraifft o raglith, gw. §§ 1–8 yn y testun a gyhoeddir yma, ynghyd â'r amrywiad arni yn §§ 2518–24. Am drafodaeth ar y Rhaglith a'i harwyddocâd, gw. Huw Pryce, 'The Prologues to the Welsh Lawbooks', *BBGC*, 33 (1986), 151–87.

<sup>4</sup> Gw. *ibid*, 151–2; *idem*, *Native Law and the Church in Medieval Wales* (Oxford, 1993), tt. 71–2 etc.

<sup>5</sup> Gw. Goronwy Edwards, *Hywel Dda and the Welsh Lawbooks*, The Hywel Dda Millenary Lecture, 9 May 1928 (Bangor, 1929).

<sup>6</sup> Edwards, *Hywel Dda and the Welsh Lawbooks*, t. 22.

<sup>7</sup> Gw., er enghraifft, Goronwy Edwards, 'The Royal Household and the Welsh Lawbooks', *TRHS* (v), 13 (1963), 163–76; T. M. Charles-Edwards, 'The Seven Bishop-Houses of Dyfed', *BBGC*, 24 (1971), 247–62.

<sup>8</sup> Yng ngeiriau F. W. Maitland, 'a large part of these masses of rules is neither law made by "any sovereign one or many" (to use Austin's phrase), nor yet "judge-made" law, nor yet again a mere record of popular customs. It is lawyer-made law, glossators' law, text-writers' law'; gw. 'The Laws of Wales—The Kindred and The Blood Feud', yn H. A. L. Fisher, *The Collected Papers of F. W. Maitland*, cyf. 1 (Cambridge, 1911), t. 202.

<sup>9</sup> Gw. Goronwy Edwards, 'Studies in the Welsh Laws since 1928', *CHC*, Rhifyn Arbennig: Y Cyfreithiau Cymreig (1963), 9.

<sup>10</sup> Ymhlith yr amrywiadau macro posibl, gellid nodi ystyriaethau megis gwahaniaethau o ran trefn y traethigau rhwng un llawysgrif a'r llall, neu bresenoldeb / absenoldeb rhyw draethig penodol etc.

<sup>11</sup> Aneurin Owen (gol.), *Ancient Laws and Institutes of Wales* (London, 1841). Cyhoeddwyd dau argraffiad gwahanol o'r gwaith hwn, y naill yn argraffiad ffolio (un gyfrol) a'r llall yn argraffiad cwarto (dwy gyfrol). At yr argraffiad cwarto y cyfeirir bob amser yn yr astudiaeth hon. Teg nodi i Owen elwa o waith amryw o hynafiaethwyr ac ysgolheigion a aeth o'i flaen, a thynnir sylw at rai o'r rheini yn y nodiadau a ganlyn.

<sup>12</sup> Ar y llawysgrifau Cymraeg yn unig, a'u perthynas â'i gilydd, y canolbwyntir yn yr astudiaeth bresennol.

<sup>13</sup> Nid syniad gwreiddiol mo'r defnydd hwn o *sigla*; yr oedd William Wotton, yn ei argraffiad cyfansawdd yntau o Gyfraith Hywel, *Cyfreithjeu Hywel Dda ac eraill, seu Leges Wallicae* (London, 1730), eisoes wedi bathu system o *sigla* i gyfeirio at y saith ar hugain o lawysgrifau a goladwyd ganddo yn y gyfrol honno. Pwysodd Aneurin Owen ar sawl agwedd ar ysgolheictod *Leges Wallicae* yn *Ancient Laws*.

<sup>14</sup> Owen, *Ancient Laws*, cyf. i, t. viii. Er na ddiffiniodd Owen ei griteria (sef 'dialect' ac 'allusions') yn fanwl, dangosodd A. W. Wade-Evans (gol.), *Welsh Medieval Law* (Oxford, 1909), tt. vii–xii, y gellir dod i'r un dosbarthiad triphlyg ar sail rhai nodweddion cyffredinol yn rhaglithiau'r llawysgrifau, ac aeth Goronwy Edwards ymlaen i ddangos bod modd dod i'r un casgliad yn union ar sail un elfen yn unig ym mrawddeg gyntaf y rhaglith; gw. Edwards, 'The Historical Study of the Welsh Lawbooks', *TRHS* (v), 12 (1962), 148–50. Gw. hefyd d. xxvi.

Er mai Aneurin Owen oedd y cyntaf i dynnu sylw at y tri grŵp mewn print, mewn gwirionedd y mae egin ei ddosbarthiad i'w weld yng ngwaith ysgolhaig o'r ail ganrif ar bymtheg, sef William Maurice o Gefn-y-braich, Llansilin, a goladodd un ar bymtheg o lawysgrifau cyfraith, yn Gymraeg a Lladin, a'u crynhoi'n 'Ddeddfgrawn' neu 'Corpus Hoelianum' a gedwir bellach yn llsgrau LIGC Wynnstey 37 a 38. Cymerodd Maurice dri phrif destun—Alpha, Ior a Beta—a dosbarthu cynnwys y llawysgrifau eraill o'u cwmpas. Gwyddys i Aneurin Owen gael benthyg Deddfgrawn William Maurice (ynghyd â phum llawysgrif arall) o lyfrgell Wynnstey pan oedd yn gweithio ar *Ancient Laws*. Y mae 'dull Gwynedd' Aneurin Owen yn cyfateb yn agos i lsg. Wynnstey 37 (ond bod testun gwahanol yn sail iddo), a 'dull Dyfed' a 'dull Gwent' yn cyfateb i lsg.



Wynnstay 38. Am fanylion pellach, gw. Dafydd Jenkins, 'Deddfgrawn William Maurice', *CLIGC*, 2 (1941), 33–6.

<sup>15</sup> Wade-Evans, *Welsh Medieval Law*, tt. vii–xii.

<sup>16</sup> Yr unig eithriad yw Iorwerth ap Madog, gan fod lle i gredu iddo lunio'r Llyfr Prawf. Gwnaeth hynny, meddir, ar sail pedwar llyfr cyfraith sy'n cael eu henwi, ynghyd â'r llyfrau gorau y gallai eu canfod yng Ngwynedd, Powys a Deheubarth. Gw. Aled Rhys Wiliam (gol.), *Llyfr Iorwerth* (Caerdydd, 1960), tt. xxii–xxiii. Ar Iorwerth ap Madog, gw. Dafydd Jenkins, 'Iorwerth ap Madog: gŵr cyfraith o'r drydedd ganrif ar ddeg', *CLIGC*, 8 (1953–54), 164–70. Y mae lle i gredu bod Cyfnerth, a hefyd ei dad Morgenau, hwythau'n gymeriadau hanesyddol, ond ni wyddom natur y berthynas rhwng Cyfnerth a chynnwys y llawysgrifau sydd bellach yn dwyn ei enw. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd dros hanesyddoldeb yr Athro Blegywryd y rhoddir cymaint o amlygrwydd iddo yn rhaglithiau dull Blegywryd a dull Cyfnerth. Gw. Goronwy Edwards, 'Studies in the Welsh Laws since 1928', 11–16; Hywel D. Emanuel, 'Blegywryd and the Welsh Laws', *BBGC*, 20 (1962–64), 256–60.

<sup>17</sup> Rhestrir chwe llawysgrif yn null Gwent (= Cyfn) yn *Ancient Laws*, tt. xxxi–xxxii, sef *U–Z*; atynt bellach ychwaneger *Mk*.

<sup>18</sup> Gw. Jenkins, *Cyfraith Hywel*, t. 6; Charles-Edwards, *The Welsh Laws*, tt. 20–1, 35–6.

<sup>19</sup> Ceir deuddeg o lawysgrifau yn null Dyfed (= Bleg) yn *Ancient Laws*, tt. xxix–xxxii, sef *I–T*. Sylweddolwyd bellach mai i ddull Ior y perthyn *K* fodd bynnag, tra bod *C* (*Ep* bellach) a osodwyd ymhlith testunau 'Amryval' *Ancient Laws*, t. xxxii, mewn gwirionedd yn gopi cynnar o *Q* a chan hynny'n destun sy'n perthyn i deulu Bleg. At y rhain gellid ychwanegu *Tr*, *Tim*, *Bost*, *Llan* a *Card*, nas defnyddiwyd gan Aneurin Owen, gan wneud cyfanswm o ddwy ar bymtheg o destunau Bleg.

<sup>20</sup> Gw. n. 4 uchod. Y mae Hywel D. Emanuel (gol.), *The Latin Texts of the Welsh Laws* (Cardiff, 1967), tt. 67–72, yn trafod y mater hwn o safbwynt testun Lladin *D*, sy'n perthyn yn agos i ddull Bleg.

<sup>21</sup> Rhestrir wyth llawysgrif yn null Gwynedd (= Ior) yn *Ancient Laws*, tt. xxv–xxix, sef *A–H*. Fodd bynnag nid yw *F* nac *H* yn gorwedd yn esmwyth yn y grŵp hwn mewn gwirionedd; perthynant yn nes i gategori testunau 'Amryfal' *Ancient Laws*, tt. xxxii (gw. n. 23). Yn eu lle gosoder bellach *K* (gw. n. 19) a *Lew*, ynghyd â'r 'argraffiad diwygiedig' ar Ior a geir yn Col, gan wneud cyfanswm o naw testun Ior.

<sup>22</sup> Dafydd Jenkins (gol.), *Llyfr Colan* (Caerdydd, 1963), t. xxv.

<sup>23</sup> Sef *Ā*, *Ĉ*, *Ŋ* a *Ð*, *Ancient Laws*, cyf. i, t. xxxii. Fel y nodwyd uchod (n. 19), y mae *Ĉ* (*Ep*) yn un o destunau Bleg mewn gwirionedd, ond gellid ychwanegu at y tair sy'n weddill yn y grŵp hwn ddwy lawysgrif a osododd Aneurin Owen ymhlith rhai Ior, sef *F* ac *H*.

<sup>24</sup> Rhestrodd Aneurin Owen y tair hyn dan y pennawd 'Leges Wallicae' yn *Ancient Laws*, cyf. i, tt. xxxii–xxxiii, a chrybwyllir yno hefyd ambell lawysgrif Ladin arall nas defnyddiwyd ganddo. Yr arfer bellach yw cyfeirio at y testunau Lladin hysbys fel Lladin *A–E*; gw. Emanuel, *The Latin Texts of the Welsh Laws*; Paul Russell, *Welsh Law in Medieval Anglesey: British Library Harleian MS 1796 (Latin C)*, Texts and Studies in Medieval Welsh Law II (Cambridge, 2011).

<sup>25</sup> 'The ANOMALOUS or WELSH LAWS constitute an important portion of the Work'; Owen, *Ancient Laws*, cyf. i, t. xx.

<sup>26</sup> 'Under this head [Anomalous] are given such anomalous chapters as are respectively found in those Manuscripts which afforded the texts for the regular Codes, and all additional and later matter, wherever found'; *ibid.*

<sup>27</sup> Dangosodd Goronwy Edwards, 'The Historical Study of the Welsh Lawbooks', 152–3, anaddasrwydd yr ansoddair 'anomalous' i ddisgrifio'r rhannau hynny o *B* a osodwyd yn ail gyfrol *Ancient Laws*, a'r llawysgrif honno—ar gyfaddefiad Owen ei hun—yn un o ansawdd uchel iawn; *Ancient Laws*, cyf. i, t. xxvi. Ymhelaethais innau ar anaddasrwydd terminoleg *Ancient Laws* yn Christine James, 'Golygiad o BL. Add. 22356 o Gyfraith Hywel ynghyd ag astudiaeth gymharol ohono a Llanstephan 116' (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 1984), tt. xiv–xvii.

<sup>28</sup> Gwelir hyn yn glir o'r golygiadau cyhoeddedig: Wade Evans, *Welsh Medieval Law*, sef dull Cyfn, testun *V* gyda bylchau wedi eu llenwi o *W* (ill dau yn perthyn i hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg); Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, ail arg. (Caerdydd, 1942), testun *O* gyda bylchau wedi eu llenwi o *Tr* (ill dwy'n perthyn i hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg) ac *L* (canol y bedwaredd ganrif ar ddeg); Aled Rhys Wiliam (gol.), *Llyfr Iorwerth*, testun *B* gydag ychwanegiadau o *A*, *C* ac *E* (ill pedair yn perthyn i'r drydedd ganrif ar ddeg).

<sup>29</sup> Timothy Lewis (gol.), *The Laws of Howel Dda: A Facsimile Reprint of Llanstephan MS. 116* (London, 1912).

<sup>30</sup> 'As a comparatively late version of the laws, it has little legal interest but it is very valuable for students of Welsh philology as it explains some of the phraseology of the laws and preserves interesting dialectal peculiarities'; *ibid.*, t. x.

<sup>31</sup> Ifor Williams, *Y Beirniad*, 3 (1913), 212–14.

<sup>32</sup> Cafwyd astudiaeth o *S* a *Tim* (canol y bymthegfed ganrif) yn Christine James, 'Golygiad o BL. Add. 22356 o Gyfraith Hywel ynghyd ag astudiaeth gymharol ohono a Llanstephan 116'; o *H* (canol y bedwaredd ganrif ar

ddeg) yn Gwenno Angharad Elias, ‘Golygiad ac astudiaeth destunol o’r Llyfr Cyfraith yn LIGC, Llawysgrif Peniarth 164 (H), ynghyd â’r copiâu ohoni yn llawysgrifau Peniarth 278 a Llanstephan 121’ (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Bangor], 2007), ac o Z (canol yr unfed ganrif ar bymtheg, ond yn gopi o destun hŷn) yn Sarah Elin Roberts (gol.), *Llawysgrif Pomffred: An Edition and Study of Peniarth MS 259B* (Leiden, 2010).

<sup>33</sup> Aled Rhys Wiliam, ‘Y Deddfgronau Cymraeg’, *CLIGC*, 8 (1953–54), 97–103.

<sup>34</sup> Gw. §§ 1234–6n, ynghyd â Chonsbectws 2.

<sup>35</sup> Ceir ambell eithriad: e.e., er na nodir hynny, daw rhannau o raglith dull Dyfed (cyf. i, tt. 340–2), o S (§§ 2518–24). Cyfeirir at ddarlleniadau amrywiol S yn nhroednodiadau dull Dyfed, *passim*.

<sup>36</sup> Y mae S yn cynnwys traethig arferol Bleg ar Feichiau (*LIBleg* § 40) yn rhan o’i phrif destun, §§ 140–86.

<sup>37</sup> Diddorol nodi bod U hithau’n cynnwys deunydd ar ymylon ei dail ac ar ei dail ôl sydd wedi ei dynnu o Bleg.

<sup>38</sup> Owen, *Ancient Laws*, cyf. i, t. xx.

<sup>39</sup> Am gyflwyniad defnyddiol i’r *genre*, gw. Dafydd Jenkins (gol.), *Damweiniau Colan: Llyfr y Damweiniau yn ôl Llawysgrif Peniarth 30* (Aberystwyth, 1973), Rhaglith.

<sup>40</sup> Ar y trioedd fel *genre* cyfraith, gw. astudiaeth gynhwysfawr Sarah Elin Roberts, *The Legal Triads of Medieval Wales* (Cardiff, 2007).

<sup>41</sup> Dull sy’n mynd yn ôl at Blaton a’r Hen Fyd yw hwn yn ei hanfod. Am enghraifft adnabyddus yn Gymraeg, gw. ‘Historia Lucidar’ yn J. Morris-Jones a John Rhys (gol.), *The Elucidarium and Other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi* (Oxford, 1894); Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen, *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986), tt. 10–13.

<sup>42</sup> Gw. T. Jones Pierce, ‘Social and Historical Aspects of the Welsh Laws’, yn J. Beverley Smith (gol.), *Medieval Welsh Society: Selected Essays by T. Jones Pierce* (Cardiff, 1972), tt. 353–68.

<sup>43</sup> T. Jones Pierce, ‘The Law of Wales—the Last Phase’, *Medieval Welsh Society*, tt. 369–76.

<sup>44</sup> Fel y manylir isod, tt. xxxvi–xxxvii, gellir gweld copi’ydd S ar waith fel golygydd yn achos ei gopi o destun Bleg hefyd.

<sup>45</sup> Dafydd Jenkins, mewn adolygiad o Melville Richards (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda o Lawysgrif Coleg yr Iesu Rhydychen LVII* (Caerdydd, 1957), yn *CHC*, 1 (1960–63), 106.

<sup>46</sup> Gw. tt. xvi–xix.

<sup>47</sup> Cf. barn T. Jones Pierce, ‘With native society in so general a state of flux, it was natural that anchorage should have been sought in authoritative texts which incorporated as much as was known about the traditional law of the country—texts which would to the end serve, with their expanded recensions, as a touchstone by which to test the equity of new corrective rules of law’; ‘Social and Historical Aspects of the Welsh Laws’, t. 358.

<sup>48</sup> Gw. ymhellach T. Jones Pierce, ‘The Laws of Wales—The Kindred and The Bloodfeud’, *Medieval Welsh Society*, tt. 289–308.

<sup>49</sup> Ar ddelweddau llsgr. LIGC Peniarth 28, gw. Daniel Huws, *Peniarth 28: Darluniau o Lyfr Cyfraith Hywel Dda* ([Aberystwyth], 1988).

<sup>50</sup> Gw. R. R. Davies, ‘The Administration of Law in Medieval Wales: The Role of the *Ynad Cwmwd* (*Judex Patrie*)’, yn T. M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen a D. B. Walters (gol.), *Lawyers and Laymen*, (Cardiff, 1986), tt. 258–73; J. Beverley Smith, ‘Judgement under the Law of Wales’, *SC*, 39 (2005), 63–103.

<sup>51</sup> Gw. *Calendar of Chancery Rolls, Various. A.D. 1277–1326* (London, 1912), tt. 206–10.

<sup>52</sup> Gw. Davies, ‘The Administration of Law in Medieval Wales’, tt. 262–3; Jenkins (gol.), *Llyfr Colan*, §§237–7, ynghyd â’r nodiadau ar yr adnodau hynny, tt. 86–7.

<sup>53</sup> Dichon na ddylid gorbwysleisio statws ‘amatur’ y brawdwy o fraint tir, fodd bynnag. Gan y caent eu dirwyo’n hallt am unrhyw gamddyfarniadau a wnaent, rhaid tybio y byddent o leiaf yn ddyinion profiadol yn materion y gyfraith, ac yn medru trin cynnwys y testunau ysgrifenedig yn briodol ac yn ddeheuig.

<sup>54</sup> Gw. yn arbennig, amryw o’r ysgrifau yn T. Jones Pierce, *Medieval Welsh Society*; Goronwy Edwards, *The Principality of Wales 1267–1967: A Study in Constitutional History* (Denbigh, 1969); R. R. Davies, ‘The Twilight of Welsh Law, 1284–1536’, *History*, 51 (1966), 143–64; *idem*, ‘The Administration of Law in Medieval Wales’; J. Beverley Smith, ‘Gwleidyddiaeth a Diwylliant Cenedl 1282–1400’, *Efrydiau Athronyddol*, 38 (1975), 55–72; *idem*, ‘Judgement under the Law of Wales’; Llinos Beverley Smith, ‘“Cannwyll disbwyll a dosbarth”’: Gwŷr Cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar’, *Ceredigion* 10 (1986), 229–53.

<sup>55</sup> Am grynodedb hwylus o’r sefyllfa gyfansoddiadol, gw. Edwards, *The Principality of Wales 1267–1967*, yn enwedig tt. 11–13 a 20–1.

<sup>56</sup> *Statutes of the Realm*, cyf. 1 (1101–1376/7) (London, arg. 1963), t. 55.

<sup>57</sup> Gw. J. Beverley Smith, ‘Crown and Community in the Principality of North Wales in the Reign of Henry Tudor’ *CHC*, 3 (1966–67), tt. 145–71.

<sup>58</sup> Gw. W. Ogwen Williams, ‘Some Notes on Tudor Cardiganshire’, *Ceredigion*, 6 (1969), 137–50.

<sup>59</sup> PRO Just. 1/1156, 6. Carwn ddiolch i’r Athro J. Beverley Smith am dynnu fy sylw at y ddogfen hon, ac am ei haelioni wrth ganiatáu imi bwysio ar ddarlith anghyhoeddedig sy’n ei thrafod.

<sup>60</sup> Am y berthynas rhwng testun Bleg a Lladin D, gw. Hywel D. Emmanuel, 'Llyfr Blegywryd a Llawysgrif Rawlinson 821', *BBGC*, 29 (1960), tt. 23–8.

<sup>61</sup> Gw. IIsgrau LIGC Rhydodyn 4224–9. Cyhoeddwyd y testun yn T. Jones Pierce, 'The Law of Wales—the Last Phase', *TAGC* (1963), 26–9. Yn ôl Rhydodyn 4224, gosododd y brawdwr eu seliau ar eu dyfarniad ar 'yr wythved dydd o vis mehefin y ddwydddecvet vlwyddyn ar higeint o dynnassat y brenhin Harry Wythfed'—sef 1540, bedair blynedd ar ôl pasio *An Acte for Laws & Justice to be ministred in Wales in like fourme as it is in this Realme* ('Deddf Uno', 1536), a ordeiniodd mai 'the Laws Ordinances and Statutes of this Realm of England [...] and none other [...] shall be had used practised and executed in the said Country or Dominion of WALES'. Gellid dehongli'r achos dan sylw fel tystiolaeth nad oedd effeithiau Deddf 1536 mor absoliwt ag y bwriedid iddynt fod. Yn wir, y mae pob lle i gredu i rai arferion lled-gyfreithiol megis prid barhau i gael eu penderfynu mewn dadleuoedd answyddogol mor ddiweddar â'r ail ganrif ar bymtheg, ac awgrymodd T. Jones Pierce fod rhai nodweddion yn nogfennau achos Caeo yn 1540 yn awgrymu eu bod yn gynnrych 'extra-curial arbitration between parties who, despite official prohibition, were stubbornly adhering to customary habits'; 'The Law of Wales—the Last Phase', 25.

<sup>62</sup> Gw. y Mynegai i Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government. 1. South Wales, 1277–1536* (Cardiff, 1972), tt. 579–80.

<sup>63</sup> *Ibid.*, t. 514; gw. hefyd tt. 518, 519.

<sup>64</sup> *Ibid.*, y Mynegai, s.v. 'dosbarthwr'.

<sup>65</sup> Llinos Beverley Smith, '“Cannwyll disbwyll a dosbarth”: Gwŷr Cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar', 229–30. Gw. hefyd. Christine James, 'Dafydd (Llwyd), Dosbarthwr: The Literary Culture of Some Cardiganshire Lawyers', yn Noel S. B. Cox a Thomas Glyn Watkin (gol.), *Canmlwyddiant, Cyfraith a Chymreictod*, Cymdeithas Hanes Cyfraith Cymru, cyf. 11 (Bangor, [2013]), tt. 154–69.

<sup>66</sup> Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Lewys Glyn Cothi* (Caerdydd, 1995), cerdd 58, llau. 27–34.

<sup>67</sup> Daw'r dyfyniad o olygiad newydd A. Cynfael Lake o gerddi Hywel Dafî. Carwn ddiolch i Dr Lake am gael ymgynghori â'r gwaith cyn ei gyhoeddi.

<sup>68</sup> Dafydd Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen* (Aberystwyth, 1998), cerdd 8, llau. 45–6. Yr oedd Hywel a Meurig yn feibion i gefnder y bardd, Meurig Fychan ab Ynyr Fychan; *ibid.*, t. 90.

<sup>69</sup> E. Bachellery (gol.), *L'Oeuvre Poétique de Gutun Owain* (Paris, 1950), cerdd 42, llau. 31–2.

<sup>70</sup> Griffiths, *The Principality of Wales*, t. 125 a'r ffynonellau a nodir yno.

<sup>71</sup> Johnston (gol.), *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, cerdd 4, llau. 45–52.

<sup>72</sup> *Ibid.*, t. 86.

<sup>73</sup> Gw. Griffiths, *The Principality of Wales*, t. 117 a'r ffynonellau a nodir yno.

<sup>74</sup> Er nad yw'r farwnad yn cynnwys unrhyw fanylion am ei gwrthrych ar wahân i'r enw personol, Rhydderch, derbynir yn gyffredin mai Rhydderch ab Ieuan Llwyd sydd dan sylw. Am grynodedd o'r dystiolaeth, gw. Rhiannon Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill* (Aberystwyth, 2000), t. 269.

<sup>75</sup> Ifans (gol.), *Gwaith Gruffudd Llwyd*, cerdd 13, llau. 66 a 70; gw. hefyd nodyn y golygydd ar d. 277 sy'n tynnu sylw at enghreifftiau eraill o dechneg gair mwys llenyddol / cyfreithiol yn y gerdd.

<sup>76</sup> R. Iestyn Daniel (gol.), *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest* (Aberystwyth, 2002), cerdd 1, llau. 8, 14, 39 a 12.

<sup>77</sup> Gw. Daniel Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff & Aberystwyth, 2000), tt. 227–68. Y mae'r llawysgrif wreiddiol bellach wedi ei rhwymo'n ddwy gyfrol, IIsgrau LIGC Peniarth 4 a 5.

<sup>78</sup> Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', tt. 246–7.

<sup>79</sup> Gw. Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', *Medieval Welsh Manuscripts*, tt. 193–226.

<sup>80</sup> J. Beverley Smith, 'Einion Offeiriad', *BBGC*, 20 (1962–64), 347.

<sup>81</sup> Cf. yr uchelwr arall tra diwylliedig hwnnw, Hopcyn ap Tomas o Gwm Tawe, y gwyddom fod llyfr cyfraith ymhlith y llawysgrifau y meddai arnynt (sef *J*, y mae'n bur debygol). Ar ddiwylliant eang Hopcyn ap Tomas, gw. Christine James, '“Llwyr Wybodau, Llên a Llyfrau”: Hopcyn ap Tomas a'r Traddodiad Llenyddol Cymraeg', yn Hywel Teifi Edwards (gol.), *Cwm Tawe*, Cyfres y Cymoedd (Llandysul, 1993), tt. 4–44; *eadem*, 'Hopcyn ap Tomas a “Llyfrgell Genedlaethol” Ynysforgan', *TAGC 2006*, 13 (2007), 31–57.

<sup>82</sup> Huws, 'Llyfr Gwyn Rhydderch', tt. 246–7. Cf. hefyd y casgliad o destunau crefyddol yn IIsgr. Coleg Iesu Rhydychen 119 ('Llyfr yr Ancr'), a gynullwyd gan Ancr Llanddewibrefi yn 1346 ar gyfer ei gyfaill Gruffudd ap Llywelyn ap Philip ap Trahaearn o'r Cantref Mawr yn sir Gaerfyrddin—uchelwr arall a gyflawnodd amryw o swyddogaethau ffurfiol yn yr 1330au; gw. Griffiths, *The Principality of Wales*, tt. 296, 385.

## PENNOD 2—LLYFR BLEGYWYRYD A PHERTHYNAS Y LLAWYSGRIFAU

<sup>1</sup> Owen, *Ancient Laws*, cyf. i, t. xix.

<sup>2</sup> Wade-Evans, *Welsh Medieval Law*, t. ix.

<sup>3</sup> Edwards, 'The Historical Study of the Welsh Lawbooks', 150.

<sup>4</sup> Owen, *Ancient Laws*, cyf. i, tt. xxix–xxxii.

<sup>5</sup> Gw. *Llor*, t. xx.

<sup>6</sup> Am ddisgrifiadau o'r llawysgrifau unigol, gw. Huws, *Repertory*. Gw. hefyd Evans, *RMWL*, *passim*; Timothy Lewis, 'A Bibliography of the Laws of Hywel Dda', *AS*, 10 (1928), 159–69; Harris, *A Bibliography of the Welsh Law Manuscripts*. Gosodwyd sigla newydd ar rai llawysgrifau yn lle'r rhai Eingl-Sacsonaidd a ddefnyddiodd Owen yn *Ancient Laws* oherwydd yr anawsterau ymarferol a geir wrth geisio atgynhyrchu'r symbolau hynny mewn cyfryngau electronig ac ar lwyfannau digidol cyfoes. Am restr o lawysgrifau canoloesol Cymraeg Cyfraith Hywel, gw. tt. xxvi–xxvii.

<sup>7</sup> Defnyddiwyd *O, Tr ac L* gan Stephen J. Williams a J. Enoch Powell wrth lunio testun *LIBleg*.

<sup>8</sup> Disgrifiwyd *Bost* gan Morfydd E. Owen, 'Llawysgrif Gyfreithiol Goll', *BBGC*, 22 (1968), 338–43. Fe'i prynwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2012.

<sup>9</sup> Golygwyd *J* gan Melville Richards, *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llawysgrif Coleg yr Iesu LVII Rhydychen* (Caerdydd, 1957); cafwyd arg. diwygiedig gan aelodau Seminar Cyfraith Hywel (Caerdydd, 1990).

<sup>10</sup> Gosodwyd y llsgr. hon o dan y pennawd 'The Welsh or Anomalous Laws' yn *Ancient Laws*, cyf. i, t. xxxii—peth sy'n egluro'r siglum Eingl-Sacsonaidd a osodwyd arni'n wreiddiol. Fodd bynnag, testun Bleg yw hi mewn gwirionedd, yn gopi o *Q*.

<sup>11</sup> Gw. Morfydd E. Owen a Dafydd Jenkins, 'Gwilym Was Da', *CLIGC*, 21 (1979–80), t. 429.

<sup>12</sup> Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *CLIGC*, 21 (1979–80), 250; Richards (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llawysgrif Coleg yr Iesu LVII Rhydychen* (arg. 1990), tt. xix–xx; Christine James, '“Llwyr Wybodau, Llên a Llyfrau”': Hopcyn ap Tomas a'r Traddodiad Llennyddol Cymraeg', tt. 29–36.

<sup>13</sup> J. Enoch Powell, 'Floating Sections in the Laws of Howel', *BBGC*, 9 (1937), 27–34; *LIBleg*, tt. xxxix–xlvi.

<sup>14</sup> Powell, 'Floating Sections', 27.

<sup>15</sup> *LIBleg*, tt. xl–xlii.

<sup>16</sup> Y mae o leiaf un ffactor gwahaniaethol arall rhwng *OTr* ac *L*, sef manylion eu darlenniadau. Y mae darlenniadau *OTr* yn gyson nes at ei gilydd nag y maent at rai *L*. Ni thynnodd Enoch Powell sylw at y gwahaniaethau hyn yn y Rhagymadrodd i *LIBleg*, ac ni ddefnyddiodd y ffactor hwn yn ei ddatl am yr adrannau crwydrol (efallai am nad yw'r gwahaniaethau'n amlwg yn yr Amrywiadau a'r Nodiadau sy'n dilyn y testun yn *LIBleg*, tt. 133–235).

<sup>17</sup> Y mae *N* yn destun diddorol. O ran trefn a lleoliad y trioedd ynddo y mae'n perthyn i destunau Math A, ond nid yw'n cynnwys Cyfreithiau'r Llys. Fel testunau Math B, y mae *N* wedi cadw'r traethig am y Brawdwr, ond fe'i ceir yn ei leoliad 'arferol' (Math A) yn hytrach na'i ohirio fel y gwna gweddill testunau Math B. Y mae'n bosibl y gellir cysylltu'r modd y mae *N* yn hepgor Cyfreithiau'r Llys—er ei bod o ran trefn ei thraethigau yn destun Math A—gan y ffaith mai gwaith yr un copïydd yw *O, Tr ac N*, sy'n ei enwi ei hun yn *Gwilym Wasta or Drefnewyd* mewn coloffon yn *Tr*. Tybed ai rhy ffansiwl fyddai awgrymu bod *N* yn cynrychioli rhyw 'gynnig cyntaf' ar y gwaith golygu ac ad-drefnu helaethach a gyflawnodd yn *O* a *Tr*? Posibilrwydd arall, fel yr awgrymodd Paul Russell mewn papur anghyhoeddiedig, yw bod Gwilym Was Da yn copio o gynsail ddiffygiol. Nid yw *N* yn cynnwys y frawddeg esboniadol, 'Peidyaw weithon a wnawn ...'.

<sup>18</sup> Gan fod dechrau'r ddwy lawysgrif hyn bellach ar goll, ni ellir profi'n derfynol a gynhwysent Gyfreithiau'r Llys yn wreiddiol ai peidio; ar sail trefn eu traethigau y mae'n rhesymol credu iddynt wneud.

<sup>19</sup> Rhaid cywiro gosodiad Enoch Powell am leoliad y trioedd yn *IS*: 'in *IS* the triads have been broken up and scattered over the whole work to positions where they were either relevant or fancied to be so'; Powell, 'Floating Sections', 29. Er bod trefn y trioedd yn *IS* ychydig yn wahanol i'w trefn yn *OTr*, rhaid pwysleisio mai yr un yw eu lleoliad, sef ar ddiwedd y testun Bleg—nid ydynt yn wasgaredig. (Y mae'r trioedd ychydig yn fwy wasgaredig nag arfer yn *QEpP*, ond nid oes unrhyw awgrym yn nwy drafodaeth Powell ar lawysgrifau Bleg iddo astudio'r testunau hynny.)

<sup>20</sup> Am awgrym ynghylch pam y gollyngwyd Cyfreithiau'r Llys o *O, Tr*, gw. *LIBleg*, tt. xl–xli; Morfydd E. Owen a Dafydd Jenkins, 'Gwilym Was Da', *CLIGC*, 21 (1980), 429, ac *idem*, 'Welsh Law in Carmarthenshire', *The Carmarthenshire Antiquary*, 18 (1982), 21. Gw. hefyd n. 17.

<sup>21</sup> Powell, 'Floating Sections', 28.

<sup>22</sup> *Ibid.*, 28–9.

<sup>23</sup> Am fanylion y gwahaniaethau hyn, gw. *LIBleg*, t. xlii, a cf. Consbectws 1.

<sup>24</sup> *LIBleg*, t. xliii.

<sup>25</sup> *Ibid.*, t. xliv.

<sup>26</sup> Gwêl Powell y ffaith bod y trioedd yn digwydd ar ddiwedd y testun yn *O* a *Tr*—sef y lle naturiol ar gyfer deunydd ychwanegol—yn arwydd bod y llawysgrifau hyn yn perthyn i dras fwy hynafol a phur nag *L*: ‘Floating Sections’, 29. Er na fyddwn o anghenraid yn anghytuno â rhesymeg Enoch Powell ar y pwynt hwn, nid yw’n gyson mewn gwirionedd â rhagdybiaeth sylfaenol ei ddamcaniaeth am adrannau crwydrol, gan fod honno’n dibynnu ar y ddadl bod deunydd ychwanegol yn cael ei gorffori yn y testun ‘either at random or in the place where [the next copier] thought them most relevant’; ‘Floating Sections’, 28. Yn ôl damcaniaeth Powell, felly, ni all y ffaith bod y trioedd yn *OTr* wedi eu lleoli ar ddiwedd corff y testun fod yn fwy arwyddocaol o safbwynt eu hynafiaeth na’r ffaith bod *L* yn cynnwys y trioedd ar ganol y testun, gan fod y cwbl yn dibynnu’n llwyr ar hap neu ar fympwy y copiyydd.

<sup>27</sup> Dylid nodi yn y fan hon nad oes unrhyw dystiolaeth annibynnol i fodolaeth ‘llyfr y trioedd’ o’r math y mae damcaniaeth Enoch Powell yn dibynnu arno.

<sup>28</sup> Cymhlethir unrhyw astudiaeth gymharol o drefn y trioedd yn *OTr* ac *L* gan y ffaith bod *O* a *Tr* yn fylchog iawn tuag at eu diwedd. Fodd bynnag, ni thynnodd Powell sylw at hyn wrth iddo gymharu lleoliad a threfn y trioedd yn *OTr* ac *L* (*LIBleg*, tt. xlii–xliv), ac o ganlyniad y mae ei ddadansoddiad yn ddi-sail ar lawer ystyr. Wedi dweud hynny, y mae rhagdybiaeth Powell mai’r un trioedd yn union oedd yn *OTr* ac *L* yn wreiddiol yn gasgliad rhesymegol ar sail y dystiolaeth fylchog a gadwyd: nid oes yr un triawd yn *OTr* nas ceir yn *L*, a cheir *hiatus* digonol yn *OTr* i roi cyfrif am weddill trioedd *L*. Ceir cadarnhad pellach mai’r un trioedd yn union a fyddai’n debygol iawn o fod yn *OTr* ac *L* yn wreiddiol wrth droi at y testunau afreolaidd eu trefn, *QEP* ac *IS*. Y peth trawiadol yw mai’r un trioedd yn union (gydag ychydig o fân wahaniaethau y gellir rhoi cyfrif amdanynt yn nhermau gwallau copio ac ati) sydd yn *QEP* ac *IS* (ond mewn trefn a lleoliad gwahanol yn y ddau grŵp) ag a geir yn *L*, ac y mae hyn yn ei dro’n awgrym cryf pellach mai’r un trioedd yn union fyddai i’w gweld yn *OTr* petaent yn gyflawn.

<sup>29</sup> Gan mai ychydig o wahaniaeth o ran trefn a lleoliad sydd rhwng trioedd *OTr* a rhai *IS*, o dderbyn damcaniaeth Enoch Powell gellid dadlau bod y rhain yn hanu o’r un gynsail, a bod y gynsail honno ag ychydig o droedd ar ddalennau rhydd o femrwn nad oeddynt eto wedi ymsefydlu yng nghorff y gwaith, ac felly’n gallu amrywio yn eu trefn yn null yr ‘adrannau crwydrol’.

<sup>30</sup> Teg cydnabod yn y fan hon fod *QEP* yn cynnwys yn eu canol lawer o ddeunydd nas ceir yn y llawysgrifau Bleg eraill, ond deunydd a dynnwyd o’r dulliau eraill ynghyd â deunydd diweddarach o fathau eraill yw hyn, ac nid traethigau Bleg. Trafodir y deunydd hwn ymhellach isod. Ag unffurfiaeth cynnwys y trioedd ar draws llawysgrifau Bleg, cymharer tystiolaeth y cynffonnau a atodwyd i rai o lawysgrifau’r bymthegfed ganrif, megis *S*, *Tim*, *Q* a *J*. Fel y gwelwyd, deunydd atodol o amryw fathau a ychwanegwyd at ddiwedd testun Bleg yw’r rhain, ac er bod ambell ddarn yn gyffredin i bob un o’r cynffonnau a oroesodd, y mae pob cynffon unigol yn cynnwys yn ogystal ddeunydd ‘unigryw’ nas ceir yn y llawysgrifau eraill. Pe bai damcaniaeth Powell am yr ‘adrannau crwydrol’ yn ddilys, disgwyliid gweld peth o’r un egwyddor, sef deunydd unigryw i un llawysgrif neu grŵp bach o lawysgrifau, yng nghorff y testunau Bleg yn ogystal, ond nid oes enghreifftiau o hyn (ac eithrio’r traethig Ior ar ‘Fach’ a ychwanegwyd yn *IS*, a’r ychwanegiadau yn *QEP* a grybwyllwyd ar ddechrau’r nodyn hwn—ond nid ychwanegiadau ‘unigryw’ mo’r rhain mewn gwirionedd).

<sup>31</sup> Powell, ‘Floating Sections’, 28.

<sup>32</sup> Gw. n. 20. Fel y gwelwyd eisoes, byddai’r traethigau hyn ar thema Brawdwy a Brawd yn parhau’n berthnasol iawn tan ddiwedd cyfnod ymarferol gweinyddu Cyfraith Hywel, tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg.

<sup>33</sup> Powell, ‘Floating Sections’, 29. Gw. hefyd n. 28.

<sup>34</sup> Byddai wedi bod yn gwbl bosibl i gasgliad trioedd o’r fath gael ei ychwanegu at gopi o Bleg yn y modd y cynigiodd Powell, sef ei daro rhwng dwy ddalen o’r llyfr cyfraith, ac i’r trioedd wedyn gael eu hymgorffori’n rhan o’r llyfr cyfraith gan y copiyydd nesaf.

<sup>35</sup> A fyddai, er enghraifft, wedi gosod marc ar ymyl y ddalen yn ei gynsail gyferbyn â’r adrannau a oedd i’w symud?

<sup>36</sup> Y mae diwedd *P* bellach yn eisiau.

<sup>37</sup> Er nad yw patrwm gweddill y adran ganol mor daclus â’r rhan a ddisgrifiwyd, yr un yw’r patrwm sylfaenol hyd ddiwedd yr ‘afreoleidd-dra’. (Y mae’r patrwm yn dechrau diffygio tua’r diwedd gan fod traethigau’r drefn ‘arferol’ eisoes wedi cael eu cynnwys o fewn traethig cyfansawdd cynharach.)

<sup>38</sup> Y Rhaglith a Chyfreithiau’r Llys yw cynnwys Bleg hyd at § 34, ac y mae natur y deunydd hwnnw’n esbonio i raddau helaeth iawn pam nad ymyrrodd copiyydd cysail *QEP* yn y rhan gyntaf honno o’r testun.

<sup>39</sup> Nid yw hyn yn hollol gywir: y mae *OTr* ac *IS* yn gytûn wrth leoli’r trioedd ar ddiwedd y testun Bleg, ond fel y nodwyd eisoes yr oedd Enoch Powell o dan ryw gamargraff dybryd ynghylch lleoliad y trioedd yn *IS*.

<sup>40</sup> Powell, ‘Floating Sections’, 31.

<sup>41</sup> *LIBleg*, tt. xliv–xlv (myfi biau’r italeiddio).

<sup>42</sup> Dylid nodi bod *IS* ychydig yn fwy eithafol nag *OTr* wrth hepgor Cyfreithiau’r Llys gan eu bod yn gollwng yn ogystal *LIBleg* §§ 5 a 7 ynghyd â rhan o § 6, sef deunydd sy’n digwydd yn ei leoliad arferol yn *OTr*.

<sup>43</sup> Tybed a oedd copiyydd *I* yn ymwybodol o hyn, ac iddo geisio canfod lleoliad gwell i *LIBleg* § 37 trwy ei gynnwys yn gynharach yn y testun—ac wedyn anghofio iddo wneud hyn a chopïo § 37 yr ail dro ar ôl § 71?

<sup>44</sup> Gw. nn. 17 ac 20.

<sup>45</sup> Y mae diwedd y testun Bleg yn eisiau yn y tair llawysgrif gynharaf arall, sef *O*, *Tr* ac *N*, ac felly ni wyddys bellach sut yr oedd y testunau hyn yn gorffen yn wreiddiol.

<sup>46</sup> Y mae'n bur ryfedd nad oes unrhyw gyfeiriad at y deunydd ychwanegol hwn yn *LIBleg* (heb sôn am ei argraffu) er mai o *L* y cymerwyd rhan olaf adran yr Arferion Cyfraith (*LIBleg* § 91), gan fod *O* a *Tr* yn ddiffygiol ar eu diwedd.

<sup>47</sup> *L* a *Bost* yw'r unig llawysgrifau a gadwyd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg sydd yn cynnwys diwedd y testun Bleg (*LIBleg* § 91, Arferion Cyfraith) yn gyflawn. Ni allwn wybod a oedd y deunydd ychwanegol hwn i'w gael hefyd ar ddiwedd *R* a *T* yn wreiddiol gan fod diwedd y testunau hynny bellach yn eisiau.

<sup>48</sup> Yr un modd, y mae diwedd y testun Bleg yn eisiau yn y testunau o'r bymthegfed ganrif, *M*, *P* a *Llan*, ac felly ni allwn wybod bellach sut yr oedd y rhain yn diweddu'n wreiddiol.

<sup>49</sup> Gw. tt. xxxiv–xxxv.

<sup>50</sup> Am fanylion y cyfatebiaethau mewn perthynas ag *S*, gw. Conspectws 2.

<sup>51</sup> Gw. hefyd Christine James, 'Ysgrifydd Anhysbys: Proffil Personol', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XXIII* (Dinbych, 1997), tt. 44–72.

<sup>52</sup> Fel y gwelwyd eisoes, ceir enghraifft arall, ymhlith y llawysgrifau Bleg cynharaf, o'r un copiyydd yn copïo dau fersiwn gwahanol o Bleg, gan fod *O*, *Tr* ac *N* ill tair yn gynnrych Gwilym Was Da. Gw. nn. 11, 17 ac 20.

<sup>53</sup> Gw. y ddelwedd ar wefan y Llyfrgell Brydeinig:

<http://www.bl.uk/onlinegallery/onlineex/illmanus/other/011add000022356u00003v00.html>

<sup>54</sup> Cadwyd fersiwn arall, diweddarach ar y cynllun yn llsgr. LIGC 21895, ff. 20v. Llawysgrif yw hon sy'n cynnwys disgrifiad o hanes a daearyddiaeth Cymru, o waith John Gwynne o Lanidloes, ac fe'i dyddir c. 1561–71.

<sup>55</sup> Gw. Huws, *Repertory*. Cywirer bellach yr awgrym yn James, 'Golygiad o BL Add. 22356', t. xciii, mai gwaith y copiyydd ei hunan yw'r llun yn y ddwy llawysgrif fel ei gilydd.

<sup>56</sup> *S* §§ 2197–9; *Tim* ff. 58<sup>27–39</sup>. Y mae'r ddau fersiwn o'r testun ychydig yn wahanol i'w gilydd, a *Tim* yn cadw'n gyson nes at ddarlleniadau Ior.

<sup>57</sup> Y mae'n ddigon posibl bod *Tim* hefyd wedi cynnwys yn wreiddiol yn rhan gyntaf ei chynffon (gw. isod), ar y ddalen sydd bellach ar goll rhwng ff. 44 a 45, gopi o'r fersiwn diwygiedig hwn o'r testun a gadwyd yn *S*.

<sup>58</sup> Mynegwyd hyn i mi mewn gohebiaeth bersonol. Am drafodaeth bellach, gw. Christine James, 'The Illustration of the Court in BL Add. 22356 and Other Manuscripts' (ar y gweill).

<sup>59</sup> Gwyddys am un enghraifft arall o alw ar 'Dewi Breui' mewn llawysgrif Gymraeg, sef BL Add. 19710, ff. 38. Llawysgrif a ddyddiwyd i ail hanner y bymthegfed ganrif yw hon, a chanu brud a phroffwydoliaethau rhyddiaith yw ei phrif gynnwys, er bod llaw gyfoes hefyd wedi ychwanegu peth deunydd o natur gyfreithiol; gw. Huws, *Repertory*. Er bod galw ar y seintiau yn nodwedd anghyffredin mewn llawysgrifau Cymraeg a Chymreig, nid yw'r ddieithr o gwbl mewn llawysgrifau Gwyddelig; gw. Charles Plummer, 'On the Colophons and Marginalia of the Irish Scribes', *Proceedings of the British Academy*, 12 (1926), 11–42.

<sup>60</sup> Gw. hefyd. y drafodaeth ar y dosbarthwr Dafydd Llwyd ap Gwilym, tt. xxi–xxii.

<sup>61</sup> Am yr 'hanes', gw. D. Simon Evans (gol.), *Buched Dewi* (Caerdydd, 1965), t. 17. Digwydd yr enw 'Bryngwyn' o hyd ar fferm yn ardal Blaenpennal, a fu gynt ym mhlwyf Llanddewibrefi.

<sup>62</sup> Am fanylion ffurfiau a lleoliadau'r gwahanol enwau hyn yn nhestun *S*, gw. y Mynegai i Enwau Priod ac Enwau Lleoedd ar ddiwedd yr astudiaeth hon.

<sup>63</sup> Ar Gwenog a Gwnnen, gw. Jane Cartwright, 'Santesau Ceredigion', *Ceredigion*, 14:1 (2001), 25–30.

<sup>64</sup> Ceir cysegriad hynafol i Lawrens yn eglwys Gunston, nid nepell o Ddinbych-y-pysgod yn sir Benfro, ac un arall ym Mhebbidiog.

<sup>65</sup> Gw. Katherine Olson, 'Ar ffordd Pedr a Phawl: Welsh Pilgrimage and Travel to Rome, c.1200–1530', *CHC*, 24 (2008–09), 1–40. Gw. hefyd Griffith Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*, *Y Cymmrodor*, 23 (London, 1912).

<sup>66</sup> Leslie Harries (gol.), *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill* (Caerdydd, 1953), cerdd 29, llau. 59–60.

<sup>67</sup> Priodolir y cywydd mewn rhai llawysgrifau i Hywel Dafï, ac fe'i golygwyd o'r newydd gan A. Cynfael Lake, cerdd 133, llau. 47–50 (i ymddangos). Fe'i priodolir hefyd i Lywelyn ap Hywel ab Ieuan Gronw, ac fe'i golygwyd gan Nest Scourfield yn 'Gwaith Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, Llywelyn ap Hywel ab Ieuan ap Gronw, Ieuan Ddu'r Bilwg, Ieuan Rudd a Llywelyn Goch y Dant' (traethawd MPhil anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Abertawe], 1992), cerdd 12. Gw. hefyd Hartwell Jones, *Celtic Britain and the Pilgrim Movement*, 187.

<sup>68</sup> Thomas Roberts ac Ifor Williams (gol.), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor* (Cardiff, 1923), cerdd 17.

<sup>69</sup> Ceir y ffurf 'Tyddyn Lawrens' gan Lewys Dwnn (1586–1613); gw. Samuel Rush Meyrick (gol.), *Heraldic Visitations of Wales* (Llandovery, 1846), cyf. 1, t. 39. Cyfeirir at 'tîre Lawrens' yn llsgr. LIGC Noyadd Trefawr Deeds and Documents 461, sef ewylllys un David Thomas Parry, dyddiedig 1628/9. (Y mae'n ddigon posibl

mai'r un lle yw Tyddyn Lawrens a Tire Lawrens, ac nid oes unrhyw sicrwydd mai Lawrens Ferthyr a goffeir yn yr enwau hyn.)

<sup>70</sup> Dyma fanylion y cyfeiriadau yn *Tim*: *g6enoc gwnnen* (ff. 28v<sup>18</sup>); *gwnnionyd ywch kerdin* (ff. 29<sup>28</sup>); *g6enoc* (ff. 38v<sup>7</sup>); *Mair Seren Eglyrach na'r heul* (godre ff. 48); *G6enoc : G6nen* (ff. 55v<sup>8</sup>); *Gwenoc : Gwnen : Gwionionyd* (ff. 56<sup>37</sup>); *G6enoc* (ff. 56v<sup>8</sup>); *Gwenoc : Gwnen Gwionionyd ywch kerdin* (ff. 60v<sup>17</sup>). Sylwer bod yr enwau yn dilyn patrwm sydd bron yn fformiwlâig. Anodd credu bod unrhyw arwyddocâd defosiynol penodol i'r patrwm fel y cyfryw gan ei bod yn ymddangos mai gofod sy'n bennaf gyfrifol am benderfynu sawl elfen o'r patrwm sy'n digwydd ar unrhyw bwynt yn y testun.

<sup>71</sup> Mae eu dyddiau gŵyl fel a ganlyn: Gwenog, 3 Ionawr; Ddewi, 1 Mawrth; Lawrens, 10 Awst; Gwnnen, 13 Rhagfyr.

<sup>72</sup> Cf. y nodiadau sy'n britho'r llawysgrifau Gwyddelig; gw. n. 59 uchod.

<sup>73</sup> Dangosir y gyfatebiaeth o ran cynnwys a threfn yng Nghonsbectws 2. Collwyd dail o *Tim* ar ôl ff. 31, 38, 39 a 44. Gw. hefyd n. 74.

<sup>74</sup> Dyma ddadansoddiad o gydiad *Tim*: A<sup>8</sup> (2 yn eisiau), B<sup>8</sup>, C<sup>8</sup>, D<sup>8</sup>, E<sup>8</sup> (8 yn eisiau), F<sup>8</sup> (2 ac 8 yn eisiau), G<sup>8</sup>, H<sup>8</sup> (3 a 6 yn eisiau), I<sup>4</sup>. Y mae'r testun yn awgrymu bod dau gydiad yn eisiau o flaen A, ac un cydiad yn eisiau ar ôl D ac E bob un. Felly yn y rhan o *Tim* dan sylw yma, sef ff. 21–45, amcangyfrifir bod un cydiad yn eisiau ar ôl ff. 31, un ffolio ac un cydiad yn eisiau ar ôl ff. 38, a ffolio yn eisiau ar ôl ff. 39 ac ar ôl ff. 44.

<sup>75</sup> Dyfynnir testun llawysgrif *S* yn yr enghreifftiau hyn, er mwyn dangos y gyfatebiaeth yn gliriach.

<sup>76</sup> Cf. darlleniad *Lllor* § 90:6, sef ffynhonnell y deunydd hwn: o *Penryn Blathaon em Pryden hyt em Penryn Penwaed eg Kernyu*. Gw. hefyd § 1769n.

<sup>77</sup> Gw. hefyd §§ 1779–80n.

<sup>78</sup> Teg nodi bod peth cyfatebiaeth rhwng *S* a *Tim* yn ail ran y gynffon, ond fel y gwelir o Gonsbectws 2 y mae hyn wedi ei chyfyngu i ddyrneidiau o adnodau gwasgaredig, ac nid yw hyn i'w weld yn fwy arwyddocaol na'r cyfatebiaethau achlysurol a chyffredinol a geir rhwng *S* a *J*, dyweder, neu *S* a *Q*.

<sup>79</sup> Amhosibl yw bod yn sicr ynglŷn â pha rannau'n union o ail ran cynffon *Tim* sy'n unigryw, a pha rannau sy'n digwydd mewn deddfgronau eraill, hyd nes y ceir golygiad o'r testun hwnnw yntau a'i fynegeio'n fanwl.

<sup>80</sup> Fodd bynnag, nid oes rheswm dros gredu ddarfod colli dalen(nau) o *S*, fel y gwelir o'r disgrifiad o'r llawysgrif, t. liii.

<sup>81</sup> Nid amherthnasol yw cofio hefyd fod *Tim*, ar sail trefn ei thraethigau, yn perthyn i ddosbarth Testunau Math A, sef y gangen fwy 'traddodiadol' ar dduill Bleg os derbynnir dadl y copiyydd-olygydd a amlinellwyd ar dd. xxx–xxxiii.

<sup>82</sup> Gan fod yr unig gyfeiriad at Gwenog yn *S* yn digwydd ond paragraff yn gynharach na'r enghraifft gyntaf ohono yn *Tim*, a chan fod perthynas hynod agos rhwng cynffonau'r ddwy llawysgrif yn y fan honno, fel y gwelwyd, efallai nad oes unrhyw arwyddocâd arbennig o ran daearyddiaeth nac o ran teyrngarwch i enw Gwenog yn *S*, ond bod y copiyydd wedi ei godi'n uniongyrchol o'r gysail. Ond gw. hefyd n. 83.

<sup>83</sup> Ceid cysylltiad penodol rhwng plwyfi Llanwenog a Llanddewibrefi yn y cyd-destun hwn. Dibynnai bywoliaeth canoniaid eglwysi colegol ar gyfran o ddegwm nifer o eglwysi plwyf a neilltuwyd at y gwaith, ac yr oedd plwyf Llanwenog ymhlith y rhai a gynhaliu eglwys golegol Llanddewibrefi; gw. Glanmor Williams, 'The Collegiate Church of Llanddewibrefi', *Ceredigion*, 4 (1963), 336–50.

<sup>83</sup> Gw. y Mynegai i Griffiths, *The Principality of Wales, s.n.* 'Llwyd'.

### PENNOD 3—LLAWYSGRIF BL ADD. 22356 (S)

<sup>1</sup> *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum 1854–1860* (London, 1875), t. 638.

<sup>2</sup> Evans, *RMWL*, cyf. 2:4 (London, 1910), tt. 948–9. Ceir rhai gosodiadau hollol ddi-sail yn y disgrifiad. Y mwyaf camarweiniol ohonynt yw'r canlynol: 'it [*S*] is apparently a copy, more or less, of *Q* which perished in the fire at Wynnstay'. Er y gellid maddau i Gwenogvryn Evans am dybio bod *Q* wedi ei cholli am byth, nid oes unrhyw reswm dros dybio bod *S* yn gopi ohoni. Gw. Consbectws 1 a Chonsbectws 2.

<sup>3</sup> Christine James, 'Llyfr Cyfraith o Ddyffryn Teifi: Disgrifiad o BL. Add. 22,356', *CLIGC* (1991-92), 383–404.

<sup>4</sup> Wotton, *Leges Wallicae*, 'Notitia Codd. MS [...]', [t. xli].

<sup>5</sup> Owen, *Ancient Laws*, cyf. i, t. xxxi.

<sup>6</sup> Gw. tt. xii, xxvi.

<sup>7</sup> Gw. tt. xii–xvi.

<sup>8</sup> Am arwyddocâd sêl 'Sebright', gw. t. lix a n. 28.

<sup>9</sup> Yn y catalog o lawysgrifau Edward Lhuyd a wnaethpwyd gan John Jones yn 1781 (sef llsgr. LIGC 13918 bellach; gw. n. 36) disgrifir llawysgrif ffolio rhif 1 fel a ganlyn: 'A large thick fo. being a miscellaneous Collection of M<sup>r</sup> E. Lhwyd, chiefly in his own handwriting' (tt. 14–15). Rhannwyd y llawysgrif honno bellach yn ddwy, sef LIGC 6209 a LIGC 13215. Yn ôl disgrifiad catalog John Jones, yr oedd y llawysgrif hon yn cynnwys 'A Copy of Howel Dda's Laws fairly written: at the end an Explication of some uncommon Terms in it. This seems to have been done by one Vorgeneu a Judge.' Y mae'r 'Explication' hwn, yn llaw Edward Lhuyd, bellach i'w gael yn LIGC 6209, ff. 757 *et seq.* Y teitl ar ben yr ymdriniaeth yw:

Rhai Geireu anarferol  
A gynith6yd allan o gyfreith Howel Dha yr hon a  
Scrivennoð Vorgeneu y Gnat [*sic*].

Dyma'r un geiriau yn union ag a geir ar odre ff. 147 yn *S*. Yn wir, ymddengys fod y ddalen hon yn *S* yn grynoded (neu efallai'n ddrafft?) o dudalen cyntaf a cholofn gyntaf ail dudalen yr ymdriniaeth yn llsgr. LIGC 6209.

<sup>10</sup> Gw. n. 33.

<sup>11</sup> Nid yw'r tudaleniad hwn yn hollol gywir, fodd bynnag. Y mae'n gywir hyd at d. 8 (*recto*), ond rhoddwyd 8 eto ar *verso*'r un ddalen; cywirodd yr ysgrifydd y gwall mewn inc tywyllach. Y mae'r tudalennau wedi eu rhifo'n gywir o hynny hyd at d. 86 (*recto*), ond rhoddwyd 88 ar *verso*'r un ddalen; o ganlyniad nid oes t. 87 yn y tudaleniad hwn. Rhifwyd yn gywir o d. 88 hyd at d. 101 (*recto*) ond rhoddwyd 100 ar *verso*'r un ddalen, a pharhau yn y rhifo hwn hyd at ddiwedd y testun. Cywirodd yr ysgrifydd bob un o'r tudalennau a gamrifwyd o d. 101 ymlaen gan ddefnyddio'r un inc tywyll.

<sup>12</sup> Gweler t. lx.

<sup>13</sup> Evans, *RMWL*, t. 948.

<sup>14</sup> Syr Frederick Madden (1801–73), Ceidwad Llawysgrifau'r Llyfrgell Brydeinig am y cyfnod 1837–66.

<sup>15</sup> Tybed ai dyna arwyddocâd y dyddiad '8 Nov 1963' sydd wedi ei stampio mewn inc glas ar y bocsy y cedwir y llawysgrif ynddo bellach?

<sup>16</sup> Ar ff. 131v gosodwyd allan mewn ysgrif fawr ddyddiad taith Hywel Dda i Rufain a dyddiad ei farwolaeth, a neilltuwyd y rhan fwyaf o ff. 132 i ddiagram achyddol. Gw. y delweddau ar wefan y Llyfrgell Brydeinig:

<http://www.bl.uk/onlinegallery/onlineex/illmanus/other/011add000022356u00131v00.html>

<http://www.bl.uk/onlinegallery/onlineex/illmanus/other/011add000022356u00132000.html>

Gw. hefyd yr Atodiad i'r bennod hon.

<sup>17</sup> Mewn trafodaethau blaenorol, cymerais mai un llaw sydd i'w gweld trwy'r testun, ac mai enghraifft arall o 'ddechrau newydd' sydd yma. Dilynir bellach arweiniad Huws, *Repertory*, sydd yn gweld llaw arall ar ff. 144v–5v.

<sup>18</sup> Y mae'r ysgrif ar ff. 131v yn debyg iawn i'r math o ysgrif a geir ar roliau'r Sesiwn Fawr. Cf., e.e., Rholyn Sesiwn Fawr Aberhonddu ar gyfer y bedwaredd flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri VIII—sef 1542—(Cymru 17/1), lle y mae llaw yr adran ragarweiniol yn hynod debyg i'r llaw ar y tudalen hwn.

<sup>19</sup> Evans, *RMWL*, t. 948.

<sup>20</sup> Gruffudd ab Owein ap Robert oedd enw Gruffudd Dwnn. Gw. G. H. Hughes, 'Y Dwniaid', *TAGC*, 1941, 136 a cf. llsgr. LIGC 12359, tt. 260–1.

<sup>21</sup> Dichon y perthyn y rhain i'r cyfnod pryd yr oedd Moses Williams yn paratoi *Leges Wallicae* gyda William Wotton.

<sup>22</sup> Y mae'n debygol iddo wneud y rhain wrth lunio ei ddisgrifiad o'r llawysgrif ar gyfer *RMWL*.

<sup>23</sup> Cadarnheir hyn gan rai nodweddion tafodieithol posibl yn orgraff *S*; gw. y drafodaeth ar orgraff a seinyddiaeth.

<sup>24</sup> Gw. tt. xix–xxi.

<sup>25</sup> Gellir canfod sawl Gruffudd ab Ieuan ap Rhys a Rhys ap Thomas ap Morgan yng Ngheredigion a Chaerfyrddin yn y cyfnod dan sylw ar dudalennau Lewys Dwnn, *Heraldic Visitations of Wales*, cyf. 1, fel a ganlyn:

Gruffudd ab Ieuan ap Rhys: tt. 36, 115, 141, 149, 240

Rees ap Thomas ap Morgan: tt. 99, 147, 215, 236.

Gwyddys hefyd fod un Rice Thomas Lewis yn ynad heddwch gweithredol yng nghylchdaith Caerfyrddin yn 1577 ac 1578; gw. J. R. S. Phillips, *The Justices of the Peace in Wales and Monmouthshire 1541–1689* (Cardiff, 1975), tt. 157–8.

<sup>26</sup> Gw. Griffiths, *The Principality of Wales*, s.n.; Llinos Beverley Smith, '“Cannwyll disbwyll a dosbarth”: Gwŷr Cyfraith Ceredigion yn yr Oesoedd Canol Diweddar', 245–6.

<sup>27</sup> Gan nad yw'r llawysgrif hon i'w hadnabod ymhlith yr eitemau yng nghatalog Lhuyd o lawysgrifau Celtaidd, 'Antiqua Britanniae lingua scriptorum quae non impressa sunt, catalogus ...', a gyhoeddwyd ganddo yn ei *Archaeologia Britannica* (Oxford, 1707), Tit. VII, t. 254 *et seq.*, y mae'n debygol iddi ddod i'w feddiant rywbryd ar ôl iddo lunio'r catalog hwnnw. Awgrym y rhagymadrodd Saesneg i'r *Archaeologia* yw iddo lunio'r catalog o lawysgrifau gryn amser cyn paratoi'r gyfrol ar gyfer y wasg, ond ei fod wedi cynnwys rhai ychwanegiadau a gododd yn y cyfamser: 'Having several years since written the *Catalogue of British Manuscripts in Welsh and Latin*; the Englishing of it on this Occasion seem'd Unnecessary; and 'tis therefore printed as I had it by me, with the Additions that occur'd inserted'. Gwyddys fod Lhuyd yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Gorffennaf 1698, er



enghraifft, ond cystal oedd ei gysylltiadau â'r ardal y tybir i'r llawysgrif gael ei hysgrifennu ynddi—a bwrw ei bod hi'n dal yn y cylch hwnnw ryw ganrif a hanner yn ddiweddarach—fel y gallai fod wedi dod i'w feddiant ar unrhyw adeg mewn gwirionedd.

<sup>28</sup> Gw. Eiluned Rees a Gwyn Walters, 'The Dispersion of the Manuscripts of Edward Lhuyd', *CHC*, 7 (1974–75), 166–7. Cyfeirir at y seliau a'r rhifau hyn bellach fel 'seliau Sebright' a 'rhifau Sebright' er ei bod yn debygol eu bod yn perthyn i'r cyfnod yn union cyn perchnogaeth Sebright mewn gwirionedd, tra oedd y llawysgrifau'n disgwyl prynwr ar ôl marw Lhuyd.

<sup>29</sup> 'Ancient Manuscripts: Rev. Edward Llwyd's Collection', *The Cambro-Britton*, 2 (1821), 201.

<sup>30</sup> Am fwy o fanylion, gw. Rees a Walters, 'The Dispersion of the Manuscripts of Edward Lhuyd'; 'Ancient Manuscripts: Rev. Edward Llwyd's Collection'; Brynley F. Roberts, 'Edward Lhuyd's Debts', *BBGC*, 26 (1974–76), 353–9.

<sup>31</sup> Er enghraifft, mewn llythyr at Owen Jones (Owain Myfyr) yn 1779, dywed Evan Evans (Ieuan Fardd) fel hyn: 'I am told no manner of care is taken in preserving Mr. Edward Llwyd of the Museum's manuscripts in the Seabright family [...] What a pity that such a treasure should fall into the hands of the English, who know no more how to value it than the dunghill cock in Æsop that of the jewel.' Dyfynnwyd yn D. Silvan Evans (gol.), *Gwaith y Parchedig Evan Evans (Ieuan Brydydd Hir)* (Caernarfon, 1876), tt. 245–6.

<sup>32</sup> Am restr o'r ysgolheigion a fanteisiodd ar gasgliad Lhuyd tra oedd ym meddiant teulu Sebright, naill trwy ymweld â'r llyfrgell neu trwy gael benthycy eitemau, gw. Rees a Walters, 'The Dispersion of the Manuscripts of Edward Lhuyd', 159–65.

<sup>33</sup> Y mae Moses Williams (1685–1742) yn ddolen gyswllt ddiddorol yn y bennod hon yn hanes y llawysgrif. Ymaelododd yng Ngholeg y Brifysgol, Rhydychen, 31 Mawrth 1705, a graddio'n BA yn 1709. Fe'i dewiswyd gan Edward Lhuyd yn ddisgybl iddo, a derbyniodd hyfforddiant mewn efrydiau ieithyddol a hynafiaethol. Bu'n cynorthwyo Lhuyd yn llyfrgell Amgueddfa Ashmole, a gellid tybio iddo fod yn gyfarwydd nid yn unig â chasgliad yr Amgueddfa ond hefyd â chasgliad personol Lhuyd o lyfrau a llawysgrifau. Cymerodd urddau eglwysig yn 1709, ond ni chefnodd ar ei ddiddordebau academiaidd ac yn 1724 dechreuodd gydweithio â William Wotton ar lawysgrifau Cyfraith Hywel gyda'r bwriad o baratoi testun cyfansawdd ohonynt a gyhoeddwyd maes o law fel *Leges Wallicae* (1730). Y mae'r nodiadau yn ei law ar ymyl sawl dalen yn *S* yn profi iddo ei darllen rywdro. Nid yw'n amhosibl mai Moses Williams a dynnodd sylw Wotton at fodolaeth y llyfrau cyfraith a fu unwaith ym meddiant Lhuyd, a chan iddo dderbyn bywoliaeth Llanwenog yn 1715, gellid dychmygu y byddai wedi cymryd diddordeb arbennig yn y llawysgrif hon ac enw nawddsantes y plwyf hwnnw'n ymddangos ar ei dal.

<sup>34</sup> Bellach llsgr. Rhydychen, Bodleian Carte 108, ff. 385–90.

<sup>35</sup> Am grynodeb o'r anawsterau, gw. Rees a Walters, 'The Dispersion of the Manuscripts of Edward Lhuyd', 167.

<sup>36</sup> Llsgr. LIGC 13918 bellach. Gw. hefyd n. 9.

<sup>37</sup> Gellid cynnig sawl esboniad posibl dros y ffaith na ellir canfod *S* yng nghatalog John Jones. Y mwyaf tebygol ohonynt, efallai, yw bod y llawysgrif allan 'ar fenthycy' adeg llunio'r catalog, ac iddi gael ei dychwelyd yn ddiogel i Beechwood yn ddiweddarach.

<sup>38</sup> Yn ôl llythyr oddi wrth Thomas Johnes at William Owen Pughe, Gorffennaf 1798, yr oedd Sebright wedi rhoi iddo 'all the MSS which were collected by Mr. Ed. Lhuyd respecting Wales'; llsgr. LIGC 13222, tt. 517–18.

<sup>39</sup> Cedwir y copi hwnnw o'r catalog bellach yn y Llyfrgell Brydeinig. Ceir trawsysgrifiad o'r adran sy'n ymwneud â'r eitemau Cymraeg a Chymreig yn llsgr. LIGC Gwenogvryn Evans 70A.

<sup>40</sup> Digwydd enw Kimpton sawl gwaith mewn catalogau o arwerthiannau mapiau yn y cyfnod, a'r tebyg yw ei fod yn asiant cymharol ddibwys, fel yr oedd y gŵr o'r enw Stace a brynodd nifer o lotiau eraill yn yr arwerthiant dan sylw yma.

<sup>41</sup> Owen Jones, Edward Williams a William Owen [Pughe] (gol.), *The Myvyrian Archaeology of Wales*, cyf. 3 (London, 1807), t. 318. Cf. hefyd nodyn i'r un perwyl yn Rhagair y gyfrol, t. vii. Syrthiodd 12 Ebrill 1807 ar ddydd Sul: yn ôl y catalog swyddogol, ni chynhaliwyd yr arwerthiant ar y Sul, ond fe werthwyd y llawysgrifau ar seithfed diwrnod yr arwerthiant, sef dydd Llun 13 Ebrill.

Rhaid nodi yn y fan hon y cadwyd peth tystiolaeth sy'n awgrymu mai *C* (llsgr. LIGC Peniarth 258, yn flaenorol Hengwrt 349) a werthwyd yn arwerthiant 1807; gw. Rees a Walters, 'The Dispersion of the Manuscripts of Edward Lhuyd', 173. Wedi ei ludo ar un o ddail blaen *C* y mae'r nodyn a ganlyn yn llaw W. W. E. Wynne:

This M.S. appears to have been made use of by Wotton, in editing his edition of the Welsh Laws—see note by him page 160. It certainly formed part of the Sebright Collection, & was purchased by Colonel Salesbury, or his brother Col: Vaughan. The only copy of the Laws of Howel Dda, however, in the sale Catalogue, is N<sup>o</sup> 1231., and sold for 1<sup>£</sup>. 3<sup>s</sup>. I strong[ly] suspect this M.S. is the one, though in the Catalogue, it is described as upon vellum.

Nid oes dwywaith na ddaeth *C* i Hengwrt o gasgliad Lhuyd-Sebright: y mae arni sêl a rhif Sebright (50), a gellir ei hadnabod yng nghatalog Carte, ff. 385. Fodd bynnag byddai derbyn mai *C* oedd lot 1231 yn arwerthiant 1807 yn golygu tybio bod y catalog swyddogol yn anghywir ar bwynt sylfaenol iawn, gan mai lawysgrif bapur yw *C*, ac nid ar femrwn. Fodd bynnag, y mae gwrthod *C* fel lot 1231 yn codi'r cwestiwn o sut y cyrhaeddodd hi Hengwrt, gan

mai trwy arwerthiant 1807 yr aeth eitemau eraill o gasgliad Lhuyd-Sebright yno, a lot 1231 oedd yr unig lawysgrif Cyfraith Hywel a gynigiwyd fel lot unigol. Tybed a oedd € yn rhan o lot cyfansawdd megis 1238, 'Four volumes of Ancient Welsh Cronicles [*sic*], Poetry, &c.' a brynwyd gan W.W. Wynne am £6. 6s. 0c.

Ceir cadarnhad pellach mai *S* oedd y llawysgrif o Gyfraith Hywel a werthwyd gan Leigh a Sotheby yn Ebrill 1807 o gyfeiriad arall. Yng nghyrol Samuel Rush Meyrick, *The History and Antiquities of the County of Cardigan* (London, 1808), tt. lxx–lxxi, argraffwyd cynllun o eisteddiad y llys a dynwyd, meddir, o hen lawysgrif o gyfreithiau Hywel Dda a werthwyd o gasgliad Sebright ym mis Ebrill 1807. Y llun ar ff. 3v yn *S* yw ffynhonnell amlwg y cynllun hwn. Gellid tybio mai ffrwyth uniongyrchol y berthynas ysgolheigaidd a fodolai rhwng Meyrick a William Owen Pughe oedd hyn: gwyddys i'r ddau lythyru ar faterion yn ymwneud â hanes a diwylliant Cymru, ac y mae Meyrick yn cydnabod ei ddyled fawr i Pughe yn y Rhagair i'w gyfrol, t. xviii.

<sup>42</sup> William Owen Pughe, 'A Catalogue of the Myvyrian MSS belonging to the Cymmrodorion', *Transactions of the [Second] Cymmrodorion*, 1 (1822), 178. Disgrifir *S* yn y catalog fel a ganlyn: 'A folio book, of 286 pages, fairly written, on vellum, about the year 1400, which is a copy of the Laws of Hywel Dda. This copy, being in complete preservation, and, therefore, legible throughout, is a record of great value'; *ibid.*, 197.

<sup>43</sup> Y mae'r llawysgrifau eraill a gyflwynodd y Cymmrodorion i'r Amgueddfa Brydeinig yn BL Add. 14962–15089; y ffaith na chyrrhaeddodd *S* yr Amgueddfa yr un pryd â gweddill casgliad y Cymmrodorion sy'n egluro pam na chafodd ei lleoli a'i chatalogio gyda hwy. Gw. ymhellach H. Idris Bell, 'The Welsh Manuscripts in the British Museum Collections', *TAGC* (1936), 36.

<sup>44</sup> Dangosir holl rychwant yr amrywiadau orgraffyddol yn yr Eirfa a'r Mynegai i Enwau Priod.

<sup>45</sup> Gw. Consbectws 2.

<sup>46</sup> Gw. y disgrifiad o *S* uchod.

<sup>47</sup> Dadleuodd Peter Wynn Thomas y gellir dosbarthu testunau canoloesol yn fras yn rhai deheuol a rhai gogleddol ar sail tri amrywyn penodol, sef: i) presenoldeb neu absenoldeb /-j-/ ym môn geiriau; ii) ffurfiau 3 unigol a lluosog yr arddodiaid *gan a rhwng* yn /-θ-/ neu /-t-/ neu /-d-/; a iii) ffurfiau 3 unigol gorffennol y ferf yn *-ws* neu *-awd*; gw. 'Middle Welsh Dialects: Problems and Perspectives', *BBGC*, 40 (1993), 17–50, ac *idem*, '(-th-): Tystiolaeth Beirdd y Tywysogion a'r Uchelwyr', *Dwned*, 15 (2009), 11–32. O'i mesur yn erbyn y tri amrywyn hyn yn unig, cymysg yw tystiolaeth *S*, a hynny'n rhannol, fe dybir, oherwydd amrywiaeth y ffynonellau a ddefnyddiwyd wrth lunio'r testun cyfansawdd hwn. Y mae tuedd gref i golli /-j-/ o'r bôn ('deheuol'), ond ceir y terfyniad *-abd* ('gogleddol') ac *-gys* ('deheuol') yn 3 unigol gorffennol y ferf. Y mae mwyafrif ffurfiau 3 person *gan* yn rhai â /-t-/ yn y bôn (deheuol), a mwyafrif ffurfiau *rhwng* â /-t-/ (deheuol) neu /-d-/ (?de ddwyrain).

Wrth ystyried nodweddion tafodieithol posibl yn *S*, pwysais yn bennaf ar Evan Jenkin Davies, 'Astudiaeth gymharol o dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd' (traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 1955). Defnyddiais hefyd H. M. Williams, 'The Dialects of Cardiganshire', *Transactions of the Cardiganshire Antiquarian Society*, 1 (1911), 45–7; E. R. Jones, 'Cymraeg Môn a Chymraeg Godre Ceredigion Ochr yn Ochr', *Y Geninen*, 32 (1914), 138–41; W. Beynon Davies, 'Ffin Dwy Dafodiaith', *BBGC*, 14 (1950–52), 273–83; David Gerwyn Lewis, 'Astudiaeth o iaith lafar gogledd-orllewin Ceredigion' (traethawd MA anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 1960); John James Glanmor Davies, 'Astudiaeth o Gymraeg llafar ardal Ceinewydd: ei seineg gydag ymchwiliadau gwyddonol, ei seinyddiaeth a'i ffurfiant gyda geirfa lawn, a chyfeiriad at ei semanteg' (traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 1934). Manylir ymhellach ar y nodweddion orgraffyddol a drafodir yma, gan nodi mwy o enghreifftiau, yn James, 'Golygiad o BL. Add. 22356 o Gyfraith Hywel', tt. cxxxviii–clxv.

<sup>48</sup> Davies, 'Astudiaeth gymharol o dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd', t. 93.

<sup>49</sup> *Ibid.*, tt. 10, 93. Cf. *GMW*, t. 2, a John Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913), tt. 16–17.

<sup>50</sup> Gw. hefyd y drafodaeth ar y deuseiniaid, isod.

<sup>51</sup> Davies, 'Astudiaeth gymharol o dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd', t. 94. Ar y cymysgu a ddiwyddai rhwng /e/ ac /y/ yn gyffredinol yn y Cyfnod Canol, gw. Morris-Jones, *A Welsh Grammar*, t. 16.

<sup>52</sup> Y mae ffurfiau fel *dyall*, *diellir* yn bur gyffredin ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn Cymraeg Canol a hyd y cyfnod diweddar. Gw. *GPC*, tt. 907–9.

<sup>53</sup> *GPC*, t. 1070.

<sup>54</sup> Davies, 'Astudiaeth gymharol o dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd', tt. 96–7.

<sup>55</sup> Ffurfiau 'traddodiadol' Cymraeg Canol yw'r rhain, a luniwyd trwy gymathiad, *iddun* > *uddun*; gw. *GMW*, t. 60.

<sup>56</sup> Gw. *GMW*, t. 1; Morris-Jones, *A Welsh Grammar*, t. 16.

<sup>57</sup> Gw. hefyd y drafodaeth ar y deuseiniaid.

<sup>58</sup> Gw. ymhellach, Eric P. Hamp, 'The Allophones of Medieval Welsh /x/ and /u/', *BBGC*, 16 (1954–56), 284–5.

<sup>59</sup> Davies, 'Astudiaeth gymharol o dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd', t. 95.

<sup>60</sup> *Ibid.*, t. 98.

- <sup>61</sup> Ar natur a chyd-destun y llafariad epenthetig, gw. Davies, ‘Astudiaeth gymharol o dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd’, t. 99–101.
- <sup>62</sup> Y mae colli /j/ o’r safle hwn yn un o’r tair nodwedd a ddefnyddiodd Peter Wynn Thomas i adnabod testunau canoloesol deheuol; gw. ‘Middle Welsh Dialects: Problems and Perspectives’, 26–8, ynghyd â n. 47 uchod.
- <sup>63</sup> Gw. *GMW*, t. 5.
- <sup>64</sup> Ar golli llafariad o’r goben acennog, gw. T. Arwyn Watkins, ‘Cyfnewidiadau Seinegol sy’n Gysylltiedig â’r “Acen” Gymraeg’, *BBC*, 26 (1976), 399–405.
- <sup>65</sup> Nodwyd eisoes y posibilrwydd mai camddehongli llafariad hirion yn ddeuseiniaid sy’n gyfrifol am rai amrywiadau orgraffyddol; gw. y drafodaeth ar /e/ ac /i/.
- <sup>66</sup> Gw. Davies, ‘Astudiaeth gymharol o dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd’, tt. 102–5.
- <sup>67</sup> Davies, ‘Astudiaeth Gymharol o Dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd’, t. 102.
- <sup>68</sup> *Ibid.*
- <sup>69</sup> *Ibid.*, t. 103.
- <sup>70</sup> *Ibid.*, tt. 103–4.
- <sup>71</sup> *Ibid.*, t. 110, a cf. sylwadau R. Geraint Gruffydd ar darddiad y gair *toili*, o *teulu*, yn ‘Sylwadau ar Gywydd “Yr Adfail” gan Ddafydd ap Gwilym’, yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol XI* (Dinbych, 1979), tt. 109–15. t. 14.
- <sup>72</sup> Davies, ‘Astudiaeth Gymharol o Dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd’, tt. 113–15.
- <sup>73</sup> *Ibid.*, tt. 116–18.
- <sup>74</sup> *Ibid.*, t. 122. Cf. y darnau a ddyfynnir gan Henry Lewis yn ‘Darnau o’r Efengylau’, *Y Cymmrodor*, 31 (1921), t. 199.
- <sup>75</sup> Davies, ‘Astudiaeth Gymharol o Dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd’, t. 106.
- <sup>76</sup> *Ibid.*, t. 120.
- <sup>77</sup> *Ibid.*, tt. 120–1.
- <sup>78</sup> Digwydd y rhan fwyaf o’r enghreifftiau o *c* ddechreuol yn rhan gyntaf y testun (sef yn y copi o destun Bleg), ac y mae’n bosibl bod y copi’dd wedi codi’r rhain o gynsail y rhan hon o’r testun.
- <sup>79</sup> Davies, ‘Astudiaeth Gymharol o Dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd’, t. 124.
- <sup>80</sup> *Ibid.*
- <sup>81</sup> Gw. y disgrifiad a’r enghreifftiau a nodir yn *GMW*, tt. 1–14.
- <sup>82</sup> Davies, ‘Astudiaeth Gymharol o Dafodieithoedd Llandygwydd a Dihewyd’, tt. 123–6.
- <sup>83</sup> Ni wnaethpwyd dadansoddiad manwl o orgraff *Tim* yn rhan o’r astudiaeth bresennol, ond ar sail arolwg bras o sampl o’r dail gellid awgrymu bod y testun hwn yntau’n rhannu llawer o brif nodweddion orgraff *S*.